Adroddiad ar arolygiad dirybudd o

# HMYOI Parc

gan Brif Arolygydd Carchardai EM

**11 – 22 Tachwedd 2019**

Cafodd yr arolygiad hwn ei gyflawni mewn partneriaeth â:

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
3ydd llawr
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU
Lloegr

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 5 |
| Tudalen ffeithiau | 7 |
| Gwybodaeth am yr arolygiad a'r adroddiad hwn | 9 |
| Crynodeb | 11 |
| Section 1. Adran 1. Diogelwch | 19 |
| Section 2. Adran 2. Gofal | 27 |
| Section 3. Adran 3. Gweithgareddau pwrpasol | 37 |
| Section 4. Adran 4. Adsefydlu | 41 |
| Section 5. Adran 5. Crynodeb o'r argymhellion a'r arferion da | 47 |
| Section 6. Adran 6. Atodiadau | 51 |
| Atodiad I: Y tîm arolygu | 51 |
| Atodiad II: Cynnydd yn erbyn argymhellion yr adroddiad diwethaf | 53 |
| Atodiad III: Proffil poblogaeth y sefydliad | 57 |
| Atodiad IV: Crynodeb o'r holiaduron a'r cyfweliadau | 61 |

**Geirfa**

Ceisiwn wneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, ond os dowch ar draws unrhyw dermau dieithr, ewch i'r adran Geirfa yn ein 'Canllaw ar ysgrifennu adroddiadau arolygu' ar ein gwefan yn: http://www.jusiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-our-inspections

# Rhagarweiniad

Uned i blant yw Sefydliad Troseddwyr Ifanc (HMYOI) Parc sydd ar yr un safle ond ar wahân i'r carchar hyfforddiant categori B mawr i ddynion o'r un enw a leolir ychydig y tu allan i Ben-y-bont ar Ogwr yn ne Cymru. Pan wnaed yr arolygiad hwn roedd yno 39 o blant gyda chapasiti ar gyfer tua 60. Yn gyffredin â sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI) eraill, mae'r sefydliad yn cael ei arolygu'n amlach na'r rhan fwyaf o garchardai ac roedd yr arolygiad diwethaf yn Hydref 2018.

Roedd hwn yn arolygiad da iawn. Roedd y graddau a roddwyd yr un fath ag ar gyfer yr arolygiad diwethaf ond nid yw hynny'n golygu bod y sefydliad wedi methu â gwella ymhellach nac ychwaith ei fod yn 'gorffwys ar ei rwyfau'. Sgoriodd yn weddol dda yn ein profion ar ddiogelwch ac adsefydlu, ac yn dda (ein gradd uchaf) ar gyfer gofal a gweithgareddau pwrpasol. Mae llwyddo i gynnal y safonau uchel hyn yn yr amgylchedd heriol o gadw plant dan glo'n adlewyrchu'n dda iawn ar yr arweinyddiaeth a'r gwaith tîm ac ar holl waith caled pawb a gyfrannodd at y canlyniadau hyn.

O ran diogelwch mae potensial clir i ennill gradd well o dda yn y dyfodol. Roedd y prosesau i gefnogi gwelliant o'r fath yn eu lle, ond ar y funud roedd y lefelau trais yn parhau i fod yn rhy uchel i hyn ddigwydd.

Yn amlwg mae cael eich rhoi dan glo, yn enwedig am y tro cyntaf, yn gallu bod yn amser annifyr a brawychus iawn i blentyn. Roedd yn dda gweld y sylw sylweddol oedd yn cael ei roi i hyn yn Parc. Er enghraifft roedd gwybodaeth am ddyfodiaid newydd yn cael ei derbyn ymlaen llaw, fel y gallai'r staff baratoi. Hefyd, ble bynnag y bo'n bosib, pan oedd plentyn yn cyrraedd byddai ei weithiwr allweddol yn dod i'w gyfarfod fel bod elfen o barhad a chysondeb i'r siwrne o gael eu rhoi dan glo. Roedd yn nodedig bod y mwyafrif llethol o blant wedi dweud, yn yr arolwg, eu bod yn teimlo'n ddiogel yn ystod eu noson gyntaf yn Parc.

Roedd y berthynas gadarnhaol rhwng staff a phlant yn ategu llawer iawn o'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn y sefydliad hwn. Gwelsom lawer iawn o enghreifftiau da o gyswllt cadarnhaol rhwng staff a phlant, yn enwedig yn y sesiynau addysg. Roeddwn yn arbennig o falch gweld bod y plant i gyd gyda'i gilydd ar gyfer prydau bwyd, sy'n hollol wahanol i'r hyn a welais mewn rhai sefydliadau eraill tebyg lle nad yw hyn byth bron yn digwydd. Roedd yn drueni nad oedd y plant yn meddwl llawer o'r bwyd ei hun, ac yn ein barn ni nid yw hyn yn ddigon da.

Nid yn unig oedd y bwyta cymunedol yn agwedd gadarnhaol iawn ar fywyd yn Parc, roedd y drefn feunyddiol i'r plant hefyd yn gwbl wahanol i'r hyn a welsom mewn mannau eraill. Wrth archwilio'r celloedd yn ystod y diwrnod ysgol, cawsom fod y plant i gyd allan o'u celloedd. O gyfuno hyn gyda chanfyddiadau hynod gadarnhaol ein cydweithwyr o Estyn ynghylch ansawdd a chyflwyno'r addysg, roedd yn anochel y byddai ein gradd ar gyfer gweithgareddau pwrpasol hefyd yn dda.

Roedd y plant yn Parc yn dod o ddalgylch eang iawn a llai na'u hanner yn dod o Gymru. Felly roedd heriau'n anorfod gyda darparu adsefydlu effeithiol ac roedden ni'n teimlo bod angen gwneud mwy i roi ffocws newydd i gyfeiriad strategol ac ymdrechion i reoli'r gwaith hwn. Felly daeth hyn yn un o'r pedwar pryder allweddol a gododd o'r arolygiad hwn. Yn amlwg mae cydbwysedd rhwng beth y gall carchar ei gyflawni ei hun yn hyn o beth, a'r pethau hynny lle mae'n dibynnu ar ymdrechion partneriaid ac asiantaethau eraill i'w cyflawni. Mae profiad yn dweud bod angen gwaith cyson a pharhaus i weld canlyniadau adsefydlu ac roedd yn galonogol gweld bod Parc yn rhoi pwysau ar bartneriaid yn y gymuned i ddarparu ar gyfer anghenion adsefydlu plant ar ôl eu rhyddhau.

Ond er y canfyddiadau hynod gadarnhaol a ddaeth o'r arolygiad hwn, roedd gennym bryderon fel yr oedi o hyd i rai plant gyda gallu gwneud galwadau ffôn yn ystod eu diwrnodau cyntaf yn y carchar. Roedd gan blant du a lleiafrifol ethnig hefyd argraffiadau gwaeth o ba mor deg oedd y cynllun cymhellion ac ennill manteision ac mae angen deall y rhesymau am yr argraffiadau hyn. Roedd pryder

hefyd nad oedd y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn darparu triniaethau ac ymyriadau'n unol â safonau cenedlaethol.

Fodd bynnag, ni ddylid gadael i'r pryderon hyn daflu cysgod dros y gwaith oedd yn rhoi canlyniadau da i'r plant oedd dan glo yn Parc. Gwelsom lawer o enghreifftiau o arfer da a ddisgrifir yn adran 5 yr adroddiad hwn, rhai y soniwyd amdanynt eisoes uchod, ond sydd hefyd yn cynnwys y prosesau rheoli a chymorth i ddioddefwyr a chyflawnwyr trais, y cymorth a roddir i blant i aros mewn cysylltiad â'u teuluoedd, presenoldeb nyrsys dynodedig yn yr uned blant a'r help a roddir i'r plant i weithio tuag at gyrraedd targedau eu dedfryd.

At ei gilydd, Parc yw'r YOI sy'n perfformio orau o bell yng Nghymru a Lloegr. Mae ganddo'r fantais o fod yn llai na rhai sefydliadau cymariaethol eraill ond ni ddylai eraill ddefnyddio hynny fel esgus dros beidio â thalu sylw priodol a llawn i'r hyn sydd wedi'i gyflawni yno. Yn ddiweddar bu'n rhaid i ni gyhoeddi rhai canfyddiadau trwblus yn dilyn ein harolygiadau o sefydliadau YOI eraill. Byddwn yn awgrymu bod llawer i'w ddysgu gan Parc ac y dylai ymarferwyr ac eraill sy'n ymwneud â datblygu polisi ac yn gyfrifol am weithredu carchardai i blant yn talu sylw manwl i'r adroddiad hwn.

**Peter Clarke CVO OBE QPM**
Prif Arolygydd Carchardai EM
Tachwedd 2019

# Tudalen ffeithiau

**Tasg y sefydliad**
Uned blant mewn carchar hyfforddiant categori B gyda chapasiti ar gyfer hyd at 64 o bobl ifanc ar remand ac ar ddedfryd.

**Llety arferol ardystiedig a chapasiti gweithredol**[1]
Nifer y carcharorion adeg yr arolygiad: 39
Capasiti arferol ardystiedig sylfaenol: 64
Capasiti arferol ardystiedig mewn defnydd: 64
Capasiti gweithredol: 60

**Nodweddion nodedig yr arolygiad hwn**

Roedd 60% o'r plant ar lyfrau'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

Roedd tua 46% o’r boblogaeth o gefndiroedd du a lleiafrifol ethnig.

Roedd 30% o'r plant yn Gymry.

Roedd 62% o'r plant dros 50 milltir i ffwrdd o'u cartrefi a hanner y rhain dros 100 milltir i ffwrdd o'u cartrefi.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant allan o'r gell am dros 10 awr y dydd.

**Statws y sefydliad**
G4S preifat.

**Rhanbarth / Adran**
Cymru

**Dyddiad yr arolygiad llawn diwethaf**
Hydref 2018

**Hanes byr**
Agorodd yr uned blant yn HMP a YOI Parc ym mis Mawrth 2002 fel uned 28 cell i blant ar remand rhwng 15-18 oed. Ym mis Hydref 2004, ehangodd ei chapasiti i 36 o blant rhwng 15-18 oed, ar remand ac ar ddedfryd, gan ehangu ei chapasiti ymhellach yn Chwefror 2007 i 64 o blant. Ym mis Mawrth 2013, ehangodd ddalgylch y llys ar gyfer yr uned o Gymru i gynnwys de-orllewin Lloegr o Ddyfnaint a Chernyw i'r ffin gyda Dorset. Yn Ebrill 2014 ehangodd ddalgylch y llys ymhellach i gynnwys Bryste, Swindon a Wiltshire.

**Disgrifiad byr o’r unedau preswyl**
Mae'r uned blant yn HMP&YOI Parc wedi'i lleoli yn y prif sefydliad ac mae'n cynnwys dwy uned lety ar wahân. Mae gan bob un gapasiti gweithredol o 24 gyda'r celloedd wedi eu rhannu i ddwy lefel ar wahân. Mae'r uned yn cynnwys 16 cell sengl a chwe chell ddwbl. Mae lle byw Golf One fymryn yn

[1] CNA (Llety Arferol Ardystiedig) sylfaenol yw cyfanswm yr holl lety ardystiedig mewn sefydliad, heblaw am gelloedd mewn unedau gwahanedig, celloedd gofal iechyd neu ystafelloedd na ddefnyddir yn arferol i gadw cleifion arhosiad hir. CNA mewn-defnydd yw'r CNA sylfaenol ond heb gynnwys lle nad yw ar gael i'w ddefnyddio'n syth, fel celloedd wedi cael difrod, celloedd sy'n cael gwaith adeiladu iddynt a chelloedd a dynnwyd allan o ddefnydd oherwydd prinder staff. Capasiti gweithredol yw cyfanswm y carcharorion y gall sefydliad ei ddal heb achosi risg ddifrifol i drefn dda, diogelwch a rhedeg y gyfundrefn yn briodol.

wahanol, gyda'r ystafelloedd i gyd ar un lefel. Mae gan Golf One gapasiti gweithredol o 36 gyda 12 o gelloedd sengl a 12 o rai dwbl. Mae gan y ddwy uned gyfleusterau cawodydd ar y safle ac mae gan bob cell deledu, toilet, desg, cadair, sinc a chwpwrdd.

**Enw'r cyfarwyddwr**
Janet Wallsgrove

**Contractwr hebrwng**
GeoAmey

**Comisiynydd a darparwyr gwasanaethau iechyd**
G4S Health Services UK

**Darparwyr dysgu a sgiliau**
G4S

**Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol**
Brian Thomas

# Gwybodaeth am yr arolygiad a'r adroddiad hwn

A1 Corff statudol, annibynnol yw Arolygiaeth Carchardai EM sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau byw pobl sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, cyfleusterau cadw mewnfudwyr a dalfeydd yr heddlu.

A2 Mae’r holl arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai EM yn cyfrannu at ymateb y DU i’w hymrwymiadau rhyngwladol o dan Brotocol Dewisol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosbi Creulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (OPCAT). O dan OPCAT, rhaid i bob man sy'n dal carcharorion dderbyn ymweliad rheolaidd gan gyrff annibynnol – a elwir yn Ddull Ataliol Cenedlaethol (NPM) – sy’n monitro amodau byw'r carcharorion a sut y maent yn cael eu trin. Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn un o nifer o gyrff yr NPM yn y DU.

A3 Mae’r adroddiadau arolygu i gyd yn cynnwys crynodeb o berfformiad y sefydliad yn erbyn y model o garchar iach. Y pedwar maen prawf ar gyfer carchar iach yw:

**Diogelwch**
Mae'r plant, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, yn cael eu cadw'n ddiogel.

**Gofal**
Mae'r plant yn derbyn gofal, mae eu hanghenion yn cael eu cwrdd ac maent yn cael eu trin gyda pharch i'w hurddas fel pobl.

**Gweithgareddau pwrpasol**
Mae'r plant yn gallu, a disgwylir iddynt, gymryd rhan mewn addysg a gweithgareddau eraill sy’n debygol o fod o fudd iddynt.

**Adsefydlu**
Mae'r plant yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau i'r gymuned ac yn cael eu helpu i fod yn llai tebygol o aildroseddu.

A4 O dan bob prawf, rydym yn gwneud asesiad o’r canlyniadau i blant ac, felly, o berfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mewn rhai achosion, effeithir ar y perfformiad hwn gan faterion sydd y tu allan i reolaeth uniongyrchol y sefydliad a lle mae angen ymateb cenedlaethol iddynt.

**Mae'r canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y canlyniadau i blant yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw faes pwysig.

**Mae'r canlyniadau i blant yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i blant dim ond mewn nifer fach o feysydd. I'r mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon mawr. Mae gweithdrefnau i ddiogelu canlyniadau yn eu lle

**Nid yw'r canlyniadau i blant yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
Mae tystiolaeth bod y canlyniadau i blant yn cael eu heffeithio’n andwyol mewn sawl maes neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i'w lles. Mae problemau / pryderon, os na roddir sylw iddynt, yn debygol o ddod yn feysydd o bryder difrifol.

**Mae'r canlyniadau i blant yn wael yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
Mae tystiolaeth bod y canlyniadau i blant yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan yr arferion presennol. Mae'r sefydliad yn methu â sicrhau hyd yn oed triniaeth a / neu amodau byw boddhaol i'r plant. Mae angen cymryd camau ar unwaith i gywiro hyn.

A5 Gallai ein hasesiadau arwain at un o'r canlynol:

**pryderon ac argymhellion allweddol**: adnabod y materion sydd bwysicaf i wella'r canlyniadau i blant ac a ddyfeisiwyd i helpu sefydliadau i flaenoriaethu a rhoi sylw i'r gwendidau mwyaf gydag amodau byw a'r driniaeth o blant

**argymhellion:** bydd angen newid sylweddol a / neu adnoddau newydd neu wedi eu hailgyfeirio, felly ni fydd yn bosib eu cyflawni'n syth, a fydd yn cael eu hadolygu mewn arolygiadau yn y dyfodol

**enghreifftiau o arfer da:** arferion gwych sydd nid yn unig yn cwrdd neu'n rhagori ar ein disgwyliadau, ond y gallai sefydliadau eraill tebyg eu dilyn i sicrhau canlyniadau da i blant.

A6 Mae arolygwyr yn defnyddio pum ffynhonnell dystiolaeth yn bennaf: arsylwi plant; arolygon plant; trafod gyda phlant; trafod gyda staff a thrydydd partïon perthnasol; a gwaith papur. Yn ystod arolygiad, defnyddiwn ddulliau cymysg o gasglu a dadansoddi data drwy fethodolegau ansoddol a meintiol. Mae'r dystiolaeth o wahanol ffynonellau'n cael ei chyfuno i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

A7 Mae ein harolygiadau i gyd yn ddirybudd, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn ôl-ddilyn argymhellion o'r arolygiad llawn diwethaf.

A8 Mae pob arolygiad carchar yn cael ei gyflawni ar y cyd ag Ofsted (Lloegr) neu Estyn (Cymru), y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) ac, ambell waith, ag Arolygiaeth Prawf EM. Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau y defnyddiwn wybodaeth arbenigol gan osgoi ymweliadau arolygu lluosog.

# Yr adroddiad hwn

A9 Yn dilyn yr eglurhad hwn o'n dull, rhoddir crynodeb o ganfyddiadau'r arolygiad yn erbyn y pedwar prawf o garchar iach. Yn dilyn hyn cyflwynir pedair adran a phob un yn rhoi cyfrif manwl o'n canfyddiadau yn erbyn ein Disgwyliadau. Meini prawf ar gyfer asesu amodau byw a sut y caiff plant a phobl ifanc eu trin yn y carchar. Mae'r cyfeirifau ar ddiwedd rhai o'r argymhellion yn nodi eu bod yn cael eu hailadrodd, ac yn rhoi lleoliad paragraff ar gyfer yr argymhelliad blaenorol yn yr adroddiad blaenorol. Mae Adran 5 yn casglu ynghyd yr holl argymhellion, y pwyntiau cadw tŷ a'r enghreifftiau o arfer da a gododd o'r arolygiad. Mae Atodiad II yn rhestru argymhellion yr arolygiad blaenorol, a'n hasesiad ynghylch a gawsant eu cyflawni neu beidio.

A10 Rhoddir manylion y tîm arolygu a phroffil poblogaeth y sefydliad yn yr atodiadau.

A11 Mae canfyddiadau'r arolwg plant, a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg, i'w cael yn atodiadau'r adroddiad hwn. Dylid nodi y gallwn ond cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau cymariaethol eraill, neu ag arolygiadau blaenorol, lle maent yn ystadegol arwyddocaol.[2]


[2] Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond 1% o siawns sydd bod y gwahaniaeth mewn canlyniadau wedi digwydd ar siawns.

# Crynodeb

S1 Arolygwyd HMYOI Parc y tro diwethaf gennym yn 2018 ac fe wnaethom 18 o argymhellion. Derbyniodd y carchar 10 o'r argymhellion yn llawn a phedwar yn rhannol (neu gan ddibynnu ar adnoddau). Gwrthododd y sefydliad bedwar o'r argymhellion.


S2 Yn yr arolygiad dilynol hwn, cawsom fod y carchar wedi cyflawni wyth o'r argymhellion hynny, wedi cyflawni un yn rhannol a heb gyflawni naw o'r argymhellion.

Ffigwr 1: Cynnydd HMYOI Parc gydag argymhellion yr arolygiad diwethaf (n=18)




S3 Ers yr arolygiad diwethaf mae'r canlyniadau i blant wedi aros yr un fath ym mhob un o'r meysydd carchar iach. Roedd y canlyniadau'n weddol dda ar gyfer diogelwch ac adsefydlu, ac yn dda ar gyfer gofal a gweithgareddau pwrpasol.

Ffigwr 2: Canlyniadau carchar iach HMYOI Parc 2018 a 2019[3]




[3] Dylid nodi bod y meini prawf a aseswyd o dan bob maes carchar iach wedi eu diwygio yn Nhachwedd 2018. Mae'r canlyniadau carchar iach yn adlewyrchu'r disgwyliadau oedd yn eu lle pan wnaed yr arolygiad.

# Diogelwch

**S4** Roedd y prosesau derbyn plant i'r carchar yn chwim ac roedd y broses gynefino wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol. Roedd y trefniadau amddiffyn plant wedi gwreiddio'n dda. Roedd y gofal i blant mewn perygl o hunan-niwed yn dda, ond y monitro'n dilyn patrwm rhy ddisgwyliedig. Roedd lefelau trais wedi gostwng ond yn parhau i fod yn uchel. Roedd her, a chynlluniau ymyrryd a chymorth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i roi sylw i fwlio a thrais ac i gefnogi dioddefwyr. Roedd y cynllun cymhellion yn ysgogi'r plant ac roedd perthynas dda rhwng y staff a'r plant yn gymorth i reoli ymddygiad yn effeithiol. Roedd lefel uchel o hyd o ddefnyddio grym a llywodraethu da. Dim ond am gyfnodau byr iawn oedd gwahanu'n digwydd ac roedd trosolwg gwell. **Roedd y canlyniadau i blant yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**

S5 Yn yr arolygiad diwethaf ym mis Hydref 2018 roedd y canlyniadau i blant yn HMYOI Parc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Fe wnaethom wyth o argymhellion ynghylch diogelwch. Yn yr arolygiad dilynol hwn cawsom fod tri o'r argymhellion wedi eu cyflawni a phump heb eu cyflawni.

S6 Roedd plant yn cael eu trin yn dda ar ôl cyrraedd, achosion derbyn newydd bob amser yn cael eu cynllunio a staff yn derbyn gwybodaeth gefndir berthnasol ymlaen llaw i'w helpu i baratoi. Ar ôl cyrraedd, roedd y plant yn cael eu hebrwng i'r uned yn ddioed a heb gael unrhyw gyswllt â'r oedolion oedd dan glo. Lle'r oedd yn bosib, roedd y cyswllt cyntaf yn cael ei wneud gan weithiwr allweddol y plentyn, nyrs yr uned a swyddog cynefino, i helpu i ddarparu parhad. Nid oedd y cyfweliadau cyntaf yn cael eu rhuthro, gyda ffocws ar ddiogelwch, ac yn digwydd yn breifat. Yn yr arolwg, dywedodd 82% o'r plant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn ystod eu noson gyntaf yn Parc.

S7 Ar ôl ymgynghori â phlant, mae'r rhaglen gynefino wedi cael ei byrhau a gweithgareddau ychwanegol wedi cael eu cyflwyno fel bod plant yn treulio llai o amser dan glo. Roedd deunydd ysgrifenedig da'n cael ei roi am sut oedd yr uned yn cael ei rhedeg, ac am hawliau'r plant. Fodd bynnag, roedd oedi cyn gadael i blant a allai fod â statws cyfyngedig wneud galwadau ffôn uniongyrchol yn parhau i fod yn problem.

S8 Roedd cyfarfod dyddiol yr uned amlddisgyblaethol yn parhau i fod yn fforwm defnyddiol i staff gael rhannu a thrafod gwybodaeth newydd am faterion diogelu. Roedd y gweithdrefnau amddiffyn plant wedi gwreiddio'n dda ac yn gweithio'n dda. Lle bo angen, roedd eiriolwyr yr uned yn helpu plant i godi unrhyw broblemau. Roedd cydweithio agos gyda'r gwasanaethau plant a'r heddlu. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod asesiadau o ansawdd da'n cael eu gwneud a phenderfyniadau rhesymol yn cael eu cymryd, gan gynnwys ymddiheuro'n ffurfiol ynghyd â chyngor a chanllawiau i staff lle bo angen.

S9 Dros y chwe mis blaenorol roedd 23 digwyddiad o hunan-niwed wedi bod o'i gymharu â saith adeg yr arolygiad blaenorol. Roedd cyfran helaeth o'r rhain yn ymwneud ag un plentyn. Roedd y rhan fwyaf yn cynnwys torri neu grafu ac nid oedd unrhyw achos difrifol o hunan-niwed wedi bod yn y 12 mis diwethaf. Yn y chwe mis blaenorol roedd 41 o ddogfennau ACCT[4] wedi eu hagor o'i gymharu â 28 adeg yr arolygiad blaenorol. Roedd dau o blant yn destun ACCT agored ar adeg yr arolygiad. Roedden nhw ac eraill buon ni'n siarad â nhw, a fu'n destun ACCT yn ddiweddar, yn gadarnhaol iawn am y gofal a gawsant gan staff yr uned a'r staff nyrsio. Roedd cofnodion o ansawdd da yn y dogfennau ACCT ond mewn un achos

4 Rheolaeth o achosion asesu, gofal dan glo a gwaith tîm ar gyfer plant gyda risg o hunanladdiad neu hunan-niwed.

roedd yr archwiliadau'n dilyn patrwm rhy ddisgwyliedig a chawsom wybod bod rhai arsylwadau wedi eu gwneud yn defnyddio teledu cylch cyfyng.

S10 Roedd y cynllun cymhellion ac ennill manteision (IEP) yn parhau i ysgogi'r plant. Roedd y staff a'r plant yn ei ddeall ac roedd yn cael ei reoli'n dda iawn. Roedd plant ar lefel uchaf y cynllun IEP (platinwm) yn cael mwy o amser allan o'r gell ym mhob pen i'r dydd, oedd yn gadarnhaol. Roedd nifer y gwrandawiadau dyfarnu wedi lleihau fymryn ers yr arolygiad diwethaf, a'r rhan fwyaf o'r cyhuddiadau'n briodol. Fodd bynnag roedd angen i ddyfarnwyr ddangos a chofnodi ymchwilio mwy manwl o'r dystiolaeth ar gyfer cyhuddiadau.

S11 Roedd lefelau trais i lawr ers yr arolygiad blaenorol ond yn parhau i fod yn uchel. Roedd nifer yr ymosodiadau difrifol ar staff a phlant yn parhau i fod yn isel iawn. Roedd y data cofnodi trais yn gynhwysfawr a strategaeth drylwyr yn ei lle, er nad oedd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i oleuo cynllun i leihau'r trais ymhellach. Roedd cynlluniau i gefnogi dioddefwyr a herio ymddygiad treisgar wedi gwreiddio ac yn gweithio'n dda. Roedd adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'r targedau i blant yn briodol, personol gyda ffocws ar ailintegreiddio.

S12 Roedd lefelau defnyddio grym wedi lleihau fymryn ond yn parhau i fod yn uwch na mewn sefydliadau YOI eraill. Roedd trosolwg rheolwyr ar ddefnyddio grym yn dda iawn ac nid oedd unrhyw ôl-waith o ddogfennau coll neu anghyflawn. Roedd y plant a'r staff i gyd yn cael eu dibriffio gan gydlynwyr rheoli a lleihau atal corfforol (MMPR) yn dilyn pob achos o ddefnyddio grym. Yn ein cyfweliadau preifat, roedd gan blant o gefndiroedd du a lleiafrifol ethnig argraff fwy negyddol o ddefnyddio grym, ac nid oedd hyn wedi cael sylw.

S13 Roedd y carchar wedi gweithio'n galed i ateb ein pryderon blaenorol am gadw cofnodion ar blant oedd yn cael eu gwahanu oddi wrth eraill neu'n cael eu symud o'u lleoliad arferol. O ganlyniad, roedd y cofnodion wedi gwella'n arw. Pur anaml oedd gwahanu'n digwydd, ac am gyfnodau byr. Y cyfnod gwahanu cyfartalog oedd un diwrnod a'r cyfnod hiraf yn y chwe mis diwethaf oedd pedwar diwrnod. Roedd hyn yn llawer gwell nag a welwn mewn sefydliadau YOI eraill

## Gofal

**S14** Roedd y plant yn gadarnhaol am staff a gwelsom ryng-gysylltu da a gofalgar drwy gydol yr arolygiad. Roedd y perthnasoedd da hyn yn cynorthwyo canlyniadau ym mhob agwedd ar fywyd yn Parc. Ar y cyfan roedd safon y llety'n dda a'r systemau cwyno a cheisiadau'n gweithio'n dda. Roedd y plant yn gallu bwyta eu holl brydau bwyd gyda'i gilydd, ond roedd angen gwella ansawdd y bwyd. Ar y cyfan roedd y gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ateb anghenion yr unigolion. Roedd y gwasanaeth ffydd yn parhau i fod yn dda. Roedd y gwasanaethau gofal iechyd yn parhau i fod yn dda ar y cyfan ond gyda diffygion yn y gwasanaeth CAMHS. **Roedd y canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**

S15 Yn yr arolygiad diwethaf ym mis Hydref 2018 roedd y canlyniadau i blant yn HMYOI Parc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Fe wnaethom dri argymhelliad ynghylch parch.[5] Yn yr arolygiad dilynol hwn cawsom fod dau o'r argymhellion wedi eu cyflawni ac un heb eu cyflawni.

S16 Roedd y berthynas rhwng staff a'r plant yn dda ac yn cynorthwyo'r canlyniadau ar draws y pedwar prawf. Yn ein cyfweliadau un-i-un roedd y plant i gyd yn teimlo bod o leiaf un aelod o

5 Yn ein fersiwn flaenorol o Disgwyliadau ar gyfer plant, 'Parch' oedd yr enw ar y prawf carchar iach hwn.

staff yn ofalgar ohonynt, gan ganmol y staff addysg yn enwedig. Yn yr arolwg, roedd y plant yn fwy tebygol o ddweud bod staff yn eu cefnogi, helpu neu annog na mewn sefydliadau YOI eraill. Roedd ein harsylwadau'n cefnogi'r farn hon; roedd staff yn amyneddgar gyda phlant ac yn rhoi ffocws priodol ar ateb eu hanghenion.

S17 Roedd yr ardaloedd allanol a chymunedol yn lân, yn cael eu cadw'n dda ac yn ddi-raffiti. Roedd y celloedd mewn cyflwr da ac wedi eu dodrefnu'n dda. Fodd bynnag roedd y celloedd dwbl yn rhy fach i gymryd dodrefn a chypyrddau ar gyfer dau o'r plant. Roedd staff yn sylwi pan oedd y celloedd yn fudr ac yn annog plant i'w glanhau. Roedd y mynediad at gawodydd, deunyddiau glanhau a'r cyfleusterau golchi'n llawer gwell nag y gwelwn fel arfer.

S18 Roedd rheolwyr wedi ceisio gwella ansawdd y bwyd ac roedd y plant ar y cwrs arlwyo'n coginio dwywaith yr wythnos i'r uned. Gallai plant ar lefel uwch ar y cynllun cymhellion goginio bwyd iddynt eu hunain ar rai penwythnosau. Er hyn, roedd argraff y plant o ansawdd y bwyd, a faint ohono oedd ar gael, yn parhau i fod yn wael ac roedd cyfiawnhad dros hyn. Gallai'r plant fwyta eu holl brydau bwyd gyda'i gilydd, oedd yn beth da. Roedd y trefniadau i brynu eitemau wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf ac roedd y plant yn gadarnhaol am y gwahanol bethau oedd ar werth.

S19 Roedd y fforwm cymunedol misol yn gweithio'n dda a'r adborth gan y plant yn arwain at newid. Roedd staff yr uned yn delio'n anffurfiol â'r rhan fwyaf o faterion, oedd yn dda. Roedd cwynion a cheisiadau ffurfiol yn cael eu rheoli'n dda.

S20 Roedd polisi cydraddoldeb da yn ei le, wedi'i ddiweddaru'n ddiweddar a'i deilwrio'n dda i amgylchiadau'r plant oedd yn cyrraedd a dod i fyw ar yr uned. Roedd tîm cydraddoldeb person ifanc yn cynnwys rheolwyr ar yr uned blant a staff yn gweithio ar gydraddoldeb ar y safle oedolion, ond roedd diffyg eglurder ynghylch y gwahanol rolau a chyfrifoldebau a dim digon o weithio ar y cyd. Cyflwynwyd a deliwyd yn briodol â phump o ffurflenni adrodd gwahaniaethu yn y chwe mis blaenorol.

S21 Yn y cyfweliadau un-i-un dywedodd y plant y cawsant eu trin yn wahaniaethol gan staff gyda'r cynllun cymhellion ac ennill manteision. Mae canlyniadau yn ôl tarddiad ethnig yn cael eu monitro ond heb fynd i'r afael â'r argraffiadau hyn. Nid oedd llawer o fonitro ar draws y nodweddion gwarchodedig eraill. Roedd swyddog cydraddoldeb ac ymgysylltu wedi mabwysiadu dull creadigol o hyrwyddo cydraddoldeb gan sicrhau bod gweithgareddau'r uned yn hyrwyddo amrywiaeth. Roedd dull rheoli achosion yn cael ei ddilyn i ateb anghenion nodweddion gwarchodedig y plant, oedd yn briodol. Ar y cyfan roedd y gwasanaethau ffydd yn dda a gallai'r plant fynychu gwasanaethau a gweddïau a siarad â chaplaniaid lle bo angen.

S22 Roedd y gwasanaethau iechyd yn parhau i roi ffocws ar y plentyn a'r gwasanaeth yn rhagorol, ac eithrio'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a chamddefnyddio sylweddau. Roedd dwy nyrs fedrus yn cyflwyno'r gwasanaeth gofal iechyd corfforol a meddwl sylfaenol ac roedd y gofal yn brydlon. Roedd mynediad da at glinigau gofal sylfaenol fel meddyg teulu a deintydd. Roedd asesiadau iechyd plant trylwyr yn cael eu gwneud yn ystod derbyn a chynefino ynghyd ag atgyfeirio priodol. Roedd diffygion wedi datblygu gyda'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau seico-gymdeithasol i blant, oedd heb eu staffio ers pum mis. Roedd hyn wedi cyfyngu mynediad at yr ymyriadau angenrheidiol. Roedd y gwasanaethau CAMHS wedi dirywio oherwydd diffyg darpariaeth seicoleg glinigol, roedd diffygion yn yr asesiadau nyrsio a gyda chadw cofnodion clinigol. Ac eithrio camddefnyddio sylweddau, roedd cynlluniau iechyd integredig yn eu lle i blant oedd yn cael eu rhyddhau.

# Gweithgareddau pwrpasol

**S23** Roedd amser allan o'r gell yn parhau i fod yn well na mewn sefydliadau YOI eraill ac wrth archwilio'r gofrestr, gwelsom bob tro fod y plant i gyd allan o'u celloedd. Roedd y cyfleusterau llyfrgell a'r mynediad atynt yn weddol dda a'r ddarpariaeth Ymarfer Corff yn rhagorol. Roedd cyfraddau cyflawni wedi gwella o'r lefel uchel a welsom yn yr arolygiad diwethaf. Roedd plant ag anghenion ychwanegol a rhai o gefndir du a lleiafrifol ethnig yn dysgu ar yr un cyflymder â dysgwyr eraill. Roedd y plant i gyd bron yn mynychu addysg yn rheolaidd a gydag agweddau da at ddysgu. Roedd yr addysgu'n dda iawn; roedd gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'r plant, yn eu haddasu i ateb yr angen ac yn cynllunio gwersi'n effeithiol. Roedd rheolwyr yn darparu cwricwlwm priodol ac yn rhoi'r cymorth oedd ei angen ar blant i ddysgu. **Roedd y canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**

S24 Yn yr arolygiad diwethaf ym mis Hydref 2018 roedd y canlyniadau i blant yn HMYOI Parc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Fe wnaethom un argymhelliad ynghylch gweithgareddau pwrpasol. Yn yr arolygiad dilynol hwn cawsom nad oedd yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni.

S25 Roedd amser allan o'r gell yn parhau i gwrdd â'n disgwyliadau ar gyfer y rhan fwyaf o'r plant. Wrth archwilio'r gofrestr bob tro, roedd 97% o'r plant mewn addysg a neb dan glo yn ystod y diwrnod ysgol, oedd yn llawer gwell na mewn sefydliadau YOI eraill. Roedd plant yn cael eu symud at addysg yn ddiymdroi, heb bron ddim llithriad. Yn ystod yr wythnos nid oedd y plant dan glo am ddeg awr ar gyfartaledd, a thua saith awr ar y penwythnos.

S26 Roedd gan y plant i gyd fynediad boddhaol at lyfrgell oedd yn cynnwys ystod ddigonol o lyfrau priodol i oed, gan gynnwys llyfrau Cymraeg, deunyddiau hygyrch, llyfrau mewn ieithoedd tramor a nofelau darluniadol. Roedd y llyfrgell wedi'i staffio am dri hanner diwrnod yr wythnos a gallai staff yr uned nôl llyfrau i'r plant. Roedd gan y plant hefyd fynediad da at y gampfa ac at gyfleusterau hyfforddi ffitrwydd ac addysg gorfforol o ansawdd uchel.

S27 Roedd y safonau a gyflawnir gan y plant wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol. Roedd y plant bron i gyd yn gweithio o leiaf un lefel yn uwch na'u lefel llythrennedd a rhifedd pan gawsant eu derbyn. Roedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac o wahanol gefndiroedd ethnig yn dysgu ar gyflymder tebyg i ddysgwyr eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn ennill nifer o gymwysterau priodol yn ystod eu dedfryd a rhai'n cwblhau cymwysterau oedd yn cymryd hirach, fel TGAU a safon UG. Roedd plant yn ennill sgiliau newydd a fyddai o ddefnydd iddynt ar ôl eu rhyddhau, fel TGCh, rheoli arian a chyllidebu, gwaith coed a sut i gadw'n iach a ffit. Gallai dysgwyr fynegi eu hunain yn dda ac egluro cysyniadau i athrawon a chyd-ddysgwyr. Roedd gan y rhan fwyaf o'r plant ymwybyddiaeth sylfaenol o'r iaith Gymraeg.

S28 Roedd y plant i gyd bron yn mynychu addysg yn rheolaidd ac yn mwynhau eu gwersi, yn enwedig y rhai mwy ymarferol fel gwaith coed, coginio ac ymarfer corff. Teimlai'r rhan fwyaf o'r plant yn ddiogel yn dysgu ac roedd ganddynt berthynas arbennig o dda â'u hathrawon. Roedd y plant yn canolbwyntio'n dda y rhan fwyaf o'r amser. Gwelsom blant yn cydweithredu'n dda yn y gwersi ac yn helpu ei gilydd gyda'u gwaith.

S29 Roedd athrawon yn rhoi sylw da iawn i asesiadau cychwynnol, diddordebau a galluoedd naturiol plant wrth gynllunio eu sesiynau i sicrhau bod yr addysg wedi'i gwahaniaethu'n effeithiol a bod her yn y gwaith. Roedd gan athrawon ddisgwyliadau uchel priodol o ddysgu ac ymddygiad y plant ac yn defnyddio ystod dda iawn o weithgareddau a deunyddiau, gan gynnwys deunyddiau dwyieithog, i helpu'r plant i ddysgu'n effeithiol. Roedd yr athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig clir a defnyddiol i helpu'r plant i wella eu gwaith. Roeddent

yn gwneud defnydd da o gynlluniau dysgu unigol a chynlluniau addysg i dracio cynnydd yn effeithiol. Roedd y cwricwlwm yn gytbwys ac wedi'i gynllunio'n dda, gyda chwricwlwm craidd oedd yn cynnwys sgiliau hanfodol mewn Saesneg a Mathemateg.

S30 Roedd trefniadau cynefino effeithiol i sicrhau bod plant yn cael eu rhoi ar lwybr dysgu priodol, gan gynnwys asesiadau sylfaenol mewn Saesneg a Mathemateg. Roedd rheolwyr yn ddiweddar wedi bod yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i roi gwybodaeth ddiduedd i blant o Gymru am eu cyfleoedd gwaith ar ddiwedd eu dedfrydau. Roedd athrawon yn monitro cynnydd y plant yn effeithiol.

S31 Roedd tîm rheoli cryf wedi cynyddu o ran nifer ac effeithiolrwydd ers yr arolygiad diwethaf. Roedd gan reolwyr a staff weledigaeth briodol a dyheadau uchel ar gyfer y plant. Roedd yr uned addysg unwaith eto wedi rhagori ar y dangosyddion perfformiad yn ei chontract. Roedd rheolwyr wedi cyflawni hunan-werthusiad trylwyr, cynhwysfawr a gonest a chynllun datblygu ansawdd oedd yn dadansoddi'r dystiolaeth a chyflwyno cynlluniau clir ar gyfer gwella. Roedd rheolwyr yn parhau i ddatblygu partneriaethau cymunedol da i ehangu'r cyfleoedd addysg a chwaraeon oedd ar gael i'r plant. Roedd rheolwyr yn ystyried barn y dysgwyr ac yn gwneud newidiadau o ganlyniad.

## Adsefydlu

**S32** Roedd cymorth da iawn i helpu'r plant i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a ffrindiau. Roedd bylchau gyda rheoli adsefydlu yn y flwyddyn flaenorol, fel bod peth o'r ddarpariaeth wedi llithro. Roedd llwythi achosion y tîm ymgysylltu a lles yn isel ac roeddent yn cael cyswllt ystyrlon ac aml gyda'r plant. Roedd presenoldeb a chefnogaeth dda i'r cyfarfodydd cynllunio gan staff preswyl. Roedd staff y carchar yn dechrau herio eu partneriaid cymunedol i wella'r canlyniadau adsefydlu i'r plant. Roedd y trefniadau i amddiffyn y cyhoedd yn weddol. Er ymdrechion gorau'r staff, roedd achosion lle nad oedd llety'n cael ei gadarnhau'n ddigon buan er mwyn gallu cwrdd ag anghenion addysg a gofal iechyd. **Roedd y canlyniadau i blant yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**

S33 Yn yr arolygiad diwethaf ym mis Hydref 2018 roedd y canlyniadau i blant yn HMYOI Parc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Fe wnaethom chwe argymhelliad ynghylch adsefydlu. Yn yr arolygiad dilynol hwn cawsom fod tri o'r argymhellion wedi eu cyflawni, un wedi'i gyflawni'n rhannol a dau heb eu cyflawni.

S34 Roedd y cymorth i helpu plant aros mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau'n parhau i fod yn dda iawn. Roedd defnydd da o ddiwrnodau teuluol ac roedd mwy o ddiwrnodau teuluol ers yr arolygiad diwethaf. Yn yr arolwg, dywedodd y plant i gyd eu bod yn gallu ffonio bob dydd. Roedd y carchar yn cynnig cymorth da i deuluoedd oedd yn teithio o bell. Roedd dulliau cyswllt eraill hefyd ar gael fel Skype, e-bostio carcharor a gwasanaethau neges llais.

S35 Roedd trosolwg a rheolaeth strategol o'r gwaith adsefydlu wedi llithro ers yr arolygiad blaenorol. Roedd presenoldeb gwael yn y cyfarfodydd adsefydlu weithiau ac nid oedd yr argymhellion yn dilyn dadansoddi anghenion yn gyrru'r strategaeth adsefydlu. Roedd y prosesau rhyddhau'n fuan a chyrffyw cadw yn y cartref yn cael eu rhedeg yn effeithiol. Roedd cynllunio i blant wrth symud i garchardai oedolion yn weddol, ond yn waeth i blant ar remand. Roedd llai o blant yn defnyddio rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) nag adeg yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag roedd ROTL yn cael ei ddefnyddio i bwrpas adsefydlu i'r nifer fach oedd â mynediad ato. Roedd diffygion mewn rhai o'r gwasanaethau oedd eu hangen ar blant cyn cael eu rhyddhau, yn enwedig camddefnyddio sylweddau.

S36 Roedd gweithwyr achos y timau anghenion, ymgysylltu a lles yn gydwybodol a phrofiadol. Roedd ganddynt lwythi achosion isel o tua chwech o blant, ac roeddent yn cael cyswllt aml ac ystyrlon â nhw. Roeddent yn adnabod eu plant yn dda. Roedd cofnodion achos y Fframwaith Ceisiadau Cyfiawnder Ieuenctid yn adlewyrchu hyn ac yn wych.

S37 Roedd dros ddau o bob tri o blant yn yr arolwg yn gwybod bod ganddynt gynllun dedfryd a 85% o'r rhain yn deall beth oedd angen iddynt ei wneud i gyrraedd eu targedau. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn gadarnhaol am y cymorth a gawsant gan staff i gyrraedd eu targedau. Roedd y plant yn derbyn adolygiad amserol o'u cynlluniau dedfryd a remand a mynediad da at eu gweithiwr achos rhwng adolygiadau. Roedd staff preswyl yn mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd adolygu, oedd yn gadarnhaol. Ar y cyfan roedd y cyfathrebu rhwng gweithwyr achos, y timau troseddwyr ifanc (YOT), gweithwyr cymdeithasol a'r rhieni'n adeiladol. Roedd gweithwyr achos yn dechrau herio'r partneriaid cymunedol yn gryfach i eiriol ar ran anghenion adsefydlu'r plant.

S38 Roedd bylchau yn y trosolwg gan reolwyr ac roedd rhai gweithwyr achos yn aneglur ynghylch y prosesau uwchgyfeirio mewnol. Nid oedd cynlluniau i sicrhau bod cynnydd addysgol y plant yn parhau yn y gymuned bob amser yn drylwyr. Er bod y cyfarfodydd adolygu'n trafod risg o niwed, nid oedd hyn bob tro'n trosglwyddo i gynlluniau rhyddhau'r plant i adnabod unrhyw risg o niwed yn y gymuned.

S39 Wrth gyrraedd, roedd proses foddhaol i adnabod risgiau amddiffyn y cyhoedd. Roedd trefniadau i fonitro cyfathrebu a chyfyngu cyswllt gyda phlant yn cael eu rheoli'n briodol. Roedd gweithwyr achos yn gweithio'n effeithiol â'r timau YOT i gefnogi'r trefniadau aml-asiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA) er nad oedd rhai yn y tîm yn llwyr ddeall y gweithdrefnau amddiffyn y cyhoedd. There was a lack of management oversight of assessment and sentence planning in high-risk cases.

S40 Roedd nifer uchel o hyd o blant wedi bod, neu'n parhau i fod ar lyfrau'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Roedd cymorth gan awdurdodau lleol yn amrywio er bod yr uwch-weithiwr cymdeithasol yn sicrhau bod plant gyda statws mewn gofal fel arfer yn derbyn eu hawliau.

S41 Roedd y cynlluniau rhyddhau'n dda ac yn adnabod anghenion unigol y plant. Pan oedd pryder nad oedd anghenion plant wedi cael eu cwrdd cyn eu rhyddhau, roedd y gweithwyr achos yn gofyn am gymorth y carchar, er eu bod yn ansicr sut i uwchgyfeirio achosion. Ar y diwrnod rhyddhau, roedd gweithwyr achos yn sicrhau bod plant yn cael eu cwrdd wrth y gât gan oedolyn addas bob tro.

S42 Nid oedd unrhyw blentyn wedi'i ryddhau yn y chwe mis blaenorol heb gyfeiriad i fynd iddo, er bod llety wedi'i drefnu'n llawer rhy agos i'r dyddiad rhyddhau ar bedwar achlysur. Roedd hyn yn atal ailintegreiddio'n effeithiol yn y gymuned. Roedd cyngor ar drin arian a chyllidebu'n rhan o wersi addysg ac roedd y plant i gyd yn ei dderbyn. Nid oedd digon o dystiolaeth bod gan blant addysg neu weithgareddau da, addas ar ôl eu rhyddhau. Dim ond i blant o Gymru, oedd yn lleiafrif yn y carchar, oedd y cyngor gyrfaol ar gael. Roedd gweithwyr achos yn darparu ystod dda o ymyriadau heb eu hachredu i blant, ac roedd y rhan fwyaf o blant wedi derbyn o leiaf un ymyriad yn ystod eu hamser yn Parc. Nid oedd y fforwm i gynllunio a threfnu dilyniant ymyriadau i blant yn cyfarfod mwyach.

## Pryderon allweddol ac argymhellion

S43 Pryder allweddol: Er ymdrechion i ddatrys y broblem, roedd oedi o hyd cyn gadael i blant a allai fod â statws cyfyngedig wneud galwadau ffôn uniongyrchol yn ystod eu diwrnodau cyntaf dan glo.

**Argymhelliad: Dylai HMPPS sicrhau bod bob plentyn yn Parc yn gallu gwneud galwadau ffôn uniongyrchol ar eu diwrnod cyntaf dan glo.**

S44 Pryder allweddol: Pan gynhaliwyd yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig ar lefel platinwm (y lefel uchaf ar y cynllun cymhellion ac ennill manteision). Yn ein cyfweliadau preifat, dywedodd plant eu bod wedi profi a / neu wedi bod yn dyst i staff yn trin plant du a lleiafrifol ethnig yn wahaniaethol wrth reoli ymddygiad a chymhellion. Nid oedd cofnodion y carchar ar y cynllun IEP yn cynnwys monitro tarddiad ethnig a lefelau IEP ac ni allai'r rheolwyr egluro'r pryderon hyn.

**Argymhelliad: Dylid craffu'r data'n drylwyr i sicrhau nad yw'r prosesau rheoli ymddygiad yn gwahaniaethu.**

S45 Pryder allweddol: Nid oedd y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn darparu ystod addas o asesiadau, triniaethau ac ymyriadau i blant yn Parc. Nid oedd ymyriadau seicoleg yn cael eu darparu mwyach, nid oedd therapydd iaith a lleferydd a dim tystiolaeth o therapïau siarad ffurfiol, oedd yn rhywbeth oedd yn amlwg ei angen ar y boblogaeth.

**Argymhelliad: Dylai'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ddarparu ystod addas o asesiadau, triniaethau ac ymyriadau i blant yn unol â safonau cenedlaethol.**

S46 Pryder allweddol: Roedd trosolwg a rheolaeth strategol o'r gwaith adsefydlu wedi llithro ers yr arolygiad blaenorol. Nid oedd pob cyfarfod adsefydlu wedi'i gynnal fel y dylai, a lefel wael o bresenoldeb mewn rhai. Roedd rhai gweithwyr achos yn aneglur ynghylch y gweithdrefnau uwchgyfeirio mewnol, nid oedd goruchwyliaeth o weithwyr achos ac nid oedd uwch-reolwr bob amser yn sicrhau ansawdd asesiadau.

**Argymhelliad: Dylai arweinwyr a rheolwyr ddarparu trosolwg effeithiol ar y gwaith adsefydlu i sicrhau bod asesiadau'n drylwyr, bod anghenion plant yn cael eu cwrdd a bod llwybrau clir ar gyfer uwchgyfeirio pryderon sy'n codi.**

# Section 1. Adran 1. Diogelwch

## Y dyddiau cynnar dan glo

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae plant sy'n trosglwyddo i ac o'r carchar yn ddiogel ac yn cael eu trin yn iawn. Ar ôl cyrraedd mae'r plant yn ddiogel ac yn cael eu trin gyda pharch. Mae anghenion yn cael eu hadnabod a chael sylw, a'r plant yn teimlo bod ganddynt gymorth ar eu noson gyntaf. Mae'r cynefino'n gynhwysfawr.**

**1.1** Ar gyfartaledd roedd 10 o blant newydd yn cael eu derbyn i'r uned bob mis ac i gyd bron yn cael eu derbyn yn ystod y diwrnod craidd. Dros y flwyddyn flaenorol roedd dau o blant wedi cyrraedd gyda'r nos a chawsom wybod fod digon o staff o hyd i ddelio â rhai'n cyrraedd yn hwyr. Yn yr arolwg, dywedodd 84% o blant eu bod yn cael eu trin yn dda wrth gael eu derbyn, ac adlewyrchwyd hynny wrth i ni holi'r plant. Roedd achosion derbyn newydd bob amser wedi eu cynllunio a staff yn derbyn gwybodaeth gefndir berthnasol ymlaen llaw.

**1.2** Roedd aelod o staff yr uned yn cyfarfod y plant wrth gyrraedd ac yn eu hebrwng i'r uned yn ddiymdroi. Gofalwyd i sicrhau nad oeddent yn cael unrhyw gyswllt â'r oedolion dan glo. Lle'r oedd yn bosib, roedd y cyswllt cyntaf yn cael ei wneud gan weithiwr allweddol y plentyn, nyrs yr uned a swyddog cynefino, i helpu i ddarparu parhad.

**1.3** Roedd cyfweliadau cychwynnol yn cael eu cynnal yn breifat a heb ruthro'r plentyn. Roedd ffocws priodol ar ddiogelwch, iechyd a lles yn y trafodaethau hyn.

**1.4** Roedd celloedd y plant ar eu noson gyntaf yn lân, heb raffiti ac wedi eu dodrefnu'n foddhaol. Yn yr arolwg, dywedodd 82% o'r plant eu bod yn teimlo'n ddiogel ar eu noson gyntaf.

**1.5** Ar ôl ymgynghori â'r plant, mae'r rhaglen gynefino wedi cael ei byrhau o bump i dri diwrnod a gweithgareddau ychwanegol wedi eu cyflwyno fel bod plant yn treulio llai o amser dan glo. Cyflwynwyd deunyddiau ysgrifenedig defnyddiol yn adlewyrchu barn y plant am sut oedd yr uned yn cael ei rhedeg, gyda phwyslais cryf ar hawliau plant.

**1.6** Er ymdrechion i ddatrys y broblem, roedd oedi o hyd cyn gadael i blant a allai fod â statws cyfyngedig wneud galwadau ffôn uniongyrchol yn ystod eu diwrnodau cyntaf dan glo (gweler y pryder allweddol ac argymhelliad S43).

### Arfer da

**1.7** *Roedd cynefino da'n sicrhau bod plant a gyrhaeddai o'r newydd yn treulio cyfnodau hir allan o'r gell.*

## Diogelu plant

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r sefydliad yn hyrwyddo lles plant, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl, ac yn eu gwarchod rhag pob math o niwed ac esgeulustod.**

**1.8** Roedd y gweithdrefnau diogelu plant yn parhau i fod yn gadarn. Roedd gweithiwr cymdeithasol yr uned yn brofiadol iawn. Roedd ganddo berthynas weithio dda gyda'i gydweithwyr yn y gymuned ac yn ddolen gyswllt effeithiol rhwng yr uned ac asiantaethau cymunedol pan oedd angen cyngor neu arweiniad ar ddiogelu.

**1.9** Roedd y cyfarfod dyddiol amlddisgyblaethol yn fforwm defnyddiol o hyd i staff gael rhannu gwybodaeth am ddiogelu a thrafod materion yn codi o'r newydd.

**1.10** Roedd y berthynas rhwng staff a'r plant yn gadarnhaol oedd yn helpu i feithrin diwylliant o ymddiriedaeth (gweler paragraff 2.1). Roedd hyn wedi'i adlewyrchu yng nghanlyniadau cadarnhaol yr arolwg a'r cyfweliadau gyda'r plant. Roedd hawliau plant yn cael eu hyrwyddo gan eiriolwyr Barnardo.

**1.11** Roedd honiadau amddiffyn plant gan blant neu oedolyn cyfrifol yn cael eu pasio ymlaen i'w awdurdod lleol ar gyfer ymgynghori neu eu hymchwilio'n allanol. Yn y chwe mis blaenorol gwnaed 12 o atgyfeiriadau o'i gymharu â phedwar adeg yr arolygiad blaenorol. Roedd eiriolwyr Barnardo, oedd â phroffil uchel yn yr uned, yn chwarae rôl ddefnyddiol yn helpu plant i godi problemau a'u cefnogi drwy unrhyw ymchwiliad. Roedd y rhan fwyaf o'r honiadau'n ymwneud ag atal neu gwynion am staff ac yn derbyn sylw i safonau proffesiynol.

**1.12** Roedd gan yr uned gysylltiadau agos â'r awdurdod lleol a'r heddlu, oedd yn ymateb yn brydlon ac effeithiol i atgyfeiriadau amddiffyn plant (gweler paragraff 1.8). Dengys y cofnodion a welsom fod tystiolaeth yn cael ei hystyried yn drylwyr, bod asesiadau ansawdd da'n cael eu gwneud a phenderfyniadau'n gytbwys a rhesymegol. Mewn un achos roedd plentyn wedi cael ymddiheuriad ffurfiol, ac mewn achos arall rhoddwyd cyngor i aelod o staff.

# Atal hunanladdiad a hunan-niwed

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r sefydliad yn darparu amgylchedd diogel a gwarchodol sy'n lleihau'r risg o hunan-niwed a hunanladdiad. Mae plant gyda risg o hunan-niwed a hunanladdiad yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn derbyn cymorth angenrheidiol. Mae'r staff i gyd yn ymwybodol ac yn effro i faterion bod yn fregus, yn cael eu hyfforddi'n briodol a gyda mynediad at gyfarpar a chymorth priodol.**

**1.13** Roedd lefel yr hunan-niwed wedi cynyddu ers yr arolygiad blaenorol ond roedd cyfran helaeth yn ymwneud ag un plentyn. Dros y chwe mis blaenorol roedd 23 digwyddiad o hunan-niwed wedi bod o'i gymharu â saith adeg yr arolygiad blaenorol. Roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â phlant yn crafu neu'n torri eu hunain ac nid oedd yr un yn bygwth bywyd. Dros yr un cyfnod, roedd nifer y dogfennau ACCT[6] ar agor wedi cynyddu i 41 o'i gymharu â 28 o'r blaen.

**1.14** Ar adeg yr arolygiad, roedd dau o blant yn destun ACCT agored. Roedden nhw a phlant eraill y buon ni'n siarad â nhw, a fu'n destun ACCT yn ddiweddar, yn gadarnhaol iawn am y gofal a gawsant gan staff yr uned a'r staff nyrsio.

**1.15** Roedd ansawdd y dogfennau ACCT yn drylwyr a'r nodiadau dyddiol yn cynnwys cofnodion o ansawdd da. Fodd bynnag, mewn un achos roedd y cofnodion yn nodi bod archwiliadau dros nos wedi dilyn patrwm rhy ddisgwyliedig a rhai arsylwadau wedi eu gwneud o bell, yn defnyddio teledu cylch cyfyng. Roedd y ddau arfer yn creu risgiau diangen.

**1.16** Roedd data ar hunan-niwed yn cael ei adolygu yn y cyfarfod diogelu misol a gynhaliwyd ar y prif safle. Roedd achosion unigol yn cael eu harchwilio'n fwy manwl mewn cyfarfodydd diogelu misol yn yr uned, gyda gweithwyr achos a staff gofal iechyd yn bresennol.

---

[6] Rheolaeth o achosion asesu, gofal dan glo a gwaith tîm ar gyfer plant gyda risg o hunanladdiad neu hunan-niwed.

### Argymhellion

**1.17 Ni ddylid cyflawni archwiliadau arsylwi plant sy'n dilyn patrwm rhy ddisgwyliedig.**

**1.18 Ni ddylid defnyddio monitro teledu cylch cyfyng yn lle cyswllt ystyrlon wyneb yn wyneb ac arsylwi personol.**

## Diogelwch

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r plant yn cael eu cadw'n ddiogel drwy roi sylw i ddiogelwch ffisegol a gweithdrefnol, gan gynnwys cudd-wybodaeth ddiogelwch effeithiol a pherthynas dda rhwng staff a phlant.**

**1.19** Roedd y gweithdrefnau diogelwch ffisegol yn gymesur i'r plant yn Parc.

**1.20** Roedd adroddiadau am wybodaeth ddiogelwch ar gyfer y carchar oedolion a'r uned blant yn dod i un system ganolog. Dros y chwe mis blaenorol roedd 533 o adroddiadau gwybodaeth am blant wedi bod. Defnyddiwyd adroddiadau ar ddiogelwch ffisegol a lleihau'r cyflenwad cyffuriau, ar gyfer y ddau safle, i oleuo polisi a chytuno ar weithredu yn y ddau garchar. Roedd yr adroddiadau i gyd bron wedi eu hadolygu, a gweithredu wedi'i gytuno, o fewn 48 awr i'w derbyn. Defnyddiwyd system sgorio coch, oren a gwyrdd i sicrhau y rhoddid y flaenoriaeth uchaf i adroddiadau lle'r oedd angen sylw brys.

**1.21** Roedd rheolwyr yn sicrhau bod digon o staff ar gael i ymateb yn rhagweithiol i'r wybodaeth yma. Dros y ddwy flynedd flaenorol, roedd y carchar wedi cyflawni 100% o'i brofion cyffuriau targed a 80% o'r chwiliadau targed a ofynnwyd amdanynt.

**1.22** Roedd asesiad tactegol yn cael ei gynhyrchu bob mis i ddadansoddi'r holl adroddiadau gwybodaeth ynghyd â phrif leoliadau ac achosion trais, cyffuriau sy'n cael eu darganfod a thueddiadau cyflenwi cyffuriau i'r carchar. Roedd effaith gweithredu blaenorol hefyd yn cael ei dadansoddi, oedd yn ddefnyddiol. Roedd y wybodaeth yn cael ei bwydo i'r cyfarfod diogelwch misol. Roedd amcanion diogelwch yn cael eu gosod ar gyfer y carchar cyfan gan gynnwys amcanion oedd yn monitro'r risgiau penodol oddi wrth blant ac oedolion. Roedd cynnydd gyda'r amcanion hyn yn cael ei fonitro'n agos.

**1.23** Defnyddiwyd yr asesiad tactegol hwn i ganfod bylchau mewn diogelwch ffisegol ac roedd y carchar wedi buddsoddi mewn nifer o atebion technolegol i helpu i leihau faint o gyffuriau oedd yn dod i'r carchar. Roedd sganiwr ïonau'n gwirio'r holl bost am olion cyffuriau neu sylweddau seicoactif[7], fe gyrhaeddodd sganiwr corff newydd yn ystod yr arolygiad ac roedd canfodydd drôn wedi llwyddo i leihau faint o drôns oedd yn cludo pecynnau anghyfreithlon.

**1.24** Roedd y cysylltiadau â'r heddlu wedi gwella ac yn chwarae rôl bwysig yn yr asesiad tactegol lleol gan gysylltu gwybodaeth am gysylltiadau â gangiau a helpu'r carchar i leihau faint o becynnau anghyfreithlon oedd yn cael eu taflu dros y ffens. Roedd y gronfa ddata troseddau yn y carchar, oedd yn cael ei reoli gan yr heddlu, yn hwyluso dadansoddi a monitro cynnydd unrhyw erlyniadau'n fwy trylwyr. Roedd pob ymosodiad yn y carchar a chanlyniad ymchwiliadau'r heddlu'n cael eu cofnodi ar y gronfa ddata hon.

---

[7] Sylweddau seicoactif yw cyfansoddion sydd naill ai'n digwydd yn naturiol, yn lled-synthetig neu'n llwyr synthetig. O'u cymryd, maen nhw'n effeithio ar brosesau meddwl neu gyflwr emosiynol pobl. Mewn carchardai, 'spice' yw'r enw cyffredin a ddefnyddir i'w disgrifio. Am fwy o wybodaeth ewch i https://www.gov.uk/guidance/psychoactive-substances-in-prisons#what-are-psychoactive-substances.

**1.25** Roedd y polisi a'r cynllun gweithredu lleihau cyflenwad wedi'u goleuo gan yr asesiad tactegol lleol ac yn dangos dealltwriaeth glir o'r mathau o sylweddau a'r dulliau o'u cael i mewn i'r carchar. Roedd y polisi lleihau cyflenwad yn rhan o strategaeth gyffuriau gynhwysfawr i'r carchar cyfan, gydag elfennau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o gamddefnyddio a chymorth. Roedd y pwyllgor strategaeth gyffuriau'n cwrdd bob mis a'r presenoldeb yn dda. Yn y cyfarfod hwn roedd pob cynllun gweithredu'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru.

# Rheoli ymddygiad

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd diogel, trefnus ac ysgogol lle mae ymddygiad da'n cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Mae ymddygiad annerbyniol yn cael ei drin mewn ffordd wrthrychol, deg, gymesur a chyson.**

**1.26** Er bod y systemau ffurfiol o reoli ymddygiad yn debyg i rai mewn sefydliadau YOI eraill, roedd y perthnasoedd da yn eu hategu. Gwelsom y rhan fwyaf o'r staff yn gweithio'n ysgogol ac ymatebol gyda'r plant. Cadarnhawyd ein harsylwadau gan adborth y plant o'r cyfweliadau preifat a'r arolwg. Dywedodd mwy o blant na mewn unrhyw sefydliad YOI arall fod staff yn dweud wrth y plant pan oedden nhw'n ymddwyn yn dda, eu bod yn eu hannog i fynd i'w gwersi ac yn gweithio gyda nhw i gyflawni eu hamcanion neu dargedau adsefydlu (gweler paragraff 2.1).

**1.27** Roedd yr ethos yma'n cael ei adlewyrchu ar draws y sefydliad. Gwelsom lefelau uchel o gyswllt cadarnhaol rhwng plant ac athrawon yn ystod y gwersi oedd yn annog y plant i ganolbwyntio, ymgysylltu ac ymddwyn yn dda (gweler paragraffau 3.9 a 3.14). Roedd yr athrawon yn sbarduno ac yn cyfrannu at reoli ymddygiad yn effeithiol ar yr uned.

**1.28** Roedd polisi'r cynllun cymhellion ac ennill manteision (IEP) yn tanlinellu pwysigrwydd annog ymddygiad cadarnhaol. Roedd y polisi'n weddol hyblyg oedd yn helpu rheolwyr i wneud penderfyniadau call am newid lefel IEP plentyn.

**1.29** Roedd y rheolwyr yn sicrhau bod gan y plant i gyd fynediad at gyfleusterau a chyfundrefn addas ac yn cynnig cymhellion i'w gwella. Roedd y plant i gyd yn gallu cael teledu yn eu hystafelloedd beth bynnag oedd eu statws IEP ac roeddent i gyd yn gallu cymysgu gyda phlant eraill a mynychu gwersi. Dywedodd y plant wrthym fod hyn yn lleihau diflastod ac annog integreiddio.

**1.30** Roedd rheolwyr wedi bod yn graff drwy ymestyn y ddau ben i'r diwrnod i roi mwy o amser allan o'r gell i blant ar y lefelau IEP uchaf. Roedd cyfnod agor y celloedd yn y bore wedi'i ymestyn i 7am a chloi gyda'r nos i 8pm. Roedd mwy o gyfarpar cymdeithasu hefyd ar gael, gan gynnwys consolau gemâu priodol i blant.

**1.31** Dywedodd plant ar y lefel efydd wrthym eu bod yn derbyn eu hawl dyddiol i amser allan o'r gell, ymarfer corff a chawodydd gan deimlo bod y cynllun yn gweithio'n deg. Roedd pedwar o blant ar lefel efydd ar adeg yr arolygiad ac nid oedd y rhan fwyaf yn aros ar lefel efydd am fwy nag ychydig ddyddiau. Dangosai gofnodion cynhwysfawr fod staff yn gweithio'n dda gyda'r plant i'w helpu i symud i fyny o'r lefel efydd. Roedd pob plentyn yn cael cyfle i drafod eu hamgylchiadau a chywiro eu hymddygiad cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ostwng eu lefel. Yn ein trafodaethau gyda phlant, roeddent yn cadarnhau bod y sgyrsiau hyn yn digwydd.

**1.32** Cynhaliwyd pob adolygiad i'r plant ar fore dydd Llun ac roedd y plant yn cael eu hysbysu'n llafar o'r canlyniad erbyn amser cinio'r diwrnod hwnnw.

**1.33** Yn ein cyfweliadau roedd plant o gefndiroedd du a lleiafrifol ethnig yn fwy negyddol am reoli ymddygiad na phlant eraill. Pan gynhaliwyd yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant du a lleiafrifol ethnig ar lefel uchaf y cynllun. Nid oedd y cynllun yn cael ei fonitro'n ddigon trylwyr i sicrhau bod plant o leiafrifoedd ethnig neu gyda nodweddion gwarchodedig eraill yn cael eu trin yn deg (gweler y pryder allweddol a'r argymhelliad yn S44 a pharagraff 2.25).

**1.34** Nid oedd y cynllun gwobrwyo'n syth, i wobrwyo ymddygiad da'n brydlon, mwyach mewn defnydd a dywedodd rheolwyr fod y cynllun wedi'i ohirio tan y byddai'n cael ei adolygu.

**1.35** Roedd yr ystafell gwrandawiadau dyfarnu'n amgylchedd addas i gynnal gwrandawiadau gyda phlant ac yn cynnwys dodrefn priodol. Roedd nifer y gwrandawiadau wedi lleihau ychydig ers yr arolygiad diwethaf ac yn is o hyd na mewn carchardai tebyg. Nid oedd y cyhuddiad yn cael ei ymchwilio'n llawn yn aml. Nid oedd cofnodion bob tro'n dangos pam fod cyhuddiad wedi'i brofi, neu a oedd plentyn wedi cyflwyno amgylchiadau lliniaru, er y dystiolaeth ddogfennol bod plant wedi cyflwyno amgylchiadau lliniaru. Nid oedd eiriolaeth ar gyfer gwrandawiadau oherwydd nad oedd Barnardo yn cael ei hysbysu'n rheolaidd cyn cynnal gwrandawiad. Codwyd hyn gyda rheolwyr y carchar a ddywedodd y byddent yn rhoi sylw i'r hepgoriad hwn.

### Argymhelliad

**1.36** **Dylid rhoi cyfle i bob plentyn ofyn am eiriolaeth mewn da bryd cyn gwrandawiad dyfarnu.**

## Bwlio a lleihau trais

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae pawb yn teimlo'n ddiogel rhag bwlio a fictimeiddio. Mae systemau gweithredol a theg i atal ac ymateb i fwlio'n hysbys i'r staff, plant ac ymwelwyr.**

**1.37** Roedd nifer yr ymosodiadau difrifol yn parhau i fod yn isel iawn. Ers yr arolygiad blaenorol, roedd 38% yn llai o ymosodiadau ar staff a 15% yn llai o ymosodiadau ar blant, oedd yn is na mewn carchardai tebyg. Fodd bynnag roedd 92% yn fwy o gwffio rhwng plant, oedd yn digwydd yn amlach na mewn carchardai tebyg. Nid oedd y carchar wedi ymchwilio i'r rhesymau dros hyn. Pan wnaethom ofyn am hyn, roedd y rheolwyr yn cydnabod bod angen iddynt ddeall yn well beth oedd y rhesymau am y cynnydd.

**1.38** Dangosodd ddata gan y carchar fod 37% yn llai o ddigwyddiadau bwlio rhwng plant ers yr arolygiad diwethaf. Roedd y cynllun cymorth, her ac ymyrraeth (CSIP)[8] wedi gwreiddio'n llawn bellach. Roedd dioddefwyr a bwlis posib yn cael eu hadnabod a'u monitro yn y cyfarfod bore i uwch-reolwyr yn ystod yr wythnos pryd oedd rheolwyr yn agor cynlluniau CSIP ac yn blaenoriaethu anghenion plant oedd angen cymorth ychwanegol arnynt.

**1.39** Dros y chwe mis blaenorol roedd rheolwyr y carchar wedi agor 30 o gynlluniau CSIP. Roedd y monitro hwn yn cael ei wneud am 26 diwrnod ar gyfartaledd, er bod y ffigur hwn wedi'i sgiwio gan nifer fach o blant oedd angen bod ar gynllun am hirach. Ar adeg yr arolygiad, roedd pedwar o blant ar gynllun CSIP. Roedd y cynlluniau a welsom wedi eu teilwrio i anghenion bob plentyn a thargedau cyraeddadwy o amgylch y plentyn wedi eu gosod. Roedd adolygiadau'n cael eu cynnal yn brydlon a hawliau sylfaenol fel cawodydd a galwadau ffôn wedi eu cofnodi. Roedd y rhan fwyaf o'r adolygiadau'n cynnwys nyrs, gweithiwr tîm anghenion, ymgysylltu a lles, rheolwr, staff yr adain oedd yn adnabod y plentyn, a'r plentyn ei hun. Roedd yr adolygiadau'n cael eu cynnal mewn ystafell briodol a'r plant yn cael eu hannog i awgrymu

---

8 Polisi HMPPS cenedlaethol i gefnogi dioddefwyr a rheoli camdrinwyr drwy gynllun rheoledig sy'n gosod targedau a monitro cynnydd i gadw plant yn ddiogel.

llwybrau addas i wneud iddynt deimlo'n rhan o'r broses. Roedd y cynlluniau'n hyblyg a gellid eu haddasu; roeddent yn adlewyrchu amgylchiadau'r plentyn felly roeddent yn adnodd defnyddiol iawn i gynorthwyo'r plant.

**1.40** Er nad oedd gan y carchar bolisi datrys gwrthdaro, roedd yn gweithio tuag at hyn ac roedd staff yn gwneud rhywfaint o waith yn anffurfiol. Roedd rhai staff wedi derbyn hyfforddiant mewn datrys anghydfod a dros y misoedd nesaf roedd cynlluniau i hyfforddi mwy o staff. Roedd uwch-reolwyr yna'n bwriadu cyflwyno datrys anghydfod i wella'r broses CSIP fel y gallai staff helpu plant i ddatrys anghydfod.

**1.41** Roedd y strategaeth lleihau trais yn cynnwys disgrifiadau manwl o drais ond nid oedd yn egluro sut y byddai'n cael ei leihau. Roedd lefel dda o bresenoldeb yn y cyfarfodydd diogelu misol a chwarterol. Roedd swm sylweddol o ddata ar drais yn cael ei gasglu. Roedd y carchar mewn sefyllfa dda i ddeall pryd, ble a sut oedd trais yn digwydd ond roedd llawer o'r data hwn yn cael ei ddadansoddi'n ôl-weithredol ac nid yn cael ei ddefnyddio i oleuo'r strategaeth.

### Arfer da

**1.42** *Roedd y broses o reoli a'r cymorth i ddioddefwyr a chyflawnwyr trais yn rhagorol. Roedd rheolwyr y carchar yn adnabod pa blant oedd angen cymorth ychwanegol arnynt ac yn gwneud defnydd prydlon o gynlluniau CSIP addas. Roedd plant yn cyfrannu'n llawn i'r broses ac yn gallu siarad â staff am eu hanghenion, oedd yn cyfrannu at gymorth adeiladol.*

## Defnyddio grym

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Defnyddir grym dim ond fel ateb olaf, a dim ond mewn ffordd deg gan staff hyfforddedig. Ymdrechir i ddefnyddio cyn lleied o rym â phosib drwy ddilyn strategaethau ataliol a dulliau eraill sy'n cael eu monitro drwy drefniadau llywodraethu cadarn.**

**1.43** Yn yr arolwg, dywedodd 77% o'r plant eu bod wedi cael eu hatal yn Parc ac ers yr arolygiad diwethaf roedd 17% yn fwy o ddigwyddiadau wedi bod lle defnyddiwyd grym. Roedd systemau cadarn wedi eu datblygu i gofnodi'r defnydd o rym gyda phlant ac roedd y cydlynwyr rheoli a lleihau atal corfforol (MMPR) yn dibriffio staff a phlant yn dilyn digwyddiad, fel arfer o fewn 24 awr. Roedd pryderon diogelu felly'n cael eu hadnabod yn gyflym a gwelsom dystiolaeth o bryderon yn cael eu cyfeirio'n briodol at yr awdurdod lleol. Roedd pob achos o ddefnyddio grym a ffilmiwyd ar deledu cylch cyfyng a chamerâu corff yn cael eu gwylio'r un diwrnod (gan amlaf, yn syth ar ôl y digwyddiad) gan gydlynydd MMPR a rheolwr dyletswydd.

**1.44** Roedd lefel dda o bresenoldeb yn y cyfarfod MMPR wythnosol a holl ffilmio'r wythnos yn cael ei adolygu gan dîm aml-asiantaethol. Roedd pob digwyddiad yn mynd drwy wiriad sicrhau ansawdd gan y cydlynwyr MMPR a 20% arall yn cael eu gwirio gan uwch-reolwr gweithredol. Roedd y tîm MMPR cenedlaethol HMPPS yn rhoi cymorth da drwy gyflawni eu gwiriadau sicrhau ansawdd misol eu hunain o bob digwyddiad. Nid oedd unrhyw ôl-waith papur ar ddefnyddio grym, oedd yn rhywbeth i'w ganmol. Roedd defnyddio grym yn cael ei lywodraethu'n dda.

**1.45** Roedd data cynhwysfawr ar ddefnyddio grym yn cael ei gasglu ond nid oedd strategaeth i leihau lefel y digwyddiadau, ac nid oedd y data'n cael ei ddefnyddio i ddeall a oedd grwpiau gwarchodedig yn fwy tebygol o fod yn destun atal corfforol.

**1.46** Roedd yn siomedig bod dau ddigwyddiad yn y deufis diwethaf o dechnegau achosi poen[9] wedi eu defnyddio ar blant. Dangosodd y ffilmio y gellid bod wedi osgoi'r ddau ddigwyddiad a gwneud ymdrechion pellach i geisio tawelu'r gwrthdaro.

# Gwahanu / tynnu plant allan o'u lleoliad arferol

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae plant yn cael eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion dim ond gyda'r awdurdod priodol, yn ddiogel ac yn unol ag anghenion yr unigolyn, am resymau priodol ac nid fel cosb.**

**1.47** Dywedodd lawer o'r plant nad oedd gwahanu'n digwydd yn aml, a dim ond am amser byr lle'r oedd yn digwydd. Dangosodd ddata'r carchar fod gwahanu wedi'i ddefnyddio naw o weithiau yn y chwe mis blaenorol, am bedwar diwrnod ar y mwyaf. Roedd hyn yn llawer llai na mewn sefydliadau tebyg.

**1.48** Cell y plentyn gan amlaf oedd yn cael ei ddefnyddio i wahanu. Fodd bynnag roedd yno hefyd uned fach o'r enw T6 sy'n cynnwys dwy gell gyda dodrefn llawn, cawodydd a thoiledau. Roedd y celloedd yn lân gyda dodrefn priodol, dillad a dillad gwelyau addas.

**1.49** Fodd bynnag roedd y celloedd T6 mewn ardal ar wahân yng nghefn un o'r adeiniau oedolion ac roedd goblygiadau logistaidd yn codi o glirio landin i oedolion er mwyn gallu symud plentyn i'r lleoliad hwnnw. Dim ond unwaith yn y chwe mis blaenorol y defnyddiwyd y celloedd hyn, oedd yn beth da.

Roedd y cofnodion ar gyfer plant wedi eu gwahanu wedi gwella'n sylweddol. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith papur wedi'i awdurdodi'n briodol a'r plant yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd (nyrs fel arfer) a rheolwr dyletswydd bob dydd. Nid oedd yr un plentyn wedi'i wahanu ar adeg yr arolygiad, ond dywedodd y plant oedd wedi eu gwahanu'n ddiweddar eu bod wedi derbyn eu hawliau i gyd bob dydd ac yn teimlo bod y carchar yn ateb eu hanghenion gan amlaf. Roeddent hefyd yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hadolygiadau, fe wyddent pam yr oeddent wedi cael eu gwahanu, ac am ba hyd y byddai'r gwahanu'n parhau.

---

9 Techneg achosi poen yw un lle mae poen yn cael ei achosi'n fwriadol i sicrhau cydymffurfio.

# Section 2. Adran 2. Gofal

## Y berthynas rhwng staff a phlant

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r plant yn cael eu trin gyda gofal gan y staff i gyd sy'n disgwyl ac yn eu hannog a'u galluogi i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain. Mae staff yn gosod terfynau clir a theg. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o'r plant i gyd ac yn eu helpu i gyflawni eu potensial.**

**2.1** Roedd y berthynas rhwng staff a'r plant yn dda ac yn cefnogi'r canlyniadau ar draws y pedwar prawf carchar iach. Yn yr arolwg, dywedodd 72% o'r plant fod y rhan fwyaf o'r staff yn eu trin gyda pharch a dywedodd mwy o blant na mewn unrhyw YOI arall fod y staff yn eu hannog i fynychu gwersi ac yn eu helpu i gyflawni amcanion eu cynllun hyfforddi neu remand. Yn ein cyfweliadau ffurfiol preifat, dywedodd y plant i gyd fod ganddynt aelod o staff oedd yn ofalgar ohonynt ac roedd y plant yn canmol y staff addysg yn enwedig.

**2.2** Roedd ein harsylwadau'n cefnogi hyn. Roedd rhyng-gysylltu cadarnhaol yn yr unedau preswyl, addysg, gofal iechyd a'r cyfarfodydd adolygu cynlluniau hyfforddi. Roedd y staff ym mhob maes yn amlwg yn adnabod y plant yn eu gofal ac yn rhoi ffocws priodol ar ateb eu hanghenion. Roedd y cyfarfod aml-asiantaethol dyddiol yn parhau i fod yn fforwm effeithiol fel bod y staff i gyd yn gwybod am unrhyw broblemau a allai fod gan blentyn. Roedd yr arfer lle'r oedd staff nos yn agor drws pob cell i gadarnhau lles, a bod gan y plant bopeth oedd ei angen arnynt am y noson, hefyd yn beth da.

**2.3** Yn yr arolwg, dywedodd 63% o blant o'i gymharu â 36% mewn sefydliadau cymariaethol fod staff yn dweud wrthynt pan oeddent yn ymddwyn yn dda (gweler paragraff 1.26). Gwelsom enghreifftiau da iawn gan amlaf o staff yn annog ymddygiad da ac yn peidio â chynhyrfu wrth herio camymddwyn. Fodd bynnag, yn y cyfweliadau soniodd rai plant am ffafriaeth a rhwystredigaeth bod rhai staff yn wyliadwrus o ymyrryd pan oedd plant yn camymddwyn. Roedd rheolwyr yn ymwybodol o'r broblem ond roedd angen mwy o gefnogaeth ar staff rheng flaen i sicrhau cysondeb wrth reoli ymddygiad.

**2.4** Roedd y cynllun gweithiwr allweddol yn parhau i weithio'n dda.

### Arfer da

**2.5** *Roedd ffocws arweinwyr a rheolwyr ar drin plant fel unigolion ac ateb eu hanghenion penodol. Roedd staff pob maes wedi datblygu perthnasoedd gofalgar effeithiol â'r plant. Yn yr arolwg, roedd plant yn llawer mwy tebygol na mewn sefydliadau YOI eraill o ddweud eu bod yn derbyn cymorth ac anogaeth gan staff. Roedd staff ym mhob maes yn wybodus iawn am y plant yn eu gofal ac yn parhau i weithio mewn ffordd ysgogol, amyneddgar a gofalgar.*

# Bywyd beunyddiol

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd glân ac addas ac yn ymwybodol o reolau a threfn y carchar. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol, ymgynghorir yn rheolaidd â'r carcharorion a medrant wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno ac unioni cam yn effeithlon a theg.**

## Amodau byw

**2.6** Roedd yr uned yn parhau i fod yn lân ac yn cael ei chadw'n dda ar y cyfan. Roedd cyfarpar cymunedol fel gemâu, setiau teledu a dodrefn mewn cyflwr gweddol dda ac roedd y plant yn eu gwerthfawrogi. Roedd yr ierdydd ymarfer corff yn lliwgar gyda dodrefn i blant, ond fel yr ydym wedi'i ddweud o'r blaen, yn rhy fach.

**2.7** Roedd y celloedd i gyd yn lân a heb unrhyw raffiti, sy'n ganmoladwy. Fodd bynnag, nid oedd digon yn cael ei wneud i annog y plant i bersonoleiddio eu celloedd. Roedd y toiledau wedi eu sgrinio'n dda ond rhai gyda chen calch drwg. Roedd y rhan fwyaf o'r celloedd wedi'u dodrefnu'n dda ond roedd y rhai dwbl yn rhy fach i gymryd digon o ddodrefn a chypyrddau i ddau o blant. Fodd bynnag, defnyddir y rhai dwbl dim ond ar gyfer plant sy'n dewis rhannu.

**2.8** Roedd mynediad at hawliau sylfaenol beunyddiol fel galwadau ffôn, cawodydd a golchi dillad, yn rhagorol. Roedd y dillad gwelyau'n well na mewn sefydliadau YOI eraill ac yn helpu, yn rhannol, i liniaru teimlad sefydliadol yr unedau byw. Gwelsom staff yn sylwi pan oedd y celloedd yn fudr ac yn annog y plant i'w glanhau, oedd yn beth da.

**2.9** Yn yr arolwg, dywedodd 67% o'r plant fod staff yn ateb cloch frys eu cell yn sydyn, oedd yn llawer uwch na'r 19% mewn sefydliadau YOI eraill. Gwelsom staff yn ateb clychau'r celloedd yn sydyn drwy gydol yr arolygiad.

## Gwasanaethau preswyl

**2.10** Mae gan y plant argraff wael o hyd am ansawdd y bwyd a faint ohono sydd ar gael, ac yn yr arolwg dim ond 13% a ddywedodd fod y bwyd yn eithaf da neu'n dda iawn. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn gan ein harsylwadau a gan sylwadau'r plant yn ystod yr arolygiad. Roedd peth o'r bwyd a welsom yn wael ac nid oedd digon ohono, yn ein barn ni, i blant ar eu prifiant.

**2.11** Roedd y trefniadau bwyd ac arlwyo'n achosi cryn rwystredigaeth i'r plant. Roedd rheolwyr yr uned wedi ceisio gwneud gwelliannau ac roedd plant ar y cwrs arlwyo'n coginio bwyd ddwywaith yr wythnos. Gallai plant ar lefel uwch ar y cynllun cymhellion goginio bwyd iddynt eu hunain ar y penwythnos.

**2.12** Roedd y fwydlen dreigl pedair wythnos yn parhau i fod yn briodol, gydag opsiynau ffrwythau ar gael. Pan ofynnwyd am y bwyd a'r argraffiadau gwael am ei ansawdd, dywedodd staff y gegin fod nifer o bethau'n eu rhwystro gan gynnwys bod y gegin yn rhy fach i boblogaeth y carchar, nid oedd lle cyffredinol nac i rewgelloedd ac roedd llawer o'r cyfarpar coginio'n aros i gael ei drwsio.

**2.13** Roedd y plant yn parhau i dderbyn byrbryd ychwanegol a llaeth ffres, ond nid oedd yn ddigon. Yn yr arolwg dim ond 21% o'r plant a ddywedodd fod ganddynt ddigon i'w fwyta amser bwyd. Fel yn yr arolygiad blaenorol, dywedodd rai plant eu bod yn prynu bwyd o'r ffreutur i ychwanegu at eu prydau bwyd. Roedd y trefniadau ffreutur wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol, gyda nifer resymol o eitemau ar gael a'r plant yn gadarnhaol am hyn.

### Ymgynghori, ceisiadau ac unioni cam

**2.14** Roedd y fforwm cymunedol misol yn gweithio'n well na phan gynhaliwyd yr arolygiad blaenorol. Roedd uwch-reolwr yn ei gadeirio a chynrychiolwyr o bob uned a staff o wahanol feysydd gan gynnwys cydraddoldeb, y gegin ynghyd ag eiriolwyr Barnardo hefyd yn bresennol. Roedd rheolwyr yn gwrando ar farn y plant, oedd yn aml yn arwain at newid.

**2.15** Roedd perthynas dda rhwng y staff a'r plant yn golygu bod y rhan fwyaf o broblemau a fyddai fel arfer yn cael sylw drwy'r system geisiadau'n cael eu datrys yn anffurfiol wrth i blant siarad â staff. Roedd ceisiadau ffurfiol yn cael eu rheoli drwy'r ciosgau gwybodaeth electronig.

**2.16** Roedd 13 o gwynion wedi bod yn y chwe mis blaenorol, oedd yn llawer llai na'r 57 a dderbyniwyd dros yr un cyfnod cyn yr arolygiad blaenorol. Roedd y broses yn gweithio'n dda, gwyddai'r plant sut i wneud cwyn, roedd yr ymatebion i gwynion yn briodol ac roedd staff wedi siarad â'r plant fel rhan o'r broses ymateb. Roedd sicrhau ansawdd yn gynhwysfawr o hyd a'r cyfarwyddwr yn sicrhau ansawdd 100% o'r ymatebion.

**2.17** Roedd y plant yn cael eu hatgoffa sut i wneud cwyn yn ystod y cyfarfodydd adolygu cynlluniau hyfforddi a remand, oedd yn gadarnhaol iawn. Roedd eiriolwyr Barnardo yn cefnogi plant oedd angen cymorth gyda hyn. Roedd cwynion yn cynnwys honiadau amddiffyn plant yn cael eu cyfeirio'n briodol i'r awdurdod lleol am gyngor ac ymchwiliad (gweler paragraff 1.11).

**2.18** Roedd gweithwyr y timau anghenion, ymgysylltu a lles yn gallu cyfeirio plant at gyngor cyfreithiol annibynnol ac roedd gan y plant fynediad da at linell gynghori'r Howard League for Penal Reform. Roedd y llinell ffôn hon yn cael ei hyrwyddo'n dda ar yr uned.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r sefydliad yn dangos dull clir a chydlynus o ddileu gwahaniaethu gan hyrwyddo canlyniadau teg a meithrin cysylltiadau da, a sicrhau nad oes yr un plentyn dan anfantais annheg. Mae hyn wedi'i ategu gan brosesau effeithiol i adnabod a datrys unrhyw anghydraddoldeb. Mae anghenion amrywiol bob plentyn yn cael eu hadnabod a'u hateb.**

### Rheoli strategol

**2.19** Roedd y polisi cydraddoldeb yn briodol i anghenion ac amgylchiadau'r plant. Roedd y polisi'n pwysleisio bod angen i gydraddoldeb fod yn ystyriaeth ganolog o'r funud yr oedd plant yn cyrraedd, oedd yn arbennig o gadarnhaol.

**2.20** Roedd tîm cydraddoldeb plant yn gyfrifol am reoli cydraddoldeb. Roedd y tîm yn cynnwys staff yr uned a rheolwr cydraddoldeb dynodedig, ynghyd â swyddogion oedd yn rhoi cymorth i'r uned blant a'r carchar oedolion. Roedd diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau staff yr uned a staff cydraddoldeb.

**2.21** Roedd data perthnasol yn cael ei gasglu gan reolwyr yr uned a rheolwyr cydraddoldeb. Roedd adroddiad cydraddoldeb misol yn canolbwyntio ar y carchar oedolion ond hefyd yn cynnwys data ar nodweddion gwarchodedig plant yr uned. Roedd yr adroddiad yn cael ei ystyried mewn cyfarfod cydraddoldeb misol ond nid oedd rheolwyr o'r uned blant yn mynychu. Roedd data defnyddiol ar darddiad ethnig plant yn cael ei gynnwys mewn adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer cyfarfodydd adolygu contractau, ond nid oedd yn glir a oedd y data hwn yn cael ei ystyried na'i weithredu.

**2.22** Roedd swyddog cydraddoldeb ac ymgysylltu'n gwneud gwaith creadigol a defnyddiol â'r plant gan sicrhau bod negeseuon cadarnhaol am amrywiaeth yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau. Er bod llai o ymgynghori â phlant gyda nodweddion gwarchodedig cyffredin ers yr arolygiad diwethaf, roedd y swyddog cydraddoldeb ac ymgysylltu'n sicrhau bod y trafodaethau'n canolbwyntio ar faterion perthnasol i'r agenda gydraddoldeb.

**2.23** Roedd cwynion am wahaniaethu'n cael eu cyflwyno drwy ffurflenni adrodd digwyddiad gwahaniaethu (DIRF) a'r un broses ag yn y carchar oedolion yn cael ei dilyn i ddelio â nhw. Cyflwynwyd a deliwyd yn briodol â phump o ffurflenni DIRF yn y chwe mis blaenorol.

## Nodweddion gwarchodedig

**2.24** Ar gyfartaledd roedd tua 28% o blant o gefndiroedd du neu leiafrifol ethnig oedd yn lleihad ers yr arolygiad diwethaf. Roedd rhai agweddau ar y gyfundrefn, fel defnyddio grym a gwrandawiadau dyfarnu, yn cael eu monitro yn ôl tarddiad ethnig, ond mewn rhai meysydd roedd llai o hyn yn digwydd.

**2.25** Yn ein cyfweliadau roedd gan rai plant du a lleiafrifol ethnig yr argraff bod y ffordd oedd y cynllun cymhellion ac ennill manteision (IEP) yn cael ei weithredu'n adlewyrchu tarddiad ethnig (gweler paragraff 1.33). Nid oedd y data monitro a welsom yn adlewyrchu'r argraff hon, ond dim ond lefel isaf y cynllun IEP oedd y data'n ymwneud â fo. Nid oedd yn glir a oedd, a sut oedd rheolwyr yr uned yn gweithio i roi sylw i'r argraff hon. Roedd y rhan fwyaf o anghenion plant gyda nodweddion gwarchodedig yn cael sylw drwy ddull rheoli achosion a gwelsom dystiolaeth o hyn yn digwydd yn briodol.

**2.26** Yn yr arolwg, dywedodd 24% o'r rhai wnaeth ymateb fod ganddynt anabledd ac roedd yn glir bod hyn yn ymwneud yn bennaf ag anghenion dysgu penodol. Roedd cymorth dysgu cadarnhaol yn ei le, wedi'i deilwrio i anghenion plant unigol.

**2.27** Pan gynhaliwyd yr arolygiad, roedd un plentyn tramor o Fietnam yn yr uned. Roedd ei weithiwr tîm anghenion, ymgysylltu a lles yn sicrhau ei fod yn derbyn cymorth priodol ac roedd gwasanaethau cyfieithu ffôn wedi eu defnyddio'n aml i gyfathrebu gyda'r plentyn. Cawsom ei fod yn fodlon bod ei anghenion yn cael eu hateb ac roedd yn derbyn gwybodaeth dda am ei ymddangosiad yn y llys cyn bo hir.

**2.28** Roedd y gaplaniaeth yn parhau i chwarae rôl bwysig i lawer o blant. Yn yr arolwg dywedodd 64% fod ganddynt grefydd ac o'r rhain dywedodd 71% fod eu credo crefyddol yn cael ei barchu ac 86% y gallent weld caplan eu ffydd yn breifat os oeddent eisiau. Roedd caplaniaid yn gweld y plant yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd ac yn bresennol yn rheolaidd ar yr uned.

**2.29** Gallai'r plant fynychu gwasanaethau a gweddïau Cristnogol a Mwslimaidd. Roedd ymdrechion yn cael eu gwneud fel bo'r plant yn mynychu gweithgareddau yn y carchar oedolion heb gymysgu â'r carcharorion yno.

# Gwasanaethau iechyd

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r plant yn derbyn gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac ateb eu hanghenion iechyd, gofal cymdeithasol a sylweddau ac sy'n hyrwyddo iechyd a gofal parhaus ar ôl rhyddhau. Mae safon y gwasanaeth iechyd yn cyfateb i'r hyn y gallai'r plant ddisgwyl ei dderbyn yn y gymuned.**

## Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

**2.30** Roedd y carchar dal heb gyhoeddi dadansoddiad o anghenion iechyd y plant. Roedd prosesau llywodraethu clinigol yn eu lle ond roedd angen eu cryfhau. Roedd y gwasanaethau iechyd dan gontract preifat drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ychydig iawn o graffu allanol oedd ohonynt, ac eithrio'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) oedd yn cael eu comisiynu drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gan y gwasanaeth Ymgynghori a Thriniaeth Fforensig i'r Glasoed (FACTS). Roedd gofal iechyd meddwl sylfaenol yn parhau i fod dan gontract gofal sylfaenol G4S. Heb fyrddau partneriaeth, roedd gorddibynnu ar hunan-adrodd a throsolwg gan G4S, oedd yn amhriodol ac yn rhywbeth oedd angen ei gryfhau.

**2.31** Roedd rhaglenni archwilio clinigol yn cynnwys adolygiad diweddar o drefniadau rheoli haint. Roedd staff yn deall a defnyddio'r prosesau rheoli digwyddiadau'n effeithiol a gwelsom dystiolaeth fod gwersi o'r digwyddiadau hyn yn cael eu rhannu.

**2.32** Roedd y gofal iechyd yn parhau i fod o ansawdd da ac yn cael ei ddarparu gan dîm gofalgar. Roedd yr amseroedd aros yn dda a mynediad at glinigau gofal sylfaenol yn brydlon.

**2.33** Roedd bellach system cwynion iechyd yn ei lle, oedd yn cael ei hysbysebu'n dda. Dim ond un g?yn oedd wedi bod yn y flwyddyn flaenorol. Nid oedd plant wedi cyfrannu'n dda yn y fforymau iechyd ac roedd adborth gan ddefnyddwyr yn dod drwy holiaduron. O ganlyniad roedd rhai gwelliannau wedi eu gwneud i'r gwasanaeth.

**2.34** Dywedodd staff eu bod yn derbyn cymorth parod ac roedd tystiolaeth dda o oruchwyliaeth glinigol a chan reolwyr. Roedd yr hyfforddiant yn ddiweddar ac yn cael ei fonitro, gan gynnwys hyfforddiant cynnal bywyd.

**2.35** Roedd staff ar gael bron yn syth i blant oedd wedi eu hanafu neu'n mynd i'r ysbyty'n dilyn digwyddiad. Roedd hyn wedi'i gefnogi gan fodel ymateb newydd oedd yn cynnwys parafeddyg ar gyfer y safle cyfan. Fodd bynnag, roedd prosesau ar gyfer galw ambiwlans brys yn llai trylwyr nag yn yr arolygiad blaenorol. Roedd cyfarpar brys wedi'i leoli yn yr ystafell gweinyddu meddyginiaethau ac yn cael ei fonitro'n dda gan y staff gofal sylfaenol.

**2.36** Roedd sgrinio am anableddau ac anghenion cymorth gyda thasgau beunyddiol yn cael ei wneud wrth dderbyn y plant, a chynlluniau i'w cefnogi'n cael eu sefydlu mewn clinig ôl-ddilyn. Pan gynhaliwyd yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant yn derbyn gofal cymdeithasol. Nid oedd unrhyw lwybr atgyfeirio penodol ar gyfer plant. Ond os oedd angen cymorth gofal cymdeithasol ar blentyn, byddai'r staff iechyd yn ei ddarparu i atal unrhyw ddiffyg gofal ac roedd gweithiwr cymdeithasol arbenigol hefyd yn y tîm i wneud asesiadau gofal cymdeithasol lle bo angen.

## Hybu iechyd a lles

**2.37** Roedd diwylliant hybu iechyd cadarnhaol ac integredig yn yr uned blant, gan gynnwys themâu hybu iechyd misol, digon o amser allan o'r gell, amser yn yr awyr iach a mynediad i'r gampfa. Roedd cysylltiadau da rhwng gofal iechyd a'r gampfa. Roedd brechiadau, sgrinio iechyd rhywiol, sgrinio am feirysau a gludir yn y gwaed, a rhoi'r gorau i smygu, wedi gwreiddio'n dda yn y gwasanaethau. Roedd y plant i gyd yn derbyn apwyntiad prawf llygad gyda'r optegydd, oedd yn dda.

**2.38** Roedd ystod o ddeunyddiau hybu, gwybodaeth a gwasanaethau iechyd yn cael eu harddangos yn yr ystafelloedd addysg a'r unedau. Roedd taflenni hawdd-darllen ar gael ond dim gwybodaeth mewn ieithoedd eraill.

**2.39** Roedd pob plentyn yn cael cynnig apwyntiad iechyd rhywiol er mwyn sgrinio neu i roi gwybodaeth gyffredinol. Roedd achosion mwy cymhleth yn cael eu gweld gan wasanaethau iechyd rhywiol gofal eilaidd arbenigol.

**2.40** Roedd polisi lleol ar achosion clefyd heintus ond ni wyddai'r staff i gyd ble'r oedd y polisi.

## Gofal sylfaenol a gwasanaethau cleifion mewnol

**2.41** Roedd G4S Iechyd yn cynnig ystod lawn o glinigau gofal sylfaenol priodol i anghenion y plant gan gynnwys asthma, epilepsi, apwyntiadau meddyg teulu, glinigau dan ofal nyrs, a ffisiotherapi.

**2.42** Roedd gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu gan ddau nyrs gofal iechyd sylfaenol ymroddedig a gofalgar, oedd yn adnabod eu cleifion yn dda, oedd yn dda iawn. Roedd yr amseroedd mynediad ac aros am wasanaethau gofal sylfaenol yn parhau i fod yn dda. Roedd y sefydliad yn parhau i ddefnyddio'r offeryn asesu iechyd (CHAT) i sgrinio ac asesu anghenion y plant. Roedd CHAT yn cael ei wneud gan nyrsys hyfforddedig, ac yn cynnwys asesiad niwro-anabledd i bob plentyn. Roedd rhaglen gynefino gynhwysfawr yn cael ei chyflwyno i'r holl blant newydd, yn trafod pob agwedd ar wasanaethau gofal iechyd.

**2.43** Gellid gwneud ceisiadau i weld staff gofal iechyd drwy giosg electronig oedd ar gael drwy gydol y dydd. Fodd bynnag, fel arfer roedd y plant yn cael gair â'r nyrsys i drefnu ymyriadau iechyd. Roedd yn dda gweld mai dim ond y staff gofal iechyd oedd yn gweld y ceisiadau iechyd.

**2.44** Roedd meddygfa leol yn darparu gwasanaethau meddyg teulu i'r safle cyfan, gan gynnwys tu-allan-i-oriau, oedd yn hwyluso gofal parhaus. Roedd apwyntiadau'n cael eu clustnodi i'r plant bob dydd. Roedd y nifer gyda chyflyrau hirdymor yn isel. Roedd hyn yn cael ei reoli gan y meddygon teulu, gan atgyfeirio at arbenigwyr lle bo angen.Roedd apwyntiadau ysbyty allanol yn digwydd yn anaml a bron byth yn cael eu canslo oherwydd pwysau gweithredol.

**2.45** Roedd bob plentyn yn derbyn asesiad CHAT cyn rhyddhau yn cynnwys pob agwedd ar eu hiechyd, ac eithrio plant oedd yn cael eu rhyddhau'n annisgwyl o'r llys. Roedd cynllunio camddefnyddio sylweddau'n anfoddhaol. Roedd y nyrsys gofal sylfaenol erbyn hyn yn mynychu'r cyfarfod ôl-ryddhau lleol gyda gweithwyr achos yn y gymuned tua 10 diwrnod ar ôl rhyddhau, oedd yn beth da.

## Arfer da

**2.46** *Roedd presenoldeb dau o nyrsys dynodedig yn yr uned blant yn hwyluso darparu gofal parhaus effeithiol ac yn helpu i greu perthynas ofalgar ac ymddiriedus gyda'r plant.*

## Iechyd meddwl

**2.47** Roedd nyrs iechyd meddwl plant a'r glasoed yn cynnal un sesiwn yr wythnos ac roedd seiciatrydd glasoed arbenigol ymgynghorol yn mynychu fel bo angen. Nid oedd ymyriadau seicoleg wedi eu darparu ers Mehefin 2019, oedd yn ddiffyg. Nid oedd therapydd iaith a lleferydd yn y tîm a dim tystiolaeth o therapïau siarad ffurfiol, oedd yn rhywbeth oedd yn amlwg ei angen ar y boblogaeth.

**2.48** Roedd cofnodion clinigol y cleifion dan ofal y tîm nyrsio CAMHS o ansawdd gwael. Nid oedd y nodiadau'n gynhwysfawr. Roeddent yn dangos diffyg asesiad iechyd meddwl clinigol trylwyr ac nid oedd cyfeiriad at risg iddynt eu hunain ac i eraill, hanes meddygol blaenorol na chynlluniau clinigol. Cawsom air â rhai cleifion nad oeddent yn ymwybodol o gynlluniau gofal personol. Cawsom wybodaeth anghyson am gofnodion iechyd ychwanegol a gedwir y tu allan i'r carchar, oedd yn dangos diffyg cofnod cyfoes sengl ar gyfer y claf.

**2.49** Roedd rhai tor-rheolau llywodraethu gwybodaeth amlwg. Nid oedd gwirio diogelwch wedi'i wneud ar gyfer holl staff parhaol y tîm CAMHS ac roedd rhai staff heb fynediad o hyd at gofnodion clinigol electronig SystmOne. Roedd staff CAMHS yn cofnodi nodiadau clinigol drwy ddefnyddio manylion mewngofnodi staff iechyd G4S, gan ei gwneud yn fwy cymhleth tracio cofnodion iechyd meddwl.

**2.50** Roedd y gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol yn cael eu darparu gan nyrs iechyd meddwl y gwasanaethau iechyd G4S. Roedd gwasanaeth ymatebol yn darparu ystod eang o ymyriadau i ddelio ag iselder, gorbryderu, cysgu, meddylgarwch, therapi celf, gwydnwch iechyd meddwl a hunan-niwed. Roedd y nyrs iechyd meddwl sylfaenol yn cyflawni'r asesiadau CHAT iechyd meddwl a niwro-anabledd ac yn mynychu'r holl adolygiadau ACCT. Roedd cynlluniau gofal o ansawdd da i'r cleifion iechyd meddwl sylfaenol.

**2.51** Roedd cyfathrebu rhwng G4S a CAMHS wedi dirywio ers yr arolygiad diwethaf, oedd wedi effeithio ar ganlyniadau i gleifion ac arwain hefyd at golli gwasanaeth am gyfnod. Yn Hydref 2019 roedd adnoddau tîm iechyd meddwl eilaidd CAMHS wedi eu tynnu'n ôl am dair wythnos. Teimlai staff G4S na chafwyd unrhyw rybudd y byddai'r gwasanaeth yn cael ei dynnu'n ôl a chynigiwyd ystafell arall o fewn ychydig ddiwrnodau.

**2.52** Nid oedd unrhyw blant wedi eu trosglwyddo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn y 12 mis blaenorol.

## Argymhellion

**2.53 Dylai'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed gyfrannu cofnodion clinigol ansawdd da i gofnodion iechyd cyfoes sengl y plant yn eu gofal.**

**2.54 Dylai'r arferion llywodraethu gwybodaeth gyd-fynd â safonau proffesiynol.**

# Camddefnyddio sylweddau

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae plant â phroblemau cyffuriau a / neu alcohol yn cael eu hadnabod wrth gyrraedd ac yn derbyn triniaeth a chymorth effeithiol drwy gydol eu harhosiad.**

**2.55** Roedd y strategaeth gyffuriau ac alcohol yn ddiweddar. Er yn disgrifio meysydd fel lleihau cyflenwad a modelau staffio, nid oedd y strategaeth yn gwahaniaethu rhwng y poblogaethau oedolion a phlant.

**2.56** Roedd Gwasanaethau Iechyd G4S yn darparu ymyriadau triniaeth glinigol a seico-gymdeithasol i blant ag anghenion camddefnyddio sylweddau. Nid oedd unrhyw blentyn wedi derbyn triniaeth glinigol ers yr arolygiad diwethaf, fodd bynnag roedd trefniadau priodol yn eu lle.

**2.57** Roedd yr un swydd gweithiwr cyffuriau seico-gymdeithasol yn yr uned wedi bod yn wag am bum mis, ac roedd aelod o staff yn ôl yn ei swydd ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad. Gwnaed rhai ymdrechion i liniaru'r diffyg drwy ddefnyddio staff o'r carchar oedolion, a gweithwyr y tîm anghenion, ymgysylltu a lles (gweler paragraff 1.39) ond ni fu'n bosib ateb holl anghenion y plant.

**2.58** Roedd gwaith craidd y gweithiwr cyffuriau'n destun trafod pan gynhaliwyd yr arolygiad. Roedd ôl-waith o 23 o asesiadau cynhwysfawr yn aros i'w gwneud ac nid oedd maint y llwyth achosion yn glir.

**2.59** Ar ôl cyrraedd, roedd y plant i gyd yn cael eu sgrinio ar gyfer anghenion unigol gan nyrs gofal sylfaenol oedd yn cwblhau'r asesiad CHAT. Roedd rhai cofnodion gofal yn cael eu cadw ar y Fframwaith Ceisiadau Cyfiawnder Ieuenctid ac eraill fel cofnodion papur yn y swyddfa camddefnyddio sylweddau. Roedd y samplau a welsom yn blentyn-ganolog ac o ansawdd da, ac yn cynnwys sgrinio CHAT, asesiadau risg a chynlluniau gofal. Roedd gwybodaeth a chyngor lleihau niwed yn cael ei roi i'r plant yn ystod eu cynefino, ynghyd â'r cyflwyniad 'War on drugs'. Roedd gan y swyddfa camddefnyddio sylweddau adnoddau da ond oherwydd y diffyg gwasanaeth yn ddiweddar, nid oeddent yn cael eu defnyddio.

**2.60** Ni welsom unrhyw dystiolaeth o wasanaethau camddefnyddio sylweddau integredig.

## Argymhelliad

**2.61 Dylai'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau integredig ddarparu asesiadau, ymyriadau a chynlluniau rhyddhau boddhaol i wella'r canlyniadau i blant.**

## Optimeiddio meddyginiaeth a gwasanaethau fferyllol

**2.62** Roedd rheoli meddyginiaethau wedi'i drefnu'n dda gan y nyrsys gofal sylfaenol. Cyflenwir meddyginiaethau drwy raglen cleifion enwebedig (NPP) gan y fferyllfa fewnol yn y prif garchar, oedd wedi'i staffio'n dda. Roedd rhagnodwr fferyllol annibynnol ar gael os oedd y plant eisiau trafod eu presgripsiwn.

**2.63** Roedd y carchar gan amlaf yn cadw at y rhestr gyffuriau. Roedd rhagnodi a gweinyddu'n cael ei gofnodi ar SystmOne. Roeddent yn cadw rhai meddyginiaethau, fel eli̇au ac anadlyddion, yn eu meddiant ac roedd y nyrsys yn helpu'r plant i reoli ac ail-archebu eu meddyginiaeth. Roedd cypyrddau gyda chlo yn y celloedd, i gadw meddyginiaeth yn ddiogel.

**2.64** Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol a'r stoc yn cael ei gwirio a'i harchebu'n wythnosol. Nid oedd y tîm clinigol wedi adrodd unrhyw oedi cyn i feddyginiaeth gyrraedd.

**2.65** Roedd y rhan fwyaf o feddyginiaethau'n cael eu gweinyddu am 8am a 4pm. Roedd rhai'n cael eu gweinyddu amser cinio ac wedi nos, ond roedd yr amseroedd goruchwylio rheolaidd yn rhwystro cadw at amserlen ddosio rhai meddyginiaethau oedd wedi eu hargymell ar gyfer gofal clinigol effeithiol. Ychydig iawn o feddyginiaethau y gellid eu masnachu oedd yn cael eu rhagnodi.

**2.66** Roedd goruchwyliaeth dda o'r hatshis meddyginiaeth ac roedd y plant fel arfer yn mynychu un ar y tro.

**2.67** Roedd meddyginiaethau priodol ar gael i drin mân anhwylderau heb bresgripsiwn ond trefniadau protocol anfoddhaol i ddarparu meddyginiaethau cryfach heb weld meddyg. Roedd trefniadau cysoni stoc ar gyfer meddyginiaethau a gymerid y tu-allan-i-oriau, ond nid ar gyfer meddyginiaethau mân anhwylderau. Roedd ystod dda o feddyginiaethau syml ar gael i'w prynu o restr y ffreutur.

**2.68** Roedd protocol ysgrifenedig ar gyfer rheoli meddyginiaeth ac roedd staff y fferyllfa'n mynychu'r cyfarfod rheoli meddyginiaeth misol.

## Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg

**2.69** Mae Time for Teeth wedi darparu ystod briodol o driniaethau GIG. Cafodd ystod dda o wybodaeth a chyngor hybu iechyd y geg ei darparu ar hylendid y geg ac atal afiechyd fel rhan o apwyntiadau deintyddol.

**2.70** Roedd yr amseroedd aros i gael gweld y deintydd yn dda. Roedd y rhan fwyaf o blant yn cael eu gweld o fewn ychydig ddiwrnodau ar gyfer apwyntiadau arferol, ac mewn achosion brys yn derbyn yr apwyntiad nesaf oedd ar gael. Roedd pedwar apwyntiad ar gael bob dydd, a rhai'n cael eu defnyddio ar gyfer triniaeth barhaus.

**2.71** Roedd y prosesau llywodraethu lleol a'r trefniadau rheoli atal haint yn effeithiol. Roedd y deintydd a'r nyrs ddeintyddol yn hyfforddedig a chymwysedig.

# Section 3. Adran 3. Gweithgareddau pwrpasol

## Amser allan o’r gell

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Roedd y plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser allan o'r gell, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol, saith diwrnod yr wythnos.**[10]

**3.1** Roedd amser allan o'r gell yn parhau i fod yn dda. Yn yr arolwg, dywedodd 100% o'r plant eu bod yn derbyn dros ddwy awr allan o'r gell bob dydd. Ni welsom unrhyw blant dan glo yn ystod eu horiau craidd a dywedodd 97% yn yr arolwg eu bod yn mynychu addysg ar hyn o bryd, oedd yn rhagorol. Ar gyfartaledd roedd plant yn derbyn o leiaf naw awr allan o'r gell yn ystod yr wythnos, ac uchafswm o ychydig dros 11 awr. Ar y penwythnos, roedd ganddynt rhwng chwech ac wyth awr a hanner. Roedd amser allan o'r gell yn dibynnu ar lefel cynllun cymhellion ac ennill manteision y plentyn. Teimlai'r plant y buon ni'n siarad â nhw eu bod yn cael digon o amser allan o'r gell.

**3.2** Roedd y staff yn ymrwymedig i hwyluso amser yn yr awyr iach lle bo hynny'n bosib. Fel ar adeg yr arolygiad blaenorol, gallai hyn fod hyd at dair gwaith y dydd - llawer gwell na mewn sefydliadau YOI eraill.

**3.3** Roedd gan y plant i gyd fynediad da at lyfrgell ag adnoddau priodol, yn cynnwys ystod o lyfrau priodol i oed gan gynnwys rhai yn Gymraeg a llyfrau ieithoedd tramor, nofelau hawdd darllen a chyfnodolion perthynol i ddiddordebau hamdden. Roedd yno hefyd lyfrau'n ymwneud â llwybrau dysgu. Roedd y plant yn gallu archebu llyfrau sain a llyfrau o'r brif lyfrgell oedd fel arfer yn cyrraedd o fewn dau ddiwrnod meddent.

**3.4** Roedd llyfrgellydd yn y llyfrgell am dri diwrnod a hanner bob wythnos. Roedd staff y llyfrgell yn nôl deunyddiau i blant ar yr adeiniau na allai fynychu'r llyfrgell.

**3.5** Gallai'r plant ddefnyddio adnoddau Addysg Gorfforol (AG) a ffitrwydd, gan gynnwys campfa fodern bwrpasol, cae pob tywydd bychan ac ystafell ddosbarth neilltuol ar gyfer gwersi theori. Roedd y plant i gyd bron yn gwneud AG gyda'r nos ac ar y penwythnos drwy ystod eang o chwaraeon oedd yn ateb eu hanghenion a'u diddordebau'n dda.

**3.6** Roedd gan blant ar y llwybr iechyd a lles fynediad helaeth i'r gampfa a'r cae artiffisial. Roedden nhw wedi dysgu ystod eang o sgiliau a llawer wedi cwblhau cymhwyster lefel 1 fel y gallent weithio fel staff campfa ar ôl eu rhyddhau. Roedd gan y staff AG gyswllt da â'r staff meddygol i gefnogi plant sâl neu wedi anafu i wneud gweithgareddau corfforol yn ddiogel a gwella eu ffitrwydd.

---

[10] Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgareddau pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw amser y mae'r plant allan o'u celloedd ar gyfer cymdeithasu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu wneud galwad ffôn.

# Addysg, dysgu a sgiliau

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Disgwylir a galluogir y plant i gyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, sgiliau neu waith sy'n hyrwyddo datblygiad personol a chyflogadwyedd. Mae digon o leoedd addysg, sgiliau a gwaith addas ar gael i ateb anghenion y boblogaeth ac mae'r ddarpariaeth o safon dda.**

**3.7** *Cyflawnodd Estyn[11] yr asesiadau canlynol o'r ddarpariaeth ddysgu, sgiliau a gwaith:*

| | |
|---|---|
| *Safonau:* | *Rhagorol* |
| *Lles ac agweddau at ddysgu:* | *Da* |
| *Profiadau dysgu ac addysgu:* | *Rhagorol* |
| *Gofal, cymorth ac arweiniad:* | *Rhagorol* |
| *Arweinyddiaeth a rheolaeth:* | *Rhagorol* |

## Lles ac agweddau at ddysgu

**3.8** Roedd gan y rhan fwyaf o'r plant agweddau da at ddysgu ac yn cyfrannu'n dda i'r gwersi. Gan amlaf roedden nhw'n gwrando'n ofalus ar yr athrawon, yn cyfrannu'n barod i drafodaethau ac yn parchu cyfraniad plant eraill yn y dosbarth. Gwelsom blant yn cydweithredu'n dda gyda'i gilydd gan helpu ei gilydd gyda'r gwaith. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda gan ddilyn rheolau a threfn y dosbarth.

**3.9** Dywedodd y plant i gyd bron eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu haddysg. Roeddent yn elwa o awyrgylch diogel wedi'i greu gan staff y carchar, oedd yn symud pob dosbarth un ar y tro ar ddechrau a diwedd y sesiynau, gan leihau unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro rhwng y plant. Roedd y plant i gyd bron yn ymwybodol o'r drefn gwyno ac yn gwybod sut i wneud cwyn. Roeddent yn teimlo bod yr athrawon a'r rheolwyr yn barod i helpu ac wrth law ac yn ffyddiog y byddent yn ymchwilio i unrhyw bryderon ganddynt.

**3.10** Roedd y rhan fwyaf o blant yn mynychu addysg yn rheolaidd. Yn y pedwar mis blaenorol roedd lleihad cyson wedi bod yn nifer y plant oedd yn gwrthod yn barhaus â mynychu addysg. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau a gwerthfawrogi eu haddysg, yn enwedig y sesiynau mwy ymarferol fel addysg gorfforol, gwaith coed a choginio. Roedd y plant yn ennill teimlad gwell o les drwy gymryd rhan mewn hyfforddiant ffitrwydd, pêl-droed a choginio. Roedd creu cynhyrchion o safon fel drwy waith coed a chlustogwaith yn rhoi teimlad o hunan-werth iddynt. Roedd y plant yn falch o roi'r pethau a ddyluniwyd ac a wnaed ganddynt yn eu gwersi gwaith coed i'w teuluoedd. Yn y gwersi dinasyddiaeth, roedd y plant yn dechrau deall sut y gallent ymdoddi'n ôl i gymdeithas a rhoi'r gorau i droseddu. Fodd bynnag nid oedd ystod ddigon eang o gyfleoedd ar gael i blant i gael datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd.

**3.11** Nifer fach iawn o blant oedd ddim yn gallu integreiddio'n llawn â'r plant eraill oherwydd nad oeddent yn deall Saesneg.

[11] Mae arolygu safonau addysg ac addysgol a hyfforddiant galwedigaethol i bobl ifanc mewn sefydliadau YOI yn cael ei wneud gan Estyn (swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), sy'n gweithio dan gyfarwyddyd cyffredinol Arolygiaeth Carchardai EM. Mae Estyn yn annibynnol i, ond yn cael ei gyllido gan y Cynulliad Cenedlaethol. Pwrpas Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

## Argymhellion

**3.12 Dylid ehangu'r cwricwlwm sgiliau galwedigaethol fel bod gan blant fwy o gyfle i ymuno â chwrs galwedigaethol neu gyflogaeth ar ôl eu rhyddhau.**

**3.13 Dylid darparu ar gyfer plant sy'n siarad ieithoedd eraill fel y medrant wella eu Saesneg llafar i gyrraedd lefel weithredol.**

## Profiadau dysgu ac addysgu

**3.14** Roedd gan yr athrawon gymwysterau da ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm gyda chymorthyddion dysgu i gefnogi'r plant. Roedd athrawon yn rhoi sylw da iawn i asesiadau cychwynnol, diddordebau a galluoedd naturiol y plant wrth gynllunio eu sesiynau i sicrhau bod yr addysg wedi'i gwahaniaethu'n effeithiol a bod her yn y gwaith. Roedd yr athrawon yn dangos parch i'r plant ac yn fodelau rôl ardderchog wrth siarad ac ymgysylltu â'r plant. Roedd ganddynt ddyheadau uchel priodol ar gyfer y plant, oedd yn eu tro'n barchus ac yn ymroi i ddysgu yn y gwersi. Roedd yr athrawon yn defnyddio ystod dda iawn o weithgareddau ac adnoddau, gan gynnwys deunyddiau dwyieithog a byrddau gwyn rhyngweithiol, i helpu'r plant i ddysgu. Roedd arddangosiadau dwyieithog yn adnodd cyfeiriol da i'r plant. Roedd yr athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig clir a defnyddiol i helpu'r plant i wella eu gwaith. Roeddent yn gwneud defnydd da o gynlluniau dysgu unigol a chynlluniau addysg i dracio cynnydd yn effeithiol.

**3.15** Roedd y cwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda ac yn gytbwys. Roedd ffocws da ar Saesneg a Mathemateg yn y cwricwlwm craidd. Roedd y llwybr iechyd a lles yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r plant am fwyta'n iach a materion iechyd, fel clefydau a drosglwyddir yn rhywiol a chanser y ceilliau.

**3.16** Roedd y cwricwlwm diwygiedig yn rhoi mwy o gyfle i'r plant astudio pynciau yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt, er enghraifft roedd gan y plant i gyd o leiaf awr o fynediad at waith coed bob wythnos, a mwy o fynediad at wersi coginio. Ond annigonol o hyd oedd y mynediad at sgiliau galwedigaethol. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd yr adran addysg wedi ateb yr argymhelliad i gyflwyno llwyfan dysgu rhithiol ond nid oedd eto'n llwyr weithredol pan gynhaliwyd yr arolygiad.

## Argymhelliad

**3.17 Dylai rheolwyr sicrhau bod gan blant fynediad at adnoddau dysgu rhithiol dibynadwy.**

## Gofal, cymorth ac arweiniad

**3.18** Roedd trefniadau effeithiol i gynefino plant ar gyfer addysg a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau, gan gynnwys asesiadau sylfaenol mewn Saesneg a Mathemateg i fesur anghenion cychwynnol y plant a phenderfynu pa lwybrau oedd angen iddynt eu dilyn i wella eu sgiliau.

**3.19** Roedd athrawon a rheolwyr wedi gwrando'n ofalus ar ddewisiadau'r plant wrth gyflwyno pynciau newydd iddynt, er enghraifft y llwybr cerdd, ac wedi gweithredu arnynt.

**3.20** Roedd yr adran addysg wedi gweithio gyda Gyrfa Cymru'n ddiweddar i roi cyngor ac arweiniad diduedd i'r plant ar gyfleoedd cyflogaeth ar ddiwedd eu dedfryd, a sut i ofyn a chwilio am gyngor ac arweiniad pellach ar ôl eu rhyddhau. Roedd y cynghorydd gyrfaol wedi

cwrdd â'r plant oedd ar fin cael eu rhyddhau i drafod opsiynau gan roi taflenni gwybodaeth iddynt ar wahanol gyfleoedd cyflogaeth yr oeddent wedi dangos diddordeb ynddynt.

**3.21** Roedd staff yn monitro cynnydd y plant yn effeithiol ac yn diweddaru eu cynlluniau dysgu ac addysg unigol yn rheolaidd. Roedd staff yn monitro plant bregus yn ofalus gan gofnodi nodiadau arsylwi priodol ar eu hymddygiad. Drwy ei rhaglen dinasyddiaeth, roedd yr adran addysg wedi cyflwyno addysgu diduedd ar hawliau'r plentyn ac ar drefniadau i ethol llywodraeth ar gyfer y DU. Roedd yr athrawon yn cynllunio i roi cyfle i'r plant gael darllen maniffesto pob plaid wleidyddol a chael pleidleisio mewn ffug-etholiad i wella eu dealltwriaeth o'u rôl a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

**3.22** Roedd tîm rheoli cryf wedi cynyddu o ran nifer ac effeithiolrwydd ers yr arolygiad diwethaf. Roedd yr aelodau'n cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd a gyda'r staff addysg. Roedd cydweithrediad da iawn rhwng rheolwyr addysg a staff yr adeiniau, fel y gallai'r rheolwyr gynllunio'r addysg yn briodol.

**3.23** Roedd yr uned addysg unwaith eto wedi rhagori ar y dangosyddion perfformiad yn ei chontract. Roedd gan reolwyr a staff weledigaeth briodol a dyheadau uchel ar gyfer y plant.

**3.24** Roedd y rheolwyr wedi gwneud nifer o welliannau ers yr arolygiad diwethaf, fel ad-drefnu'r amserlen i gynyddu mynediad at y gwersi Saesneg a Mathemateg ac at addysg iechyd a ffitrwydd.

**3.25** Roedd rheolwyr yn parhau i fonitro cyrhaeddiad a chyflawniad y plant yn drylwyr ac effeithiol. Roeddent wedi cyflwyno methodoleg well ar gyfer cofnodi ennill cymwysterau. Roedd gan y staff i gyd dargedau ar gyfer sicrhau bod plant yn cyflawni amcanion ac ennill cymwysterau.

**3.26** Roedd yr athrawon yn cael eu harsylwi'n rheolaidd gan dderbyn adborth a chymorth gwerthfawr i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau. Roedd gwaith tîm cryf yn arwain at ddisgwyliadau a pherfformiad cyson yn yr adran. Roedd cyfarfodydd tîm wythnosol yn trafod problemau a sicrhau cymorth i'r holl athrawon. Roedd cyfleoedd da i'r athrawon gymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.

**3.27** Roedd rheolwyr yn hunan-werthuso mewn ffordd drylwyr, gynhwysfawr a gonest. Roedd y dystiolaeth yn cael ei dadansoddi a chynlluniau gwella priodol yn cael eu datblygu i wella ansawdd. Roedd adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithiol i adlewyrchu'r cynlluniau gweithredol.

**3.28** Roedd rheolwyr yn parhau i ddatblygu partneriaethau da ag asiantaethau cymunedol, er enghraifft nifer o sefydliadau chwaraeon, hosbis plant lleol, Ymddiriedolaeth y Tywysog a Choleg Caerdydd a'r Fro. Roedd y trefniadau hyn yn cynnig gweithgareddau cyfoethogi a dysgu ychwanegol i'r plant ac yn rhoi cyfle i'r athrawon rannu arferion da.

**3.29** Roedd rheolwyr yn adlewyrchu barn y plant yn dda yn y fforwm cymunedol ac wedi gweithredu ar eu hawgrymiadau, er enghraifft roedd gan y plant fwy o gyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant ffitrwydd (gweler paragraff 3.5).

**3.30** Roedd rheolwyr wedi gweithredu ar yr argymhelliad o'n harolygiad diwethaf i wella'r cyfleusterau ar-lein.

# Section 4. Adran 4. Adsefydlu

## Plant, teuluoedd a chyswllt â'r byd tu allan

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae rheolwyr yn cefnogi'r plant i sefydlu ac aros mewn cysylltiad â'u teuluoedd, gan gynnwys rhieni corfforaethol, a ffynonellau cymorth eraill yn y gymuned. Mae partneriaid cymunedol yn gyrru'r cynlluniau hyfforddi a remand a theuluoedd yn rhan o bob penderfyniad mawr am eu plant.**

**4.1** Roedd y cymorth i helpu plant i aros mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau'n parhau i fod yn dda iawn. Roedd rôl y gweithiwr teulu wedi gwreiddio'n dda ac yn helpu i sicrhau bod teuluoedd a gofalwyr yn cael eu diweddaru ar gynnydd eu plentyn.

**4.2** Yn yr arolwg, dywedodd 91% o'r plant o'i gymharu â 58% mewn YOI tebyg fod rhywun yn Parc wedi eu helpu i gadw mewn cysylltiad â theulu neu ffrindiau, oedd yn arbennig o gadarnhaol. Hefyd, dywedodd 100% o'r plant y gallent ddefnyddio ffôn bob dydd o'i gymharu â 61% mewn YOI tebyg. Roedd ein cyfweliadau un-i-un yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn. Roedd mynediad da at ffonau, ond roedd credyd ffôn yn ddrud i blant ei brynu o'i gymharu â'r gost mewn sefydliadau troseddwyr ifanc eraill.

**4.3** Roedd y sefydliad yn gweithio'n galed i helpu'r plant i ailsefydlu ac adfer eu cyswllt rheolaidd â theulu, lle'r oedd hynny'n briodol. Eglurodd un plentyn yn ein sampl achosion eu bod wedi colli cysylltiad â brawd / chwaer hŷn cyn dod i'r carchar, a bod y staff wedi eu helpu i ailsefydlu cyswllt rheolaidd dros y ffôn.

**4.4** Roedd y plant yn gallu archebu ymweliadau'n defnyddio'r ciosgau electronig yn yr uned. Roedd pobl yn ymweld gyda'r nos yn ystod yr wythnos, ac yn ystod y dydd ar y penwythnos. Roedd y ganolfan ymwelwyr yn amgylchedd addas i deuluoedd a phlant. Roedd nifer y diwrnodau teuluol wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf ac roedd gan y plant i gyd bellach fynediad atynt beth bynnag oedd eu lefel yn y cynllun cymhellion ac ennill manteision.

**4.5** Roedd y carchar yn cynnig cymorth da i deuluoedd oedd yn teithio o bell i ymweld. Roedd gwasanaeth trafnidiaeth yn parhau i gael ei ddarparu i / o'r orsaf drenau leol. Roedd dulliau cysylltu eraill hefyd ar gael, gan gynnwys ebostio carcharor a Skype i blant gyda theuluoedd oedd yn byw dramor. Defnyddiwyd hwn 10 gwaith yn y chwe mis blaenorol. Roedd system neges llais newydd wedi'i chyflwyno fel y gallai teuluoedd a gofalwyr adael neges i blant. Roedd hyn yn helpu gyda phethau syml fel eu hatgoffa bod angen archebu ymweliad.

**4.6** Roedd cwrs magu plant un-i-un wedi'i ddatblygu gan y gweithiwr teulu i gynorthwyo plant oedd yn dadau.

### Arfer da

**4.7** *Dywedodd cyfran uchel iawn o'r plant fod rhywun yn Parc wedi eu helpu i aros mewn cysylltiad â'u teuluoedd neu ffrindiau, ac yn yr arolwg dywedodd 100% o'r plant y gallent ddefnyddio'r ffôn bob dydd.*

# Cyn rhyddhau ac adsefydlu

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae'r cynllunio ar gyfer rhyddhau neu drosglwyddo plentyn yn dechrau ar ôl cyrraedd. Mae adsefydlu'n ategu gwaith y sefydliad cyfan, ac mae'n cael ei gefnogi gan bartneriaethau strategol yn y gymuned a'i oleuo gan asesiad o risg ac anghenion y plentyn. Mae cynllunio parhaus yn sicrhau eu bod yn gallu pontio'n ddi-dor i'r gymuned.**

**4.8** Roedd trosolwg a rheolaeth strategol o'r gwaith adsefydlu wedi llithro ers yr arolygiad blaenorol. Roedd dadansoddiad manwl o anghenion, ond nid oedd yr argymhellion ohono'n cael eu defnyddio i oleuo'r cynllun gweithredu adsefydlu. Nid oedd pob cyfarfod adsefydlu wedi'i gynnal fel y dylai, a lefel wael o bresenoldeb mewn rhai. Roedd y newidiadau sylweddol i ddarparu'r gwaith adsefydlu yn yr arolygiad blaenorol yn dechrau gwella'r canlyniadau mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, roedd yn siomedig nad oedd y gwaith adsefydlu wedi derbyn digon o gefnogaeth a chyfeiriad gan reolwyr (gweler y pryder allweddol ac argymhelliad S46).

**4.9** Roedd y tîm anghenion, ymgysylltu a lles yn gyfrifol am reoli'r llwyth achosion plant. Roedd y tîm yn cynnwys chwe rheolwr achos, gweithiwr cymdeithasol yn cefnogi plant mewn gofal, a gweithiwr teulu. Y rheolwyr achos oedd yn gyfrifol am y cynlluniau dedfryd a remand, y cynlluniau adsefydlu ac am ddarparu'r gwaith ymyriadau.

**4.10** Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn cwblhau eu dedfryd yn Parc. Roedd y prosesau rhyddhau'n fuan a chyrffyw cadw yn y cartref yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y gweithwyr achos. Roedd plant oedd yn gymwys i gael eu rhyddhau'n fuan yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd cynllunio dedfryd. Yn ein cyfweliadau un-i-un, dywedodd un plentyn fod eu gweithiwr achos wedi eu 'hannog a'u hysgogi' i ymddwyn yn dda a gweithio tuag at ryddhau'n gynnar.

**4.11** Roedd rhai plant gyda dedfrydau hirach, a rhai ar remand, yn trosglwyddo i garchardai oedolion ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed. Yn y chwe mis blaenorol roedd 14 o blant wedi eu trosglwyddo i sefydliadau eraill, a naw arall i'r carchar oedolion yn Parc. Roedd yn broses resymol i blant ar ddedfryd, a bu'r arolygwr yn arsylwi cyfarfod trosglwyddo amlddisgyblaethol cadarnhaol lle dywedodd y plentyn eu bod wedi derbyn y wybodaeth angenrheidiol. Nid oedd y broses i blant ar remand yr un mor drylwyr. Holwyd un plentyn oedd wedi troi'n 18 oed ar remand a wyddai y byddai'n cael ei drosglwyddo i garchar oedolion lleol ond nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth am y sefydliad.

**4.12** Roedd pedwar o blant wedi cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) am gyfanswm o 12 diwrnod yn y chwe mis blaenorol, llai na phan gynhaliwyd yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, i'r nifer fach hyn o blant, defnyddiwyd ROTL at ddibenion adsefydlu, er enghraifft i gwblhau gwaith cyfiawnder adferol yn y gymuned, mynychu lleoliadau profiad gwaith a chwrdd ag aelodau o'u teulu yn y gymuned.

**4.13** Roedd yr asesiadau risg ROTL yn drylwyr. Gofynnwyd am wybodaeth gan yr heddlu a'r timau troseddwyr ifanc (YOT) i oleuo'r bwrdd. Roedd y plant yn mynychu eu byrddau ROTL eu hunain, oedd yn beth da.

**4.14** Roedd diffygion wedi bod gyda darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (wele baragraff 2.58). Er bod y gweithwyr achos yn gweithio'n galed gyda'r timau YOT lleol i ddarparu gwaith camddefnyddio sylweddau ac atal niwed cyn i'r plant adael, nid oedd rhai plant a fyddai wedi elwa o fewnbwn rheolaidd, mwy dwys, yn ei dderbyn.

### Argymhelliad

**4.15 Dylid rhoi gwybodaeth lawn i blant ar remand, sy'n trosglwyddo i garchardai oedolion, am y sefydliad y byddant yn symud iddo.**

## Cynllunio hyfforddiant a rheoli remand

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae gan y plant i gyd gynllun hyfforddi neu reoli remand sy'n seiliedig ar asesiad o risg ac anghenion y plentyn unigol. Roedd staff perthnasol yn gweithio'n gydweithredol â'r plant a'u rhieni / gofalwyr i ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau. Mae'r cynlluniau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u gweithredu drwy gydol ac yn dilyn cyfnod y plentyn dan glo i sicrhau pontio llyfn i'r gymuned.**

**4.16** Roedd y gweithwyr achos anghenion, ymgysylltu a lles yn gydwybodol, profiadol ac yn dda iawn am adeiladu perthynas effeithiol â'r plant yr oeddent yn eu cefnogi. Roedd ganddynt lwyth achosion o tua chwech o blant, llawer llai na mewn sefydliadau YOI eraill. Roeddent yn cael cyswllt aml ac ystyrlon â'r plant ac yn adnabod y plant yr oeddent yn eu cefnogi'n dda iawn. Roedd yr uned yn parhau i ddefnyddio'r Fframwaith Ceisiadau Cyfiawnder Ieuenctid (YJAF) i gofnodi ei gwaith gyda'r plant a'i rannu â'r timau YOT yn y gymuned. Roedd y cofnodion achos YJAF yn rhagorol.

**4.17** Yn yr arolwg, roedd 69% o'r plant yn gwybod bod ganddynt gynllun dedfryd a 85% o'r rhain yn deall beth oedd angen iddynt ei wneud i gyrraedd eu targedau. Roedd yn arbennig o gadarnhaol bod 81% o'i gymharu â 43% mewn YOI tebyg yn dweud bod y staff yn eu cefnogi i gyflawni eu targedau neu amcanion. Roedd ein cyfweliadau un-i-un yn adlewyrchu hyn: dywedodd un plentyn 'Rwy'n gwybod beth yw fy nghynllun. Mae gen i adolygiad bob tri mis i drafod a yw fy nhargedau wedi cael eu cwrdd ac i osod rhai newydd'.

**4.18** Roedd gan bob achos a adolygwyd gennym gynllun yn ei le. Roedd y cynlluniau wedi eu hysgrifennu i fod yn hawdd i'r plant eu deall, a'r targedau'n realistig. Ar y cyfan roedd y cyfathrebu rhwng gweithwyr achos, y timau YOT, gweithwyr cymdeithasol a'r rhieni'n adeiladol. Roedd tystiolaeth bod gweithwyr achos yn dechrau herio'r partneriaid cymunedol yn gryfach i eiriol ar ran anghenion adsefydlu'r plant, er enghraifft drwy gwestiynu pa mor addas oedd llety i blentyn unwaith y byddent yn cael eu rhyddhau. Er bod y cyfarfodydd adolygu'n trafod risg o niwed, nid oedd hyn bob tro'n trosglwyddo i gynlluniau rhyddhau'r plant i adnabod unrhyw risg o niwed yn y gymuned.

**4.19** Nid oedd y cynlluniau i sicrhau bod cynnydd addysgol y plant yn parhau yn y gymuned bob amser yn drylwyr. Ni wyddai rai plant pa addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth y byddent yn ei wneud ar ôl eu rhyddhau.

**4.20** Roedd y gweithwyr achos yn sicrhau bod cyfarfodydd adolygu cynlluniau hyfforddi a remand yn digwydd yn rheolaidd. Os oeddent eisiau, gallai'r plant gael cyfarfod preifat â'u YOT neu weithiwr cymdeithasol ar ddechrau bob cyfarfod adolygu. Roedd yr adrannau a gâi gyswllt rheolaidd â phlentyn yn mynychu eu cyfarfodydd cynllunio hyfforddi a remand, oedd yn dda. Roedd staff preswyl yn mynychu'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd adolygu, oedd i'w ganmol, ac yn well na mewn sefydliadau YOI eraill. Wrth i'r gweithwyr achos a staff preswyl weithredu'n unedig, roedd y plant yn cael eu hannog i weithio tuag at amcanion neu dargedau eu dedfryd.

**4.21** Roedd gan blant ar remand gyfarfodydd adolygu misol a dangosai'r cofnodion fod mechnïaeth yn cael ei drafod gyda nhw. Roedd gweithwyr achos yn atgoffa gweithwyr proffesiynol yn y gymuned y gallai fod angen cymorth ar y plant, gan gynnwys llety, ar gyfer pob ymddangosiad yn y llys.

**4.22** Fodd bynnag, nid oedd arweinwyr a rheolwyr yn rhoi digon o gymorth i'r gweithwyr achos ac roedd bylchau yn y broses drosolwg. Roedd rhai gweithwyr achos yn aneglur ynghylch y gweithdrefnau uwchgyfeirio mewnol, nid oedd goruchwyliaeth o weithwyr achos ac nid oedd uwch-reolwr bob amser yn sicrhau ansawdd asesiadau (gweler pryder allweddol ac argymhelliad S46).

## Arfer da

**4.23** *Roedd y gweithwyr achos ar anghenion, ymgysylltu a lles yn gydwybodol, yn brofiadol ac yn dda iawn am adeiladu perthynas effeithiol â'r plant yr oeddent yn eu cefnogi. Roedd ganddynt lwythi achosion isel o tua chwech o blant, ac roeddent yn cael cyswllt aml ac ystyrlon â nhw.*

**4.24** *Roedd staff preswyl yn mynychu'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd adolygu gan sicrhau dull cydgysylltiedig o annog y plant i weithio tuag at amcanion neu dargedau eu dedfryd. Fe wyddai staff yr uned beth oedd targedau'r plant ac roeddent yn eu hatgyfnerthu yn eu cyswllt dyddiol â'r plant.*

## Amddiffyn y cyhoedd

**4.25** Roedd gwahanol adrannau, gan gynnwys carcharu a diogelwch, yn sgrinio'n gychwynnol i adnabod unrhyw blant a allai gyflwyno risg i'r cyhoedd ar ôl eu rhyddhau. O fewn pum diwrnod i gyrraedd, roedd gweithwyr achos yn cwblhau cofnod amddiffyn y cyhoedd er mwyn rhannu gwybodaeth. Roedd yr asesiad hwn yn cefnogi penderfyniadau ynghylch a ddylid monitro galwadau ffôn a phost plentyn a chyfyngu ar eu cyswllt. Fodd bynnag mewn un achos, dim ond wrth wneud yr adolygiad hwn y daeth y gweithiwr achos yn ymwybodol o nodyn gan yr adran ddiogelwch yn nodi bod angen dilyn gweithdrefnau risg i blant.

**4.26** Roedd gweithwyr achos yn cyfathrebu'n effeithiol â thimau YOT ynghylch plant oedd yn destun trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaethol (MAPPA). Ar y cyfan roedd cyfraniad y gweithwyr achos i gyfarfodydd MAPPA cymunedol o ansawdd eithaf da, er nad oedd y wybodaeth bob tro'n cael ei gwirio a'i gwrth-lofnodi gan reolwr ymlaen llaw. Nid oedd rhai o'r gweithwyr achos yn ymwybodol o bolisi'r sefydliad ar amddiffyn y cyhoedd. Ar adeg yr arolygiad, roedd tri phlentyn yn destun MAPPA lefel uwch lle byddai angen rheolaeth aml-ddisgyblaethol ar ôl eu rhyddhau. Nid oedd trosolwg rheolaidd gan reolwyr o achosion risg uchel o achosi niwed.

## Argymhelliad

**4.27** **Dylai fod gan reolwyr drosolwg ar bob achos risg uchel o achosi niwed i sicrhau bod y mesurau i liniaru'r risg y gallai plant ei gyflwyno wedi eu cwblhau cyn eu rhyddhau.**

## Pobl ifanc gyda dedfrydau amhenodol

**4.28** Ar adeg yr arolygiad, roedd dau o blant gyda dedfrydau amhenodol ac roedd eu hachosion yn cael eu rheoli'r un fath ag achosion unrhyw blant eraill. Roedd y ddau wedi eu dedfrydu'n ddiweddar a'u gweithwyr achos yn ymwybodol o'r rheidrwydd i gynnal cyswllt â gweithiwr YOT y plant i benderfynu a ddylid cynnal panel asesu risg carcharorion oes aml-asiantaethol.

**4.29** Nid oedd gwasanaethau penodol i blant gyda dedfrydau amhenodol neu hir, er y gallai'r adran dysgu a sgiliau gefnogi plant oedd yn astudio ar gyfer TGAU a Safon UG.

### Plant sy'n derbyn gofal

**4.30** Ar adeg yr arolygiad, roedd nifer y plant oedd wedi bod, neu'n parhau i fod ar lyfrau'r gwasanaethau cymdeithasol plant yn uchel o hyd ar 25. Roedd 11 o'r rhain yn destun gorchymyn gofal llawn neu'n blant yn derbyn gofal oherwydd eu bod ar remand. Roedd y gweddill wedi derbyn gofal cyn dod i'r carchar, neu'n blant mewn angen.

**4.31** Roedd uwch-weithiwr cymdeithasol yr uned blant yn cwrdd â'r holl blant gyda statws derbyn gofal yn fuan ar ôl cyrraedd ac yn cysylltu â'u hawdurdod lleol i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth yr oedd ganddynt hawl iddo. Roedd lefel y cymorth yn amrywio ond roedd y rhan fwyaf o awdurdodau'n rhoi cymorth ariannol i hwyluso cyswllt parhaus â'u teuluoedd. Roedd plant yn derbyn gofal yn derbyn adolygiad fel bo angen, a gweithwyr cymdeithasol yn cyfrannu at adolygu'r cynlluniau hyfforddi.

## Cynllunio ailintegreiddio

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae anghenion adsefydlu'r plant yn cael sylw cyn eu rhyddhau. Defnyddir ymateb aml-asiantaethol effeithiol i gwrdd ag anghenion penodol pob person ifanc er mwyn gwella pob siawns y bydd yn gallu ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned.**

**4.32** Roedd y cynlluniau ar gyfer rhyddhau ac ailintegreiddio yn y gymuned yn dda ar y cyfan ac yn adnabod anghenion unigol y plant. Roedd cynlluniau'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd adolygu, ac os oedd anghenion heb eu cwrdd, roedd y gweithwyr achos yn gweithio'n uniongyrchol ag asiantaethau eraill i geisio datrys y mater. Roedd diffyg rheolaeth gyson dros y chwe mis blaenorol yn golygu bod rhai gweithwyr achos yn ansicr sut i uwchgyfeirio problemau er mwyn derbyn cymorth ychwanegol (gweler pryder allweddol ac argymhelliad S46).

**4.33** Roedd y cynllunio rhyddhau'n cynnwys nifer o adrannau ac asiantaethau cymunedol. Buom yn arsylwi cyfarfod cynllunio rhyddhau terfynol a ddisgrifiodd yn fanwl pwy fyddai'n cwrdd ag anghenion y plentyn yn syth ar ôl rhyddhau. Roedd staff dysgu a sgiliau, gofal iechyd a'r YOT yn bresennol, a'r gweithiwr achos yn cadeirio. Roedd gweithwyr achos yn mynychu cyfarfod gyda'r YOT 10 diwrnod ar ôl rhyddhau i gadarnhau bod y cynllun wedi'i roi ar waith, er nad oedd y carchar yn dadansoddi canfyddiadau'r cyfarfodydd hyn.

**4.34** Roedd y gweithwyr achos yn mynd drwy amodau'r drwydded gyda'r plant yn eu cyfarfod adolygu terfynol gan roi copi i'r plentyn i sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw gyfyngiadau arnynt. Ar y diwrnod rhyddhau, roedd gweithwyr achos yn sicrhau bod oedolyn addas yn dod i gwrdd â'r plentyn wrth y gât bob tro. Roedd eiddo ar gadw yn y carchar yn cael ei ddychwelyd i'r plant, ynghyd â bag plaen i gario eu pethau. Roedd stôr o ddillad yn cael ei gadw yn y dderbynfa fel nad oedd unrhyw blentyn yn cael ei ryddhau heb ddillad addas.

## Ymyriadau

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae gan y plant fynediad at ymyriadau a ddyfeisiwyd i hyrwyddo adsefydlu llwyddiannus.**

**4.35** Roedd anghenion llety'n cael eu hadnabod yn yr asesiad cychwynnol gan weithwyr achos a'u hystyried ym mhob cyfarfod adolygu. Os nad oedd llety addas yn ei le'n agos i'r dyddiad rhyddhau, roedd gweithiwr achos yn gofyn am gymorth gan eiriolwyr Barnardo, oedd wedi ymyrryd yn llwyddiannus mewn saith achos dros y chwe mis blaenorol yn ymwneud, bob tro, ag awdurdod lleol oedd wedi methu â darparu llety cychwynnol.

**4.36** Dros y chwe mis blaenorol, nid oedd yr un plentyn wedi'i ryddhau heb gyfeiriad addas i fynd iddo, er nad oedd hyn wedi'i drefnu 14 diwrnod neu fwy cyn y dyddiad rhyddhau ar bedwar achlysur. Roedd hyn yn rhoi llai o amser i gytuno ar rannau eraill y cynllun, gan danseilio'r gobaith o ailintegreiddio yn y gymuned.

**4.37** Roedd cyngor ar drin arian a chyllidebu'n rhan o wersi addysg ac roedd y plant i gyd yn ei dderbyn. Gallai plant wneud cais am rif yswiriant gwladol ac agor cyfrif banc. Fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei drefnu ar y safle oedolion a dywedodd gweithwyr achos fod y broses yn un mor hir fel bod rhai plant wedi symud ymlaen cyn gallu agor cyfrif. Dim ond i blant o Gymru, oedd yn lleiafrif yn y carchar, oedd y cyngor gyrfaol ar gael.

**4.38** Roedd gweithwyr achos wedi datblygu ystod dda o ymyriadau heb eu hachredu i geisio gwella deallusrwydd emosiynol y plant a lleihau eu hymddygiad treisgar. Nid oedd yr uned wedi cwblhau gwerthusiad o'r ymyriadau eto. O hyd, nid oedd ymyriad i roi sylw i ymddygiad rhywiol niweidiol oherwydd teimlai'r gweithwyr achos nad oeddent yn gymwys i'w ddarparu.

**4.39** Roedd gweithwyr achos wedi darparu ymyriadau i 41 o blant yn y chwe mis blaenorol, a phob un bron wedi derbyn o leiaf un ymyriad. Roedd gweithwyr achos hefyd wedi cwblhau nifer o sesiynau creu cytgord un-i-un i sicrhau bod agwedd y plant yn gadarnhaol er mwyn gallu elwa orau o'r ymyriad. Roedd y plant a holwyd gennym yn gadarnhaol am yr ymyriadau.

**4.40** Roedd y cyfarfod amserlenni rheolaidd i ddyrannu plant i ymyriadau ar sail eu trosedd a'u dyddiad rhyddhau, wedi dod i ben am y tro, a'r gweithwyr achos oedd bellach yn gwneud y penderfyniadau hyn. Ar adeg yr arolygiad, roedd 11 o blant wedi eu hatgyfeirio ac yn dal i aros i gael dechrau ymyriad, er na fyddai'r rhan fwyaf yn cael eu rhyddhau tan 2020.

## Argymhelliad

**4.41 Dylai'r carchar sicrhau bod ymyriadau'n cael eu dyrannu i blant ar sail eu hymddygiad troseddol a'u dyddiad rhyddhau.**

## Iechyd, gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau

**4.42** Roedd y plant i gyd yn cael eu gweld wrth gael eu trosglwyddo neu ryddhau, i adnabod unrhyw anghenion iechyd. Roedd cyngor hybu iechyd, ac atal rhwystrau, yn cael ei gynnig ynghyd â chrynodeb rhyddhau a gwybodaeth iechyd berthnasol i'r meddyg teulu. Roedd plant ar feddyginiaeth yn cael cyflenwad wythnos a rhai ar feddyginiaeth reoledig yn ei derbyn gan staff fferyllfa y tu allan i'r carchar i atal arallgyfeirio.

**4.43** Nid oedd y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau seico-gymdeithasol i blant wedi'i staffio ers pum mis, oedd yn cyfyngu mynediad i'r ymyriadau angenrheidiol. Roedd tri phlentyn wedi eu rhyddhau dros y cyfnod hwnnw a fyddai wedi elwa o'r ddarpariaeth hon. Roedd y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) hefyd wedi dirywio oherwydd diffyg darpariaeth seicoleg glinigol a diffygion mewn cadw cofnodion clinigol ac asesiadau nyrsio (gweler paragraffau 2.48 to 2.50).

# Section 5. Adran 5. Crynodeb o'r argymhellion a'r arferion da

Rhestrir isod y pryderon allweddol ac argymhellion a ailadroddir a rhai newydd ynghyd ag argymhellion cyffredinol ac enghreifftiau o arferion da sydd yn yr adroddiad hwn. Mae'r cyfeirnodau yn y golofn ar y chwith yn cyfeirio at leoliad y paragraff yn y prif adroddiad.

| Pryderon allweddol ac argymhellion | | Ar gyfer: |
|---|---|---|
| S43 | Pryder allweddol: Er ymdrechion i ddatrys y broblem, roedd oedi o hyd cyn gadael i blant a allai fod â statws cyfyngedig wneud galwadau ffôn uniongyrchol yn ystod eu diwrnodau cyntaf dan glo.<br><br>**Argymhelliad: Dylai HMPPS sicrhau bod bob plentyn yn Parc yn gallu gwneud galwadau ffôn uniongyrchol ar eu diwrnod cyntaf dan glo.** | **HMPPS** |
| S44 | Pryder allweddol: Pan gynhaliwyd yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig ar lefel platinwm (y lefel uchaf ar y cynllun cymhellion ac ennill manteision). Yn ein cyfweliadau preifat, dywedodd plant eu bod wedi profi a / neu wedi bod yn dyst i staff yn trin plant du a lleiafrifol ethnig yn wahaniaethol wrth reoli ymddygiad a chymhellion. Nid oedd cofnodion y carchar ar y cynllun IEP yn cynnwys monitro tarddiad ethnig a lefelau IEP ac ni allai'r rheolwyr egluro'r pryderon hyn.<br><br>**Argymhelliad: Dylid craffu'r data'n drylwyr i sicrhau nad yw'r prosesau rheoli ymddygiad yn gwahaniaethu.** | **Y Cyfarwyddwr** |
| S45 | Pryder allweddol: Nid oedd y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn darparu ystod addas o asesiadau, triniaethau ac ymyriadau i blant yn Parc. Nid oedd ymyriadau seicoleg yn cael eu darparu mwyach, nid oedd therapydd iaith a lleferydd a dim tystiolaeth o therapïau siarad ffurfiol, oedd yn rhywbeth oedd yn amlwg ei angen ar y boblogaeth.<br><br>**Argymhelliad: Dylai'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ddarparu ystod addas o asesiadau, triniaethau ac ymyriadau i blant yn unol â safonau cenedlaethol.** | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg Abertawe a G4S** |
| S46 | Pryder allweddol: Roedd trosolwg a rheolaeth strategol o'r gwaith adsefydlu wedi llithro ers yr arolygiad blaenorol. Nid oedd pob cyfarfod adsefydlu wedi'i gynnal fel y dylai, a lefel wael o bresenoldeb mewn rhai. Roedd rhai gweithwyr achos yn aneglur ynghylch y gweithdrefnau uwchgyfeirio mewnol, nid oedd goruchwyliaeth o weithwyr achos ac nid oedd uwch-reolwr bob amser yn sicrhau ansawdd asesiadau.<br><br>**Argymhelliad: Dylai arweinwyr a rheolwyr ddarparu trosolwg effeithiol ar y gwaith adsefydlu i sicrhau bod asesiadau'n drylwyr, bod anghenion plant yn cael eu cwrdd a bod llwybrau clir ar gyfer uwchgyfeirio pryderon sy'n codi.** | **Y Cyfarwyddwr** |

| Argymhellion cyffredinol | | Ar gyfer: |
|---|---|---|
| 1.17 | Ni ddylid cyflawni archwiliadau arsylwi plant sy'n dilyn patrwm rhy ddisgwyliedig. | Y Cyfarwyddwr |
| 1.18 | Ni ddylid defnyddio monitro teledu cylch cyfyng yn lle cyswllt ystyrlon wyneb yn wyneb ac arsylwi personol. | Y Cyfarwyddwr |
| 1.36 | Dylid rhoi cyfle i bob plentyn ofyn am eiriolaeth mewn da bryd cyn gwrandawiad dyfarnu. | Y Cyfarwyddwr |
| 2.54 | Dylai'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed gyfrannu cofnodion clinigol ansawdd da i gofnodion iechyd cyfoes sengl y plant yn eu gofal. | Y Cyfarwyddwr |
| 2.55 | Dylai'r arferion llywodraethu gwybodaeth gyd-fynd â safonau proffesiynol. | Y Cyfarwyddwr |
| 2.62 | Dylai'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau integredig ddarparu asesiadau, ymyriadau a chynlluniau rhyddhau boddhaol i wella'r canlyniadau i blant. | Y Cyfarwyddwr |
| 3.12 | Dylid ehangu'r cwricwlwm sgiliau galwedigaethol fel bod gan blant fwy o gyfle i ymuno â chwrs galwedigaethol neu gyflogaeth ar ôl eu rhyddhau. | Y Cyfarwyddwr |
| 3.13 | Dylid darparu ar gyfer plant sy'n siarad ieithoedd eraill fel y medrant wella eu Saesneg llafar i gyrraedd lefel weithredol. | Y Cyfarwyddwr |
| 3.17 | Dylai rheolwyr sicrhau bod gan blant fynediad at adnoddau dysgu rhithiol dibynadwy. | Y Cyfarwyddwr |
| 4.15 | Dylid rhoi gwybodaeth lawn i blant ar remand, sy'n trosglwyddo i garchardai oedolion, am y sefydliad y byddant yn symud iddo. | Y Cyfarwyddwr |
| 4.27 | Dylai fod gan reolwyr drosolwg ar bob achos risg uchel o achosi niwed i sicrhau bod y mesurau i liniaru'r risg y gallai plant ei gyflwyno wedi eu cwblhau cyn eu rhyddhau. | Y Cyfarwyddwr |
| 4.41 | Dylai'r carchar sicrhau bod ymyriadau'n cael eu dyrannu i blant ar sail eu hymddygiad troseddol a'u dyddiad rhyddhau. | Y Cyfarwyddwr |
| **Enghreifftiau o arferion da** | | |
| 1.7 | Roedd cynefino wedi'i gynllunio'n dda'n sicrhau bod dyfodiaid newydd yn treulio cyfnodau hir allan o'r gell. | |
| 1.42 | Roedd y broses o reoli a'r cymorth i ddioddefwyr a chyflawnwyr trais yn rhagorol. Roedd rheolwyr y carchar yn adnabod pa blant oedd angen cymorth ychwanegol arnynt ac yn gwneud defnydd prydlon o gynlluniau CSIP addas. Roedd plant yn cyfrannu'n llawn i'r broses ac yn gallu siarad â staff am eu hanghenion, oedd yn cyfrannu at gymorth adeiladol. | |

| | | |
|---|---|---|
| 2.5 | Roedd ffocws arweinwyr a rheolwyr ar drin plant fel unigolion ac ateb eu hanghenion penodol. Roedd staff pob maes wedi datblygu perthnasoedd gofalgar effeithiol â'r plant. Yn yr arolwg, roedd plant yn llawer mwy tebygol na mewn sefydliadau YOI eraill o ddweud eu bod yn derbyn cymorth ac anogaeth gan staff. Roedd staff ym mhob maes yn wybodus iawn am y plant yn eu gofal ac yn parhau i weithio mewn ffordd ysgogol, amyneddgar a gofalgar. | |
| 2.47 | Roedd presenoldeb dau o nyrsys dynodedig yn yr uned blant yn hwyluso darparu gofal parhaus effeithiol ac yn helpu i greu perthynas ofalgar ac ymddiriedus gyda'r plant. | |
| 4.7 | Dywedodd cyfran uchel iawn o'r plant fod rhywun yn Parc wedi eu helpu i aros mewn cysylltiad â'u teuluoedd neu ffrindiau, ac yn yr arolwg dywedodd 100% o'r plant y gallent ddefnyddio'r ffôn bob dydd. | |
| 4.23 | Roedd y gweithwyr achos anghenion, ymgysylltu a lles yn gydwybodol, profiadol ac yn dda iawn am adeiladu perthynas effeithiol â'r plant yr oeddent yn eu cefnogi. Roedd ganddynt lwythi achosion isel o tua chwech o blant, ac roeddent yn cael cyswllt aml ac ystyrlon â nhw. | |
| 4.24 | Roedd staff preswyl yn mynychu'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd adolygu gan sicrhau dull cydgysylltiedig o annog y plant i weithio tuag at amcanion neu dargedau eu dedfryd. Fe wyddai staff yr uned beth oedd targedau'r plant ac roeddent yn eu hatgyfnerthu yn eu cyswllt dyddiol â'r plant. | |

# Section 6. Adran 6. Atodiadau

## Atodiad I: Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Peter Clarke | Prif arolygydd |
| Angus Mulready-Jones | Arweinydd tîm |
| Christopher Rush | Arolygydd |
| David Foot | Arolygydd |
| David Owens | Arolygydd |
| Esra Sari | Arolygydd |
| Hayley Edwards | Arolygydd |
| Ian Macfadyen | Arolygydd |
| Rebecca Stanbury | Arolygydd |
| Amilcar Johnson | Ymchwilydd |
| Sharlene Andrew | Ymchwilydd |
| Helen Ranns | Uwch-ymchwilydd |
| Tania Osborne | Arolygydd gwasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau |
| Alun Connick | Arolygydd Estyn |

# Atodiad II: Cynnydd yn erbyn argymhellion yr adroddiad diwethaf

Isod rhoddir crynodeb o brif ganfyddiadau'r adroddiad diwethaf ynghyd â rhestr o'r argymhellion a wnaed, wedi eu trefnu o dan y pedwar prawf o garchar iach. Mae’r cyfeirifau ar ddiwedd pob argymhelliad yn cyfeirio at leoliad y paragraff yn yr adroddiad blaenorol. Os yw’r argymhelliad wedi’i ailadrodd yn y prif adroddiad, rhoddir ei rif paragraff newydd hefyd.

## Diogelwch

**Mae'r plant a'r bobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, yn cael eu cadw'n ddiogel.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2018, roedd y prosesau derbyn yn ddiymdroi ond roedd rhai cyfyngiadau diangen yn ystod diwrnodau cynnar y plant yn Parc. Roedd y trefniadau amddiffyn plant yn effeithiol. Roedd llai o ddigwyddiadau hunan-niwed na mewn sefydliadau tebyg, ac roedd y gofal i blant mewn argyfwng yn dda. Ychydig iawn o blant a ddywedodd eu bod yn teimlo'n anniogel a phur anaml oedd hunan-ynysu'n digwydd. Roedd y lefelau trais yn parhau i fod yn gymharol uchel ond yn gostwng. Roedd y dull o reoli achosion dioddefwyr a chyflawnwyr trais yn y carchar yn arfer da. Roedd y prosesau rheoli ymddygiad yn annog ymddygiad cadarnhaol a'r cynllun gwobrwyo'n syth yn effeithiol. Roedd y defnydd o rym yn gymesur a'r llywodraethu'n dda. Pur anaml oedd gwahanu'n cael ei ddefnyddio. Roedd y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

### Argymhellion

Dylid cludo bechgyn i'r carchar cyn gynted ag oedd eu hachos wedi gorffen a chyrraedd y carchar cyn 7pm. (1.2)
**Heb ei gyflawni**

Dylid arsylwi bechgyn sy'n destun asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) drwy ddilyn patrwm mwy annisgwyl. (1.21)
**Heb ei gyflawni**

Mae angen adolygu cyfarwyddiadau'r gwasanaeth carchar ar gyfer rheoli bechgyn a allai fod â statws cyfyngedig i hwyluso cysylltu ag aelodau teulu yn ystod y 72 awr gyntaf dan glo. (1.38)
**Heb ei gyflawni**

Dylid craffu canlyniadau'r holl weithdrefnau disgyblu (gwrandawiadau dyfarnu a mân adroddiadau) i sicrhau mai dim ond y digwyddiadau mwyaf difrifol sy'n mynd i wrandawiad. (1.3)
**Wedi'i gyflawni**

Dylid cael cynllun gweithredu uned-benodol ar sail tystiolaeth o fonitro a dadansoddi digwyddiadau, i adnabod y rhesymau am y digwyddiadau a lleihau'r lefelau trais uchel ymhellach. (1.45)
**Heb ei gyflawni**

Yn dilyn digwyddiad lle defnyddiwyd grym, dylid llenwi ffurflenni dibriffio'n drylwyr i gynorthwyo gyda dadansoddi a dysgu er mwyn lleihau lefelau defnyddio grym. (1.51)
**Wedi'i gyflawni**

Ni ddylid defnyddio technegau achosi poen ar blant. (1.64)
**Heb ei gyflawni**

Dylai'r gwaith papur ar gyfer bechgyn wedi eu gwahanu fod yn benodol o ran y dyfarniad a sut y rheolir yr unigolyn i sicrhau cysondeb wrth roi cosb. (1.55)
**Wedi'i gyflawni**

# Parch

**Mae'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu trin gyda pharch i'w hurddas fel pobl.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2018, gwnaed llawer o welliannau i'r unedau preswyl ac roedd yr amodau byw'n dda ar y cyfan. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bechgyn fod staff yn eu trin gyda pharch. Gwelsom berthnasoedd da a staff yn bod yn amyneddgar a gofalgar. Roedd diwylliant cadarnhaol o wobrwyo wedi'i sefydlu ar draws yr unedau ac mewn addysg. Roedd y dull strategol o reoli cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi gwella, gyda mwy o bwyslais ar anghenion penodol yr unigolion. Roedd y gwasanaeth ffydd yn parhau i fod yn dda. Roedd ein hasesiad o gwynion yn dda ond roedd gan rai bechgyn ddiffyg hyder yn y system. Roedd y gwasanaethau gofal iechyd yn parhau i fod yn dda. Roedd pryderon dilys am ansawdd y bwyd a faint ohono oedd ar gael, gan achosi cryn rwystredigaeth i'r bechgyn. Roedd y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## Prif argymhelliad

Dylai'r carchar sicrhau bod y bechgyn i gyd yn derbyn digon o fwyd ar gyfer eu hanghenion datblygu a bod y bwyd o ansawdd digon da i'w hannog i fwyta'n dda. (S39)
**Heb ei gyflawni**

## Argymhellion

Dylai'r system cwynion iechyd cyfrinachol gael ei hysbysebu'n glir a bod yn hygyrch i'r bechgyn. Dylai'r ymatebion fod yn barchus, cyson, prydlon a chanolbwyntio ar y mater dan sylw bob tro. (2.39)
**Wedi'i gyflawni**

Dylai'r holl staff dderbyn goruchwyliaeth reolaethol a chlinigol reolaidd, wedi'i ategu gan arfarniad perfformiad diweddar. (2.40)
**Wedi'i gyflawni**

# Gweithgareddau pwrpasol

**Mae'r plant a'r bobl ifanc yn gallu, a disgwylir iddynt, gymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n debygol o fod o fudd iddynt.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2018, roedd amser allan o'r gell yn dda a gallai rhai bechgyn fod allan o'r gell am tua 11 awr y dydd. Roedd y cyfleusterau llyfrgell ac Addysg Gorfforol yn dda. Roedd trosolwg strategol a rheolaeth weithredol o addysg hefyd yn dda. Roedd y sefydliad yn darparu ystod eang o weithgareddau i'r bechgyn. Roedd cwricwlwm priodol i oed yn cynorthwyo llythrennedd a rhifedd a hefyd yn dysgu sgiliau ar gyfer gweithio ar ôl rhyddhau. Roedd y bechgyn bron i gyd yn mynychu addysg ac yn cyflawni'n dda. Roedd addysgu o ansawdd da'n cael ei deilwrio i anghenion personol ac addysgol. Roedd y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## Argymhelliad

Dylai adnoddau dysgu ar-lein fod ar gael i'r bechgyn. (3.19)
**Heb ei gyflawni**

# Adsefydlu

**Mae'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu cynorthwyo'n effeithiol i baratoi ar gyfer eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned ac i fod yn llai tebygol o aildroseddu.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2018, roedd newidiadau addawol wedi eu gwneud i ddarparu'r gwaith adsefydlu ac roedd rheolwyr achos yn gweithio'n dda â staff yr uned. Roedd gan y bechgyn fynediad da at eu rheolwr achos ac yn deall y targedau ar eu cyfer yn eu cynlluniau. Roedd plant mewn gofal yn derbyn gofal da yn y carchar, ond roedd y cymorth gan y gymuned yn anghyson. Roedd rhyddhau'n fuan, cyrffyw cadw yn y cartref a rhyddhau ar drwydded dros dro'n cael eu rheoli'n dda. I'r rhan fwyaf o'r bechgyn, roedd y trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaethol (MAPPA) yn drylwyr. Roedd y gwaith gyda theuluoedd yn parhau i fod yn gryfder mawr a'r rhan fwyaf o'r bechgyn yn cael eu rhyddhau i lety addas. Fodd bynnag, roedd y gwaith adsefydlu'n ddigyswllt weithiau ac nid oedd y cynllunio dedfryd bob tro'n ystyried y risg o niwed a pha mor fregus fyddai'r bechgyn ar ôl eu rhyddhau, gan effeithio ar amddiffyn y cyhoedd ac ailintegreiddio'n ddiogel i rai bechgyn. Roedd y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## Prif argymhelliad

Dylid cwblhau asesiad cynhwysfawr o'r risg o niwed ar gyfer y bechgyn, yn dangos bod yr holl wybodaeth wedi'i hystyried, a'i ddefnyddio i oleuo eu rheolaeth ar yr uned a'r gwaith adsefydlu. Dylai'r holl waith adsefydlu a chynllunio rhyddhau a wneir gan bartneriaid mewnol ac allanol gael ei gydgysylltu o hyn ymlaen drwy'r rheolwr achos NEWT cyfrifol. (S40)
**Wedi'i gyflawni'n rhannol**

## Argymhellion

Dylai'r broses rheoli achosion ganolbwyntio'n glir ar adsefydlu fel bo'r bechgyn yn barod ar gyfer eu rhyddhau i'r gymuned. (4.9)
**Wedi'i gyflawni**

Dylai'r holl adrannau sy'n gweithio'n rheolaidd gyda bachgen fynychu ei gyfarfod cynllunio hyfforddi neu remand i roi adborth cyson a goleuo'r gwaith o gynllunio adsefydlu. (4.15)
**Wedi'i gyflawni**

Dylid cwrdd yn brydlon â hawliau statudol plant sy'n derbyn gofal ac adnabod cyfeiriadau addas i'w rhyddhau iddynt ar y cyfle cyntaf posib. (4.20)
**Wedi'i gyflawni**

Dylid datblygu strategaeth i sicrhau bod gan fechgyn sy'n gadael y carchar lety addas mewn pryd i orffen trefnu elfennau eraill y cynlluniau ar gyfer rhyddhau. (4.25)
**Heb ei gyflawni**

Dylai ymyriadau addas fod ar gael i fechgyn a gafwyd yn euog o droseddau rhyw. (4.41)
**Heb ei gyflawni**

# Atodiad III: Proffil poblogaeth y sefydliad

Dalier sylw: cafwyd y ffigurau canlynol gan y sefydliad ac os oes gwallau, rhai'r sefydliad ei hun ydynt.

**Dadansoddiad o'r boblogaeth yn ôl:**

| Statws | Nifer y bobl ifanc | % |
|---|---|---|
| Wedi eu dedfrydu | 29 | 74.4 |
| Wedi eu galw'n ôl [i'r carchar] | 2 | 5.1 |
| Cafwyd yn euog ond heb eu dedfrydu | 0 | |
| Ar remand | 8 | 20.5 |
| Carcharorion a gedwir yn y ddalfa | 0 | |
| **Cyfanswm** | **39** | **100%** |

| Oed | Nifer y bobl ifanc | % |
|---|---|---|
| 15 oed | 3 | 7.6% |
| 16 oed | 12 | 30.7% |
| 17 oed | 21 | 53.8% |
| 18 oed | 3 | 7.6% |
| Arall | | |
| **Cyfanswm** | **39** | **100%** |

| Cenedligrwydd | Nifer y bobl ifanc | % |
|---|---|---|
| Prydeinig | 35 | 89.7 |
| Gwladolion tramor | 4 | 10.3 |
| **Cyfanswm** | 39 | 100% |

| Tarddiad ethnig | Nifer y bobl ifanc | % |
|---|---|---|
| Gwyn | | |
| Prydeinig | 21 | 53.6 |
| Gwyddelig | 1 | 2.6 |
| Sipsiwn / Teithiwr Gwyddelig | | |
| Gwyn arall | 2 | 5.1 |
| | | |
| Cymysg | | |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1 | 2.6 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 1 | 2.6 |
| Gwyn ac Asiaidd | | |
| Cymysg arall | | |
| | | |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | | |
| Indiaidd | | |
| Pacistanaidd | 1 | 2.6 |
| Bangladeshaidd | | |
| Tsieineaidd | | |
| Asiaidd arall | 1 | 2.6 |
| | | |
| Du neu Ddu Prydeinig | | |
| Caribïaidd | 7 | 18 |
| Affricanaidd | 2 | 5.1 |
| Du arall | 1 | 2.6 |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Grŵp ethnig arall | | |
| Cefndir Arabaidd | | |
| Grŵp ethnig arall | 1 | 2.6 |
| | | |
| Heb nodi | | |
| **Cyfanswm** | **39** | **100%** |

| **Crefydd** | **Nifer y bobl ifanc** | **%** |
|---|---|---|
| Bedyddiwr | | |
| Eglwys Lloegr | 8 | 20.5 |
| Pabyddol | 5 | 12.8 |
| Enwadau Cristnogol eraill | 9 | 23.1 |
| Mwslim | 5 | 12.8 |
| Sikh | | |
| Hindŵ | | |
| Bwdhydd | 1 | 2.6 |
| Iddew | | |
| Arall | 4 | 10.3 |
| Dim crefydd | 7 | 17.9 |
| **Cyfanswm** | **39** | 100.0 |

| **Demograffeg arall** | **Nifer y bobl ifanc** | **%** |
|---|---|---|
| Sipsiwn / Romani / Teithiwr | 1 | 2.6 |
| | | |
| **Cyfanswm** | **1** | **2.6** |

**Wedi eu dedfrydu (yn unig) – hyd arhosiad yn ôl oed**

| **Hyd yr arhosiad** | <1 mis | 1-3 mis | 3-6 mis | 6–12 mis | 1-2 flynedd | 2+ flynedd | 4+ blynedd | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oed** | | | | | | | | |
| 15 oed | | | 1 | 1 | | | | **2** |
| 16 oed | | 2 | 1 | | 1 | 4 | 2 | **10** |
| 17 oed | | 1 | | 2 | 4 | 5 | 3 | **15** |
| 18 oed | | | | | 1 | | 1 | **2** |
| **Cyfanswm** | | **3** | **2** | **3** | **6** | **9** | **6** | **29** |

**Heb eu dedfrydu (yn unig) – hyd arhosiad yn ôl oed**

| **Hyd yr arhosiad** | <1 mis | 1-3 mis | 3-6 mis | 6–12 mis | 1-2 flynedd | 2+ flynedd | 4+ blynedd | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oed** | | | | | | | | |
| 15 oed | | 1 | | | | | | **1** |
| 16 oed | 1 | | 1 | | | | | **2** |
| 17 oed | | 1 | 2 | | | | | **3** |
| 18 oed | | 1 | | | | | | **1** |
| **Cyfanswm** | **1** | **3** | **3** | | | | | **7** |

| **Prif drosedd** | **Nifer y bobl ifanc** | **%** |
|---|---|---|
| Trais yn erbyn y person | 21 | 53.8 |
| Troseddau rhywiol | 1 | 2.6 |
| Bwrglera | 4 | 10.3 |
| Lladrata | 7 | 17.9 |
| Dwyn a thrin nwyddau wedi eu dwyn | | |
| Twyllo a ffugio | | |
| Troseddau cyffuriau | 4 | 10.3 |
| Troseddau eraill | 2 | 5.1 |
| Trosedd heb ei gofnodi / gwarant i ddal | | |
| **Cyfanswm** | **39** | **100** |

**Nifer y Gorchmynion DTO yn ôl oed a dedfryd, gan gynnwys amser yn y gymuned**

| **Dedfryd** | 4 mis | 6 mis | 8 mis | 10 mis | 12 mis | 18 mis | 24 mis | Wedi eu galw'n ôl | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oed** | | | | | | | | | |
| 15 oed | | 1 | | | | | | 1 | **2** |
| 16 oed | 2 | | | | | 1 | 1 | | **4** |
| 17 oed | 1 | | 1 | | 1 | 4 | | | **7** |
| 18 oed | | | | | | 1 | | | **1** |
| **Cyfanswm** | **3** | **1** | **1** | | **1** | **6** | **1** | **1** | **14** |

**Nifer y dedfrydau Adran 91s (dedfrydau penodol yn unig) yn ôl oed a hyd y ddedfryd**

| **Dedfryd** | Llai na 2 flynedd | 2-3 blynedd | 3-4 blynedd | 4-5 mlynedd | 5+ mlynedd | Wedi eu galw'n ôl | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oed** | | | | | | | |
| 15 oed | | | | | | | |
| 16 oed | | **1** | **2** | **2** | **1** | | **6** |
| 17 oed | | **1** | **3** | **1** | **1** | | **6** |
| 18 oed | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | **2** | **5** | **3** | **2** | | **12** |

**Nifer y dedfrydau amhenodol o dan Adran 226b (dedfrydau penodol wedi eu hymestyn) yn ôl oed a hyd y ddedfryd**

| **Dedfryd** | Llai na 2 flynedd | 2-5 mlynedd | 5-10 mlynedd | 10-15 mlynedd | 15-20 mlynedd | Wedi eu galw'n ôl | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oed** | | | | | | | |
| 15 oed | | | | | | | |
| 16 oed | | | | | | | |
| 17 oed | | **1** | | | | | **1** |
| 18 oed | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | **1** | | | | | **1** |

**Nifer y dedfrydau oes gorfodol o dan Adran 90 yn ôl oed a hyd y ddedfryd**

| **Dedfryd** | Llai na 2 flynedd | 2-5 mlynedd | 5-10 mlynedd | 10-15 mlynedd | 15-20 mlynedd | 20+ mlynedd | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oed** | | | | | | | |
| 15 oed | | | | | | | |
| 16 oed | | | | | | | |
| 17 oed | | | | | **1** | | **1** |
| 18 oed | | | | **1** | | | **1** |
| **Cyfanswm** | | | | **1** | **1** | | **2** |

# Atodiad IV: Crynodeb o’r holiaduron a’r cyfweliadau

## Methodoleg yr arolwg plant

Mae arolwg plant cyfrinachol yn cael ei gyflawni ar ddechrau bob arolygiad. Cynigir holiadur i'w lenwi gan bob plentyn sy'n breswyl yn y sefydliad ar ddiwrnod yr arolwg. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau ffurfiol yn ymwneud â 'siwrne' y plentyn o gael eu derbyn i'w rhyddhau, ynghyd â chwestiynau demograffig a chefndir fel y gallwn gymharu atebion o wahanol is-grwpiau (os yw'r niferoedd yn caniatáu). Mae yna hefyd rai cwestiynau agored sy'n rhoi cyfle i blant fynegi, yn eu geiriau eu hunain, beth yn eu barn nhw yw'r pethau mwyaf cadarnhaol a negyddol am y sefydliad.

Defnyddir canlyniadau'r arolwg yn yr arolygiad drwy eu triongli ag arsylwadau a thrafodaethau'r arolygwyr â phlant a staff a gyda'r gwaith papur a gedwir yn y sefydliad. Rhoddir mwy o fanylion yn adroddiad yr arolygydd.

Mae'r holiadur presennol wedi bod ar waith ers mis Hydref 2018 ac yn cael ei ddefnyddio i gefnogi arolygiadau o ganolfannau STC a sefydliadau YOI sy'n dal plant. Datblygwyd yr holiadur drwy ymgynghori ag arolygwyr Ofsted a HMIP. Profwyd cwestiynau drafft gyda phlant yn y ddau fath o sefydliad ac roedd eu mewnbwn a'u hadborth yn amhrisiadwy i wella perthnasedd a hygyrchedd y cwestiynau.

### Dosbarthu a chasglu'r holiaduron

Mae ymchwilwyr HMIP yn dosbarthu a chasglu'r holiaduron yn bersonol. Fel bod plant yn gallu rhoi eu caniatâd gwybodus[12] i gymryd rhan, mae pwrpas yr arolwg a'r arolygiad yn cael ei egluro. Nodwn yn glir y gall yr holiadur hefyd gael ei weinyddu drwy gyfweliad wyneb-yn-wyneb i rai gydag anawsterau llythrennedd a thrwy'r gwasanaeth cyfieithu ffôn i rai heb lawer o Saesneg.

Mae plant yn cael gwybod fod cymryd rhan yn yr arolwg yn wirfoddol. Eglurwn hefyd, er nad oes angen i ni roi eu henw ar yr holiadur, y gellir adnabod y rhai sy'n cymryd rhan yn yr arolwg drwy system rifo y bydd neb ond y tîm arolygu yn cael mynediad ati. Gwneir hyn er mwyn gallu ôl-ddilyn unrhyw bryderon amddiffyn a diogelu plant (gweler yr adran isod am wybodaeth bellach).

Mae plant sy'n cytuno i gymryd rhan yn yr arolwg yn derbyn amlen wedi'i selio i roi'r holiadur ynddi ar ôl ei lenwi, fydd yna'n cael ei gasglu gan ymchwilwyr nes ymlaen.

### Amddiffyn a diogelu plant

Mae pob holiadur wedi'i lenwi'n cael ei wirio gan ymchwilwyr, ar ddiwrnod yr arolwg, i nodi unrhyw faterion amddiffyn a diogelu plant posib. Mae unrhyw bryderon yn cael eu hôl-ddilyn gan arolygwyr a'u pasio ymlaen i staff y sefydliad lle bo angen

[12] Am fwy o wybodaeth am yr egwyddorion moesegol y mae methodoleg yr arolygiad yn seiliedig arnynt, dylid darllen ‘Ethical principles for research activities’ sydd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan HMIP yn http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-our-inspections/

## Canlyniadau’r arolwg

### Cyfradd ymateb

Pan wnaed yr arolwg ar 11 Tachwedd 2019, roedd poblogaeth HMYOI Parc yn 38. Yn defnyddio'r dull a ddisgrifir uchod o weithredu, dosbarthwyd holiaduron i 37 o blant.[13]

Derbyniwyd cyfanswm o 33 o holiaduron wedi eu llenwi, cyfradd ymateb o 89%. Penderfynodd ddau blentyn beidio â chwblhau'r arolwg ac ni chafodd ddau holiadur arall eu dychwelyd.

### Canlyniadau'r arolwg a'r dadansoddiad

Dros y tudalennau canlynol cyflwynwn ganlyniadau'r arolwg ar gyfer HMYOI Parc.

Yn gyntaf, rhoddir dadansoddiad llawn o'r atebion i bob cwestiwn. Mae canrannau wedi cael eu cyfannu ac felly efallai na fyddant yn adio i 100%.

Cyflwynwn hefyd y dadansoddiadau cymariaethol canlynol:

- Roedd yr atebion i'r arolwg gan HMYOI Parc 2019 yn gymharol i'r atebion gan sefydliadau YOI eraill sy'n dal plant. Cafodd yr arolygon cymariaethol eu cyflawni mewn pum sefydliad YOI ers Chwefror 2019.
- Roedd yr atebion i'r arolwg gan HMYOI Parc 2019 yn gymharol i'r atebion gan blant a holwyd drwy arolwg yn HMYOI Parc 2018.
- Roedd yr atebion i'r arolwg gan HMYOI Parc 2019 yn gymharol i'r atebion gan sefydliadau YOI eraill sy'n dal plant. Cafodd yr arolygon cymariaethol eu cyflawni mewn tair canolfan STC a phum sefydliad YOI ers Hydref 2018.
- Cymhariaeth, ar gyfer arolwg HMYOI Parc 2019, rhwng atebion plant o gefndiroedd du a lleiafrifol ethnig, ac atebion plant gwyn.
- Cymhariaeth, ar gyfer arolwg HMYOI Parc 2019, rhwng atebion plant a ddywedodd eu bod wedi bod dan ofal yr awdurdod lleol, a rhai a ddywedodd nad oeddent.

Ym mhob dadansoddiad cymariaethol uchod, defnyddir graddliwio i nodi unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol.[14] Dangosir canlyniadau arwyddocaol well gan raddliwio gwyrdd a chanlyniadau arwyddocaol waeth gan raddliwio glas. Os nad yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol, nid oes graddliwio. Defnyddiwyd graddliwio oren i ddangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ym manylion cefndir y plant.

Mewnolir cwestiynau wedi'u hidlo'n glir gan roi esboniad yn gyntaf o sut y defnyddiwyd yr hidlydd. Mae'r canrannau ar gyfer cwestiynau wedi'u hidlo'n cyfeirio at nifer y plant a hidlwyd i'r cwestiwn hwnnw. Ar gyfer yr holl gwestiynau eraill, mae'r canrannau'n cyfeirio at gyfanswm yr atebion i'r cwestiwn hwnnw. Eithriwyd pob ateb coll o'r dadansoddiadau.

---

[13] Ni chafodd holiadur ei ddosbarthu i un plentyn, oedd yn y llys ar ddiwrnod yr arolygiad.

[14] Gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ddwy sampl yw un sy'n annhebygol o fod wedi codi ar siawns yn unig a lle gellir felly cymryd yn ganiataol ei fod yn cynrychioli gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y ddwy boblogaeth. Er mwyn addasu gwerthoedd-p yn briodol yng ngoleuni profion lluosog, ystyriwyd bod $p<0.01$ yn ystadegol arwyddocaol ar gyfer pob cymhariaeth a wnaed. Mae'n golygu mai dim ond 1% o siawns oedd bod y gwahaniaeth wedi digwydd ar siawns.

# Crynodeb o'r arolwg

## Gwybodaeth gefndir

**C1.1 Ar ba adain, uned neu floc ydych chi'n byw?**

| | |
|---|---|
| Uned E | 15 (45%) |
| Uned G | 18 (55%) |

**C1.2 Faint yw eich oed chi?**

| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18+ oed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (3%) | 10 (31%) | 19 (59%) | 2 (6%) |

**C1.3 Beth yw eich rhywedd?**

| | |
|---|---|
| Gwryw | 32 (97%) |
| Benyw | 1 (3%) |

**C1.4 Beth yw eich tarddiad ethnig?**

| | |
|---|---|
| Gwyn – O Loegr / O Gymru / O'r Alban / O Ogledd Iwerddon / Prydeinig | 17 (52%) |
| Gwyn - Gwyddelig | 1 (3%) |
| Gwyn – Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | 0 (0%) |
| Gwyn – unrhyw gefndir Gwyn arall | 2 (6%) |
| Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd | 2 (6%) |
| Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd | 1 (3%) |
| Cymysg – Gwyn ac Asiaidd | 1 (3%) |
| Cymysg – unrhyw gefndir ethnig Cymysg 0} | 1 (3%) |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Indiaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd | 1 (3%) |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd – unrhyw gefndir Asiaidd arall | 0 (0%) |
| Du / Du Prydeinig - Caribïaidd | 3 (9%) |
| Du / Du Prydeinig - Affricanaidd | 2 (6%) |
| Du - unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall | 1 (3%) |
| Cefndir Arabaidd | 1 (3%) |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 0 (0%) |

**C1.5 Oes gennych chi blant?**

| | |
|---|---|
| Oes | 2 (6%) |
| Nag oes | 30 (94%) |

**C1.6 Ydych chi'n aelod o gymuned deithiol (e.e. Sipsiwn, Roma, Teithiwr Gwyddelig)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 2 (6%) |
| Nac ydw | 31 (94%) |

**C1.7 Ydych chi erioed wedi bod dan ofal awdurdod lleol (e.e. wedi byw gyda rhieni maeth neu mewn cartref plant, neu wedi bod â gweithiwr cymdeithasol)?**

| | |
|---|---|
| Do | 20 (61%) |
| Naddo | 13 (39%) |

## Cyrraedd a chynefino

**C2.1 Pan gawsoch eich chwilio wrth gael eich derbyn, a wnaed hyn mewn ffordd barchus?**

| | |
|---|---|
| Do | 24 (73%) |
| Naddo | 1 (3%) |
| Ddim yn cofio | 4 (12%) |
| Ni chefais fy chwilio | 4 (12%) |

**C2.2 Ar y cyfan, sut gawsoch eich trin wrth gael eich derbyn?**

| | |
|---|---|
| Yn dda | 27 (84%) |
| Yn wael | 2 (6%) |
| Ddim yn cofio | 3 (9%) |

**C2.3 Ar ôl cyrraedd, a wnaeth staff eich helpu gydag unrhyw broblemau neu bryderon?**

| | |
|---|---|
| Do | 17 (52%) |
| Naddo | 6 (18%) |
| Ddim yn cofio | 0 (0%) |
| Nid oedd gen i broblemau na phryderon | 10 (30%) |

**C2.4 Oeddech chi'n teimlo'n ddiogel ar eich noson gyntaf yma?**

| | |
|---|---|
| Oeddwn | 27 (82%) |
| Nag oeddwn | 5 (15%) |
| Ddim yn cofio | 1 (3%) |

**C2.5 Yn ystod y diwrnodau cyntaf, a gawsoch wybod am bopeth i'w wneud â bywyd yma?**

| | |
|---|---|
| Do | 24 (75%) |
| Naddo | 8 (25%) |

## Amodau byw

**C3.1 Pa mor gyffyrddus yw tymheredd eich cell?**

| | |
|---|---|
| Rhy oer | 11 (35%) |
| Tua iawn | 17 (55%) |
| Rhy boeth | 3 (10%) |

**C3.2 Allwch chi gael cawod bob dydd?**

| | |
|---|---|
| Gallaf | 30 (91%) |
| Na allaf | 2 (6%) |
| Ddim yn gwybod | 1 (3%) |

**C3.3 A oes gennych fel arfer ddigon o ddillad glân, addas am yr wythnos?**

| | |
|---|---|
| Oes | 31 (94%) |
| Nag oes | 2 (6%) |
| Ddim yn gwybod | 0 (0%) |

**C3.4 A ydych yn cael dillad gwely glân bob wythnos?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 28 (88%) |
| Nac ydw | 4 (13%) |
| Ddim yn gwybod | 0 (0%) |

**C3.5 A allwch gael gafael ar eich eiddo mewn storfa os oes angen?**

| | |
|---|---|
| Gallaf | 20 (61%) |
| Na allaf | 5 (15%) |
| Ddim yn gwybod | 8 (24%) |

**C3.6 A yw fel arfer yn ddigon tawel ichi ymlacio neu gysgu gyda'r nos?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 18 (55%) |
| Nac ydy | 12 (36%) |
| Ddim yn gwybod | 3 (9%) |

**C3.7 Ydych chi fel arfer yn treulio mwy na dwy awr allan o'ch cell yn ystod yr wythnos?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 33 (100%) |
| Nac ydw | 0 (0%) |
| Ddim yn gwybod | 0 (0%) |

**C3.8 Ydych chi fel arfer yn treulio mwy na dwy awr allan o'ch cell ar ddydd Sadwrn a Sul?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 26 (79%) |
| Nac ydw | 6 (18%) |
| Ddim yn gwybod | 1 (3%) |

## Bwyd a'r ffreutur

**C4.1 Sut beth yw'r bwyd yma?**

| | |
|---|---|
| Da iawn | 0 (0%) |
| Eithaf da | 4 (13%) |
| Eithaf gwael | 13 (41%) |
| Gwael iawn | 15 (47%) |

**C4.2 Ydych chi'n cael digon i'w fwyta amser bwyd?**

| | |
|---|---|
| Bob amser | 2 (6%) |
| Y rhan fwyaf o'r amser | 5 (15%) |
| Peth o'r amser | 20 (61%) |
| Byth | 6 (18%) |

**C4.3 Ydy'r ffreutur yn gwerthu'r pethau sydd ei angen arnoch?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 26 (79%) |
| Nac ydy | 6 (18%) |
| Ddim yn gwybod | 1 (3%) |

## Iechyd a lles

**C5.1 Pa mor hawdd neu anodd yw cael gweld y staff iechyd canlynol?**

| | Hawdd | Anodd | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Meddyg | 17 (52%) | 13 (39%) | 3 (9%) |
| Nyrs | 25 (78%) | 6 (19%) | 1 (3%) |
| Deintydd | 17 (53%) | 12 (38%) | 3 (9%) |
| Gweithwyr iechyd meddwl | 19 (59%) | 7 (22%) | 6 (19%) |

**C5.2 A oes gennych broblemau iechyd (gan gynnwys problemau iechyd meddwl)?**

| | |
|---|---|
| Oes | 13 (39%) |
| Nag oes | 20 (61%) |

**C5.3 A gawsoch gymorth gyda'ch problemau iechyd ers i chi fod yma?**

| | |
|---|---|
| Do | 7 (21%) |
| Naddo | 6 (18%) |
| Nid oes gen i broblemau iechyd | 20 (61%) |

**C5.4 A oes gennych anabledd? Mae hyn yn cynnwys anghenion corfforol, meddwl neu ddysgu sy'n effeithio ar eich bywyd bob dydd.**

| | |
|---|---|
| Oes | 8 (24%) |
| Nag oes | 25 (76%) |

**C5.5 Os oes gennych anabledd, ydych chi'n derbyn y cymorth angenrheidiol?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 2 (6%) |
| Nac ydw | 4 (13%) |
| Nid oes gen i anabledd | 25 (81%) |

**C5.6 A oedd gennych broblem alcohol pan ddaethoch yma?**

| | |
|---|---|
| Oedd | 4 (12%) |
| Nag oedd | 29 (88%) |

**C5.7 A oedd gennych broblem gyffuriau pan ddaethoch yma?**

| | |
|---|---|
| Oedd | 8 (24%) |
| Nag oedd | 25 (76%) |

**C5.8 A gawsoch gymorth gyda'ch problem gyffuriau neu alcohol ers i chi fod yma?**

| | |
|---|---|
| Do | 6 (18%) |
| Naddo | 3 (9%) |
| Nid oedd gen i broblem gyffuriau nac alcohol | 24 (73%) |

**C5.9 A allwch dreulio amser allan yn yr awyr iach y rhan fwyaf o ddiwrnodau (heb gyfrif amser yn mynd i ac o'ch gweithgareddau)?**

| | |
|---|---|
| Gallaf | 25 (78%) |
| Na allaf | 5 (16%) |
| Ddim yn gwybod | 2 (6%) |

**C5.10 Pa mor aml ydych chi'n mynd i'r gampfa neu'n gwneud chwaraeon?**

| | |
|---|---|
| Mwy nag unwaith yr wythnos | 22 (67%) |
| Tua unwaith yr wythnos | 9 (27%) |
| Llai nag unwaith yr wythnos | 0 (0%) |
| Byth | 2 (6%) |

## Cwynion

**C6.1 Ydych chi'n gwybod sut i wneud cwyn?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 26 (81%) |
| Nac ydw | 6 (19%) |

**C6.2 Os ydych wedi gwneud cwyn ers bod yma, atebwch y cwestiynau isod:**

| | Do | Naddo | Heb wneud cwyn |
|---|---|---|---|
| A ddeliwyd yn deg gyda'ch cwynion fel arfer? | 3 (10%) | 4 (13%) | 24 (77%) |
| A ddeliwyd gyda'ch cwynion o fewn saith diwrnod fel arfer? | 2 (6%) | 5 (16%) | 24 (77%) |

**C6.3 Ydych chi erioed wedi teimlo'n rhy ofnus i wneud cwyn?**

| | |
|---|---|
| Do | 4 (13%) |
| Naddo | 16 (52%) |
| Erioed wedi bod eisiau gwneud cwyn | 11 (35%) |

## Diogelwch pobl ac eiddo

**C7.1 Ydych chi erioed wedi teimlo'n anniogel yma?**

| | |
|---|---|
| Do | 10 (30%) |
| Naddo | 23 (70%) |

**C7.2 Ydych chi'n teimlo'n anniogel nawr?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 2 (6%) |
| Nac ydw | 29 (94%) |

**C7.4 Oes rhywun fel arfer yn ateb cloch frys y gell, neu'r intercom, o fewn 5 munud?**

| | |
|---|---|
| Oes | 22 (67%) |
| Nag oes | 11 (33%) |
| Ddim yn gwybod | 0 (0%) |

| | | |
|---|---|---|
| **C7.5** | **A oes unrhyw un o'r bobl ifanc eraill yma wedi gwneud y canlynol i chi?** | |
| | Cam-drin geiriol | 14 (45%) |
| | Bygwth neu godi ofn | 11 (35%) |
| | Ymosod yn gorfforol | 6 (19%) |
| | Ymosod yn rhywiol | 2 (6%) |
| | Cael eich gorfodi i ymosod ar berson ifanc arall | 4 (13%) |
| | Dwyn eiddo neu eitemau a brynwyd | 5 (16%) |
| | Bwlio neu fictimeiddio arall | 3 (10%) |
| | Ni wnaeth unrhyw berson ifanc ddim o'r pethau hyn i mi | 14 (45%) |
| **C7.6** | **Pe byddech yn cael eich bwlio / fictimeiddio gan bobl ifanc eraill yma, fyddech chi'n ei ryportio?** | |
| | Byddwn | 10 (31%) |
| | Na fyddwn | 22 (69%) |
| **C7.7** | **Ydy'r staff erioed wedi gwneud unrhyw un o'r canlynol i chi?** | |
| | Cam-drin geiriol | 13 (39%) |
| | Bygwth neu godi ofn | 7 (21%) |
| | Ymosod yn gorfforol | 6 (18%) |
| | Ymosod yn rhywiol | 1 (3%) |
| | Dwyn eiddo neu eitemau a brynwyd | 2 (6%) |
| | Bwlio neu fictimeiddio arall | 2 (6%) |
| | Ni wnaeth y staff yma ddim o'r pethau hyn i mi | 20 (61%) |
| **C7.8** | **Pe byddech yn cael eich bwlio / fictimeiddio gan y staff yma, fyddech chi'n ei ryportio?** | |
| | Byddwn | 16 (50%) |
| | Na fyddwn | 16 (50%) |

## Rheoli ymddygiad

| | | |
|---|---|---|
| **C8.1** | **Ydy'r gwobrau neu'r cymhellion am ymddygiad da'n eich annog i ymddwyn yn dda?** | |
| | Ydynt | 13 (41%) |
| | Nac ydynt | 14 (44%) |
| | Ddim yn gwybod | 5 (16%) |
| **C8.2** | **Ydych chi'n meddwl bod y system wobrwyo neu gymhellion yn deg?** | |
| | Ydy | 12 (40%) |
| | Nac ydy | 14 (47%) |
| | Ddim yn gwybod | 4 (13%) |
| **C8.3** | **Ydy'r staff fel arfer yn dweud wrthych os yw eich ymddygiad yn dda?** | |
| | Ydynt | 20 (63%) |
| | Nac ydynt | 12 (38%) |
| **C8.4** | **Os ydych yn mynd i helynt, ydy'r staff fel arfer yn egluro beth wnaethoch o'i le?** | |
| | Ydynt | 20 (63%) |
| | Nac ydynt | 9 (28%) |
| | Ddim yn berthnasol (erioed wedi bod mewn helynt yma) | 3 (9%) |
| **C8.5** | **Ydych erioed wedi eich atal yn gorfforol (e.e. MMPR) ers bod yma?** | |
| | Do | 24 (77%) |
| | Naddo | 7 (23%) |

**C8.6 Os cawsoch eich atal yn gorfforol, a ddaeth aelod o staff i siarad gyda chi am y peth wedyn?**

| | |
|---|---|
| Do | 18 (56%) |
| Naddo | 7 (22%) |
| Ddim yn cofio | 0 (0%) |
| Heb gael fy atal yn gorfforol yma | 7 (22%) |

**C8.7 Ers bod yma, a gawsoch erioed eich cadw dan glo a chael eich atal rhag cymysgu â phobl eraill <u>fel cosb</u>?**

| | |
|---|---|
| Do | 23 (72%) |
| Naddo | 9 (28%) |

## Staff

**C9.1 Ydych chi'n teimlo bod y rhan fwyaf o'r staff yma'n ofalgar ohonoch?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | 20 (61%) |
| Nac ydynt | 13 (39%) |

**C9.2 A yw'r rhan fwyaf o'r staff yn eich trin yn barchus?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | 23 (72%) |
| Nac ydynt | 9 (28%) |

**C9.3 Pe bai gennych broblem, a oes staff yma y gallech droi atynt am gymorth?**

| | |
|---|---|
| Oes | 26 (81%) |
| Nag oes | 6 (19%) |

**C9.4 Allwch chi siarad gydag eiriolwr o Barnardo pe bai angen?**

| | |
|---|---|
| Gallaf | 27 (84%) |
| Na allaf | 2 (6%) |
| Ddim yn gwybod | 3 (9%) |

## Ffydd

**C10.1 Beth yw eich crefydd?**

| | |
|---|---|
| Dim crefydd | 12 (36%) |
| Cristnogol (gan gynnwys Eglwys Lloegr, Pabyddol a changhennau eraill o Gristnogaeth) | 15 (45%) |
| Bwdhydd | 0 (0%) |
| Hindŵ | 0 (0%) |
| Iddew | 0 (0%) |
| Mwslim | 4 (12%) |
| Sikh | 0 (0%) |
| Arall | 2 (6%) |

**C10.2 A yw eich credoau crefyddol yn cael eu parchu yma?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | 15 (45%) |
| Nac ydynt | 3 (9%) |
| Ddim yn gwybod | 3 (9%) |
| Ddim yn berthnasol (dim crefydd) | 12 (36%) |

**C10.3 Allwch chi siarad yn breifat gyda Chaplan eich ffydd, pe bai angen?**

| | |
|---|---|
| Gallaf | 18 (55%) |
| Na allaf | 1 (3%) |
| Ddim yn gwybod | 2 (6%) |
| Ddim yn berthnasol (dim crefydd) | 12 (36%) |

## Cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau

**C11.1 A oes unrhyw un yma wedi eich helpu i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau?**

| | |
|---|---|
| Oes | 30 (91%) |
| Nag oes | 3 (9%) |

**C11.2 Allwch chi ffonio bob dydd (os oes gennych gredyd)?**

| | |
|---|---|
| Gallaf | 33 (100%) |
| Na allaf | 0 (0%) |

**C11.3 Pa mor hawdd neu anodd yw i'ch teulu a'ch ffrindiau ddod yma?**

| | |
|---|---|
| Hawdd iawn | 3 (9%) |
| Eithaf hawdd | 10 (30%) |
| Eithaf anodd | 8 (24%) |
| Anodd iawn | 12 (36%) |
| Ddim yn gwybod | 0 (0%) |

**C11.4 Pa mor aml ydych chi'n cael ymweliad gan deulu neu ffrindiau?**

| | |
|---|---|
| Mwy nag unwaith yr wythnos | 4 (13%) |
| Tua unwaith yr wythnos | 11 (34%) |
| Llai nag unwaith yr wythnos | 10 (31%) |
| Ddim yn berthnasol (neb wedi dod i fy ngweld) | 7 (22%) |

## Addysg a hyfforddiant

**C12.1 Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol ar y funud?**

| | |
|---|---|
| Addysg | 32 (97%) |
| Hyfforddiant ar gyfer swydd (galwedigaethol) | 3 (9%) |
| Gwaith cyflogedig | 2 (6%) |
| Ymyriadau (e.e. rhaglenni ymddygiad troseddol) | 9 (27%) |
| Dim un o'r rhain | 0 (0%) |

**C12.2 Ydy'r staff yn eich annog i fynychu addysg, hyfforddiant neu waith?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | 28 (88%) |
| Nac ydynt | 4 (13%) |

**C12.3 Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth yma fydd yn eich helpu ar ôl cael eich rhyddhau (e.e. addysg neu sgiliau)?**

| | |
|---|---|
| Do | 27 (82%) |
| Naddo | 6 (18%) |

## Paratoi i symud ymlaen

**C13.1 A oes cynllun yr ydych yn ei drafod wrth gyfarfod â'ch gweithiwr YOT yn egluro beth sydd angen i chi weithio arno tra byddwch yma (e.e. eich targedau neu amcanion)?**

| | |
|---|---|
| Oes | 22 (69%) |
| Nag oes | 7 (22%) |
| Ddim yn gwybod | 3 (9%) |

**C13.2 A ydych yn deall beth sydd angen i chi ei wneud i gyflawni eich amcanion neu dargedau?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 17 (57%) |
| Nac ydw | 3 (10%) |
| Ddim yn gwybod beth yw fy amcanion neu dargedau | 10 (33%) |

**C13.3 A yw'r staff yma'n eich cefnogi i gyflawni eich amcanion neu dargedau?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | 17 (55%) |
| Nac ydynt | 4 (13%) |
| Ddim yn gwybod beth yw fy amcanion neu dargedau | 10 (32%) |

**C13.4 A oes unrhyw un yma'n eich helpu i baratoi ar gyfer gadael?**

| | |
|---|---|
| Oes | 15 (48%) |
| Nag oes | 16 (52%) |

**C13.5 A gawsoch lais yn yr hyn fydd yn digwydd ichi pan gewch eich rhyddhau?**

| | |
|---|---|
| Do | 18 (58%) |
| Naddo | 13 (42%) |

## Cwestiynau i gloi am y sefydliad YOI hwn

**C14.1 A gredwch fod eich profiadau yma wedi eich gwneud yn fwy neu'n llai tebygol o droseddu yn y dyfodol?**

| | |
|---|---|
| Yn fwy tebygol o droseddu | 1 (3%) |
| Yn llai tebygol o droseddu | 20 (65%) |
| Heb wneud unrhyw wahaniaeth | 10 (32%) |